cbac wjec

# Achosion rhyfel:

# Ai'r un achos a fu erioed i ryfeloedd dros amser?

# Achosion rhyfel yn gyffredinol

## Trosolwg

**'Roedd gan bob oes ei math ei hun o ryfel, ei hamodau cyfyngol a'i rhagdybiaethau ei hun'. - Carl von Clausewitz (1780-1831), cadfridog Prwsiaidd a damcaniaethwr milwrol.**

Mae mwy nag un peth yn achosi rhyfel. Mae achosion rhyfeloedd dros amser wedi bod yn amrywiol ond mae ganddyn nhw nodweddion tebyg, sylfaenol. Mae ffactorau gwleidyddol, economaidd, crefyddol, cenedlaetholgar ac ideolegol wedi achosi rhyfeloedd ac mae gwyddoniaeth a thechnegol wedi siapio rhyfela ei hun.

Mae ymchwil diweddar wedi datgelu mai dim ond 292 o flynyddoedd sydd wedi bod heb ryfel ers 3,600 CC. Yn yr hen fyd roedd pobl nomadig yn mynd i ryfel dros hawliau pori a'r posibilrwydd o gael eu hysbeilio. Sefydlwyd yr Ymerodraeth Rufeinig drwy ryfela a chafodd ei dinistrio gan ryfela yn y pen draw. Crefydd oedd un o brif achosion rhyfel yn y cyfnod cynnar ac yn yr oes fodern mae imperialaeth a chystadleuaeth fasnachol wedi arwain at ryfel rhwng cenhedloedd.

Mae achosion yn arwain at ganlyniadau. Mae dros 150 miliwn o bobl wedi marw oherwydd rhyfeloedd a chollwyd 96% o'r bywydau hyn yn ystod y 400 mlynedd diwethaf.

Mae'r cysyniad o 'ryfel diarbed' yn y cyfnod diweddar, lle daw sifiliaid yn dargedau, wedi arwain at fwy o farwolaethau. Yn y Rhyfel Byd Cyntaf lladdwyd 8.4 miliwn o filwyr ac 1.4 miliwn o sifiliaid. Yn yr Ail Ryfel Byd lladdwyd 16.9 miliwn o filwyr a 34.3 miliwn o sifiliaid. Ers 1945 amcangyfrifir bod 90% o'r bobl sydd wedi marw neu wedi'u hanafu oherwydd rhyfeloedd yn sifiliaid, nifer mawr ohonyn nhw'n blant. Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi amcangyfrif bod 2 filiwn o blant wedi marw mewn gwrthdaro milwrol yn ystod y degawd diwethaf.

Mae ymdrechion dynolryw i ddileu rhyfeloedd wedi methu. Methodd y Rhyfel Byd Cyntaf neu'r 'rhyfel i orffen pob rhyfel' â sicrhau heddwch. Disgrifiwyd yr Ail Ryfel Byd fel busnes anorffenedig y Rhyfel Byd Cyntaf. Methodd sefydliadau fel Cynghrair y Cenhedloedd a'i olynydd y Cenhedloedd Unedig ag atal rhyfeloedd. Ers 1945, fodd bynnag, does dim rhyfel wedi bod rhwng y pwerau mawr gan fod Cyd–ddinistr

Sicr (*MAD: Mutually Assured Destruction*) wedi llwyddo i atal rhyfel. Yn y cyfnod ar ôl 1945 mae 9 rhyfel o bob 10 wedi digwydd mewn gwledydd gwan, ansefydlog y Trydydd Byd.

Efallai fod y byd heddiw yn ymddangos yn lle peryglus ond tuedd y pwerau mawr yw ceisio peidio â rhyfela.

'Mae'n debyg ein bod yn byw heddiw yn y cyfnod mwyaf heddychlon yn hanes ein rhywogaeth' – Steven Pinker (2007), Athro Seicoleg Harvard.

## Crefydd fel achos croesgadau'r Oesoedd Canol

Cyfres o ymgyrchoedd milwrol oedd y Croesgadau rhwng diwedd yr unfed ganrif ar ddeg a diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Y babaeth a ddechreuodd nhw yn yr Oesoedd Canol i achub y Tir Sanctaidd rhag rheolaeth gan Fwslimiaid.

Cyfuniad o ffactorau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ond rhai crefyddol yn bennaf oedd achos y croesgadau.

- **Gwleidyddol** – i ailuno'r Eglwys Gatholig Orllewinol ac Eglwys Uniongred Ddwyreiniol Groeg.
- **Economaidd** – roedd gwladwriaethau masnach yr Eidal eisiau ehangu eu masnach ym Môr y Canoldir ar adeg pan oedd Mwslimiaid yn rheoli llawer o borthladdoedd strategol.
- **Cymdeithasol** – roedd y Croesgadau'n cynnig rhyddid cymdeithasol i gymdeithas a oedd yn cael ei gorlwytho gan foneddigion heb dir. Roedd hyn yn ganlyniad i'r drefn gyntaf-anedigaeth lle'r oedd y mab cyfreithiol hynaf yn etifeddu holl dir ei rieni. Roedd y croesgadau'n cynnig cyfle i ennill tiroedd yn y Dwyrain Canol. Os oedd bonheddwr yn mynd ar groesgad byddai ei farchogion yn ei ddilyn i'r frwydr fel rhan o'u rhwymedigaethau ffiwdal.
- **Crefyddol** – Yn 1095 rhoddodd y pab Urban II araith ddramatig i Gyngor Clermont yn annog Cristnogion i fynd i ryfel er mwyn achub Jerwsalem rhag rheolaeth Fwslimaidd. Ymateb y dorf a oedd wedi ymgasglu oedd dechrau llafarganu '*Deus vult*', 'ewyllys Duw yw hyn'. Cafodd y marchogion alwad



Ffynhonell 1: Y Brenin Rhisiart I – Llewgalon – yn ystod Croesgad

sanctaidd a daethon nhw yn ddeiliaid i Dduw. Roedd Cristnogion duwiol yn achub ar y cyfle i fynd ar bererindodau neu deithiau ysbrydol i'r lleoedd a oedd yn gysylltiedig ag Iesu. Roedd 'cymryd y Groes' yn brawf perffaith o gariad a defosiwn Cristnogol at Dduw. Byddai'r croesgadwyr yn cael maddeuant am eu pechodau gan dreulio llai o amser ym mhurdan (lle byddai pechodau yn cael eu golchi cyn mynd i'r Nefoedd). Roedd adennill ac amddiffyn y Tir Sanctaidd ac amddiffyn Cristnogion (wrth ladd Mwslimiaid) yn cael eu hystyried yn ffyrdd o garu eich cymydog.

Yn gryno, roedd Cristnogion a Mwslimiaid yn cymryd rhan yn eiddgar mewn ymgyrchoedd i ladd a dinistrio ar raddfa enfawr, a hynny'n bennaf er mwyn cred a choncwest grefyddol mewn ymgais i sicrhau goruchafiaeth.

## Yr awydd am diriogaeth: Edward yn concro Cymru

Roedd y cyfnod cyn i Edward goncro Cymru yn gyfnod o ymrafael rhwng arweinwyr gwahanol rhanbarthau Cymru.

Erbyn adeg y goncwest Normanaidd, roedd Cymru yn bedair brenhiniaeth gymharol sefydlog. I'r gogledd orllewin roedd Gwynedd, Powys yn y canolbarth, Deheubarth yn y de orllewin a Morgannwg yn y de ddwyrain.

Creodd y Normaniaid dair arglwyddiaeth ar ffiniau Cymru wedi'u canoli yng Nghaer, yr Amwythig a Henffordd. Cafodd y rhain eu galw yn arglwyddiaethau'r Mers; ystyr 'mers' yw ffin. Eu rôl oedd rhwystro'r Cymry rhag ysbeilio dros y ffin a gwneud cynlluniau i oresgyn Cymru.

Yn y cyfamser roedd breniniaethau Cymru yn rhyfela'n gyson yn erbyn ei gilydd. Roedd y Cymry yn bobl ryfelgar wrth natur. Roedd yn rhaid iddyn nhw fod yn rhyfelgar er mwyn gorchfygu a gwrthsefyll goresgyniadau gan y Sacsoniaid, y Gwyddelod a'r Llychlynwyr, a hynny tra'r oedden nhw'n ymladd llawer yn erbyn ei gilydd. Parhaodd brenhinoedd Cymru i fod yn gwerylgar ac yn amharod i uno o dan un arweinydd. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gallai un arweinydd godi uwchlaw'r lleill a chael ei dderbyn dros ardal eang, fel Rhys ap Gruffudd yn y de a gafodd ei gydnabod yn Arglwydd y Deheubarth ac yn ddeiliad ffiwdal y Brenin Harri II.

Yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg, llwyddodd arweinwyr tair cenhedlaeth o deulu brenhinol Gwynedd i uno'r penrhyn mor effeithiol fel iddyn nhw gael eu derbyn yn arweinwyr Cymru gyfan. Y cyntaf oedd Llywelyn ap Iorwerth neu Llywelyn Fawr, a ddisgrifiwyd fel 'Tywysog Cymru' ar ei farwolaeth yn 1240. Ei fab Dafydd II oedd y cyntaf i hawlio'r teitl mewn gwirionedd. Yn 1244, cafodd nai Dafydd, Llywelyn ap Gruffydd ei gydnabod yn Dywysog Cymru gan Harri III a'r holl arweinwyr Cymreig a dalodd wrogaeth iddo.

Newidiodd y sefyllfa yn llwyr pan esgynnodd mab hynaf Harri, Edward I, i orsedd Lloegr yn 1274.

Roedd y canlynol wedi ysgogi concwest Edward o Gymru:

- polisi ymlediaeth (expansionism) Edward a'i benderfyniad i ddod yn feistr ar Brydain gyfan drwy oresgyn Cymru a'r Alban
- ei gymhelliad gwleidyddol i sefydlu rheolaeth Lloegr yng Nghymru. Roedd Statud Rhuddlan (1284) yn atodi Cymru i bob pwrpas ac yn ei gwneud yn dalaith o Loegr
- ei atgasedd tuag at y Celtiaid yn gyffredinol ac at Llywelyn yn benodol.

Trwy gydol yr Oesoedd Canol roedd tywysogion Cymru wedi parhau yn ddeiliaid i frenhinoedd Lloegr a chymerodd Edward yn ganiataol y byddai Llywelyn yn talu gwrogaeth iddo. Gwrthododd Llywelyn ar bum achlysur ac, i rwbio halen yn y briw, cynigiodd briodi merch hen elyn Edward, Simon de Montfort.

Ceisiodd Edward fanteisio i'r eithaf ar ymrysonau Llywelyn ag arweinwyr eraill Cymru. Ymunodd un o'r rhain, Gruffudd ap Gwenwynwyn o Bowys, â brawd Llywelyn, Dafydd, gan gynllwynio i'w lofruddio. Methiant oedd y cynllwyn hwn a bu'n rhaid i Dafydd ffoi am ei fywyd i Loegr.

Erbyn 1277 roedd Edward wedi colli amynedd ac arweiniodd byddin enfawr o 15,000 i Gymru, 9,000 o'r milwyr hyn wedi'u recriwtio yng Nghymru.

Daeth y methiant hwn â goblygiadau i Gymru:

- cafodd Gwynedd ei hamgylchynu gan diroedd dan reolaeth Edward
- adeiladwyd cestyll newydd yn Rhuddlan, y Fflint, Aberystwyth a Llanfair-ym-Muallt a chryfhawyd cestyll eraill
- cyflwynwyd cyfraith Lloegr a phenodwyd Saeson yn swyddogion mewn ardaloedd a oedd yn eiddo i arweinwyr Cymreig cyn hynny
- roedd arweinwyr Powys a Deheubarth bellach yn weision i goron Lloegr.

Cafodd Dafydd ei wobrwyo â thiroedd i'r dwyrain o afon Conwy, ond daeth yn fwyfwy anfodlon â rheolaeth Lloegr a threfnodd wrthryfel yn 1282 ynghyd â Llywelyn. Ymledodd hwn yn fuan iawn ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Ymosododd Edward ac unwaith eto trechwyd y Cymry. Lladdwyd Llywelyn mewn sgarmes ger Llanfair-ym-Muallt ym mis Rhagfyr 1282 ac ar ôl iddo gael ei ddal ym mis Ebrill 1283, cafodd Dafydd ei ddienyddio.

Ar ôl i Edward eu trechu, gwelwyd cynnydd yn statws a nifer gwŷr traed y Cymry.

Roedd 10,000 o’r 12,000 o wŷr traed a saethwyr a drechodd yr Albanwyr yn Falkirk (1298) yn Gymry. Gwasanaethodd tua 5,000 o Gymry yn Bannockburn (1314) a’r un nifer o bosibl yn Crécy (1346). Er eu bod yn edrych yn drawiadol yn eu lifrai gwyn a gwyrdd, roedd y Cymry yn anufudd ac annisgybledig, ac roedd yn well ganddyn nhw lofruddio eu gwrthwynebwyr yn hytrach na’u dal.

## Y frwydr am annibyniaeth: Owain Glyndwr.

**‘Petai eu tywysogion yn gallu uno i amddiffyn eu gwlad a phetai ganddyn nhw un tywysog da yn unig, yna ni allaf weld sut gellir eu concro’.**
**- Gerallt Gymro**

Roedd y Cymry wedi colli eu hannibyniaeth wleidyddol ond effaith hyn oedd ysgogi a meithrin ymdeimlad cryf o gydwybod genedlaethol. Gallech ddadlau bod hwn wedi parhau hyd heddiw.

**Owain Glyndwr** - Ganwyd Owain Glyndyfrdwy yn 1359. Roedd yn etifedd llinach Powys Fadog ar ochr ei dad, a honnai ei fod yn ddisgynnydd i’r Arglwydd Rhys o’r Deheubarth ar ochr ei fam.

Yn 1400 cododd helynt ynghylch tir rhwng Owain Glyndŵr ag Arglwydd Grey o Ruthun, barwn pwerus o Loegr a oedd yn byw gerllaw. Pan ochrodd Harri IV â Grey, ymosododd Glyndŵr a’i ddilynwyr ar dref Rhuthun a threfi Cymreig eraill ger y ffin â Lloegr, gan achosi difrod mawr. Erbyn diwedd 1401 roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o’r wlad yn cefnogi’r gwrthryfel. Rhwng 1401 ac 1404 ymledodd y gwrthryfel ar draws Cymru. Cipiwyd cestyll Harlech ac Aberystwyth a threchwyd byddinoedd Lloegr ym **Mynydd Hyddgen a Bryn Glas** yng nghanolbarth Cymru.




Ffynhonell 2: Cofgolofn Owain Glyndwr

Gan sylweddoli y byddai’n rhaid iddo drechu’r Saeson mewn brwydr fawr, cynhaliodd Glyndŵr, a oedd yn galw ei hun yn Dywysog Cymru, senedd arbennig ym Machynlleth i godi arian ar gyfer yr achos (y senedd gyntaf o’i bath yng Nghymru). Ffurfiodd gynghreiriau â Dug Northumberland ac Edmund Mortimer, gelynion Harri IV, a lluniodd gynghrair ffurfiol â Brenin Ffrainc.

Fodd bynnag, erbyn 1405 roedd y llanw wedi dechrau troi a threchwyd byddinoedd Glyndŵr yn y Grysmwnt a Brynbuga. Daeth dim cymorth gan y Ffrancwyr a'r Albanwyr ac ildiodd dynion Morgannwg, Gŵyr, Tywi, Ceredigion ac Ynys Môn i frenin Lloegr. Erbyn 1408 roedd cadarnleoedd pwysig Harlech ac Aberystwyth wedi'u hadennill a daeth y gwrthryfel i ben. Cafwyd rhai cyrchoedd ar ôl hyn ond erbyn 1415 daeth y gwrthryfel i ben a diflannodd Glyndŵr.

Roedd llawer o ddifrod wedi'i wneud a nifer mawr wedi marw a daeth pethau'n anodd pan gyflwynwyd cyfreithiau gwrth-Gymreig gan Harri IV. I rai teuluoedd cyfoethog, daeth y gwrthryfel â'u hawdurdod i ben. Newidiodd eraill eu teyrngarwch i Harri IV ac aeth llawer o'r dynion a oedd wedi ymladd ochr yn ochr â Glyndŵr ymlaen i ymladd yn erbyn y Ffrancwyr yn Agincourt (1415).

Yn ystod y gwrthryfel, roedd y Cymry wedi uno o dan arweinydd cenedlaethol gan blannu gweledigaeth o Gymru annibynnol.

## Gwleidyddiaeth fel achos Rhyfel Cartref Lloegr

Parhaodd Rhyfel Cartref Lloegr rhwng 1642 ac 1649 a rhannwyd y wlad rhwng cefnogwyr y Brenin Siarl I – 'Cafaliriaid' neu Frenhinwyr, a chefnogwyr y senedd – 'Pengrynwyr' neu Seneddwyr.

Roedd Rhyfeloedd Cartref Lloegr yn ganlyniad i anghytundebau economaidd, crefyddol a gwleidyddol cymhleth rhwng y frenhiniaeth a'r senedd.

- **Economaidd** – oherwydd cyfuniad o fywyd moethus a chyfres o ryfeloedd drud roedd Siarl yn brin o arian. Roedd yn rhaid iddo godi arian drwy orfodi pobl gyfoethog i 'fenthyca' arian iddo a gorchmynnodd i'r senedd godi tolldaliadau (*customs duties*) ar win a nwyddau eraill. Ymateb y Senedd oedd cyhoeddi Deiseb Iawnderau 1628 a oedd yn datgan bod y Brenin yn methu codi trethi heb gydsyniad y senedd nac arestio pobl yn fympwyol. I godi arian manteisiodd Siarl ar hawl y brenin a gosododd ffioedd urddau marchog ar dirfeddianwyr, gwerthodd fonopolïau i fasnachwyr a chododd arian llongau (ship money) ar drefi a oedd yn bell o'r arfordir.
- **Crefyddol** – roedd Siarl wedi priodi Henrietta Maria, Ffrances Gatholig, ac roedd ofnau y byddai'r brenin a'i blant yn cael tröedigaeth i'r ffydd Gatholig. Byddai hyn yn herio'r Cytundeb Protestannaidd Crefyddol ac roedd hyn yn codi ofn ar y Piwritaniaid. Cynyddodd y pryderon pan benododd Siarl William Laud yn Archesgob Caergaint. Doedd hwnnw ddim yn hoff iawn o Biwritaniaid ac aeth ati i gyflwyno newidiadau a oedd yn Gatholig eu naws i wasanaethau a threfn addoliad yr eglwysi.
- **Gwleidyddol** – Roedd dosbarth canol cyfoethog yn dod i'r amlwg yn ystod y

cyfnod hwn a oedd eisiau mwy o lais yn y ffordd o redeg y wlad. Byddai hyn yn herio grym y frenhiniaeth a oedd wedi cryfhau yn ystod teyrnasiad Harri VIII ac Elisabeth I. Roedd y berthynas rhwng y frenhiniaeth a'r senedd wedi suro yn ystod teyrnasiad Iago I (tad Siarl) ac etifeddodd Siarl yr un farn negyddol am unrhyw ymyrraeth gan y senedd yn ei reolaeth ef.

Ar ôl cyflwyno'r Ddeiseb Iawnderau cafodd y senedd ei diswyddo gan Siarl ac aeth yn ei flaen i reoli hebddi tan 1639. Cyfnod o 'reolaeth bersonol' oedd hwn yn ei eiriau ef, ond cafodd ei alw hefyd yn 'un mlynedd ar ddeg o ormes'. Gan ei fod yn awyddus iawn i drechu'r Albanwyr, bu'n rhaid i Siarl alw'r senedd yn ôl. Pan wrthododd y senedd roi arian iddo, fe'i diswyddodd unwaith eto. Ar ôl cael ei drechu, galwyd y senedd yn ôl unwaith eto ac eisteddodd 'y senedd hir' rhwng 1640 ac 1660. Yn 1641 cyflwynodd John Pym, AS Piwritanaidd cadarn, restr gerbron y senedd o holl gamweddau'r brenin. Yr enw a roddwyd ar hyn oedd 'y gwrthdystiad mawr'. Gwylltiwyd y brenin ac yng nghwmni ei filwyr arfog aeth yn syth i Dŷ'r Cyffredin i arestio Pym a phedwar Aelod Seneddol arall a oedd wedi gwrthryfela. Trwy wneud hyn roedd Siarl wedi mynd yn groes i'r fraint seneddol lle doedd hi ddim yn bosibl arestio Aelod Seneddol a oedd yn eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin. Sail hyn oll oedd cred gadarn y brenin yn hawl ddwyfol brenhinoedd, sef bod brenin yn cael grym yn uniongyrchol gan Dduw ac bod neb yn gallu ei herio. Roedd hyn yn groes i'r farn y dylid cyfyngu ar awdurdod brenhinol ac y dylai'r bobl, drwy eu cynrychiolwyr, gael mwy o lais mewn rhedeg y wlad.



Ffynhonell 3: Siarl I yn ceisio arestio pum Aelod Seneddol yn 1642

Erbyn 1642 roedd y rhwyg rhwng y frenhiniaeth a'r senedd wedi dod yn rhy fawr ac ar 22 Awst cyhoeddodd Siarl ryfel yn erbyn y senedd.

## Cenedlaetholdeb ac ymlediaeth fel achosion yr Ail Ryfel Byd

Roedd yr Ail Ryfel Byd yn ganlyniad i nifer o ffactorau gwahanol a ddaeth i'r amlwg yn y 1920au a'r 1930au ac a ddatblygodd yn rhyfel. Roedd ffasgiaeth yn tyfu yn Ewrop, yr Almaen yn ymosodol yn Ewrop, grymoedd Ewrop yn gwrthsefyll yn ddi-drais a'r ymdrechion i greu heddwch wedi methu. Cyfunodd yr elfennau hyn i gyd i achosi rhyfel yn 1939.

Ffactorau a arweiniodd at ryfel:

- **Militariaeth ac ailarfogi** – heriodd Hitler delerau Cytundeb Versailles a oedd wedi gwanhau cryfder milwrol yr Almaen ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Ehangodd bob un o dair cangen y lluoedd arfog a dechreuodd gynhyrchu arfau ar raddfa enfawr gyda'r nod o wneud yr Almaen yn bŵer cryfaf Ewrop.
- **Ideoleg** – nod Hitler oedd dinistrio comiwnyddiaeth a fyddai'n golygu mynd i ryfel yn erbyn UGSS. Roedd Prydain a Ffrainc hefyd wedi dangos eu gwrthwynebiad i gomiwnyddiaeth. Roedd Hitler yn credu na fydden nhw'n ei wrthwynebu ac y bydden nhw o bosibl yn cefnogi ei bolisïau yn Nwyrain Ewrop.
- **Y polisi dyhuddo** *(appeasement)* – doedd dim gwrthwynebiad i weithredoedd Hitler yn Ewrop. Roedd UDA yn niwtral ac roedd Ffrainc yn amharod i ymyrryd heb gefnogaeth Prydain ac roedd Prydain yn ymddangos fel petai'n cydymdeimlo â hawliadau'r Almaen yn Ewrop.
- **Methiant Cynghrair y Cenhedloedd** – methodd y Gynghrair â chymryd camau yn erbyn ymosodedd Japan yn Manchuria, goresgyniad yr Eidal yn Abyssinia a symudiadau Hitler yn Ewrop.
- **Imperialaeth** – roedd Japan eisiau creu ymerodraeth Japaneaidd yn y Môr Tawel a fyddai'n ymestyn i China ac Awstralia. Roedd Mussolini eisiau ymerodraeth Ffasgaidd–Rufeinig ym Môr y Canoldir a Dwyrain Affrica. Nod Hitler oedd uno'r holl siaradwyr Almaeneg mewn Almaen Fawr gan ehangu i'r dwyrain ar draul UGSS.

## Cenedlaetholdeb ac ymlediaeth

Gellir dadlau mai cenedlaetholdeb Almaenig oedd un o'r ffactorau pwysicaf a achosodd yr Ail Ryfel Byd. Roedd Natsïaeth yn seiliedig ar genedlaetholdeb eithafol ac yn canolbwyntio ar burdeb hiliol a rheolaeth awdurdodaidd. Mae'r ddelfryd o'r Ariaid, hil Almaenig bur oedd yn uwchraddol yn feddyliol ac yn gorfforol, yn treiddio drwy lyfr Hitler Mein Kampf (1924) a'i areithiau gwleidyddol cynnar. Credai mai ei genhadaeth oedd sicrhau bod yr 'hil oruchaf' Almaenig yn drech na'r gweddill ac y byddai'r genedl yn seiliedig ar 'waed a phridd' a'r egwyddor dotalitaraidd 'un bobl, un genedl, un arweinydd'. Roedd hyn yn golygu bod angen dod â holl leiafrifoedd yr Almaen o fewn ffiniau'r wladwriaeth a hawlio Lebensraum, sef 'lle i fyw' i bawb. Byddai tir yn cael ei gymryd trwy rym o'r dwyrain a'r nod oedd alltudio, caethiwo neu ladd Pwyliaid, Rwsiaid a phoblogaethau Slafaidd eraill a oedd yn cael eu hystyried yn Untermenschen neu bobl isddynol gan y Natsïaid. Yna byddai pobl o dras bur yn symud i fyw i'r tiroedd a gipiwyd.


Ffynhonell 4: Milwyr yr Almaen yn gorymdeithio i Wlad Pwyl, Medi 1939

Daeth y dehongliad Natsïaidd o ddamcaniaeth Lebensraum yn sail i bolisi tramor yr Almaen yn ystod y Drydedd Reich.

Weltpolitik oedd y gred y dylai ac y byddai'r Almaen ddod yn bŵer byd. Pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914 roedd gwleidyddion a strategwyr milwrol yr Almaen yn cynllunio Mitteleuropa, cynllun i greu Ewrop lle'r oedd yr Almaen yn oruchaf, gan ehangu i'r dwyrain petaen nhw'n fuddugoliaethus. Rhoddwyd y cynllun o'r neilltu ond cafodd ei atgyfodi gan Hitler. Roedd Hitler yn gwbl agored ynglŷn â'i nodau ymosodol, ymledol a doedd ganddo ddim llawer o ddiddordeb mewn gwella cysylltiadau tramor oni bai eu bod o fudd i'r Almaen. Ym mis Mawrth 1936 meddiannodd byddin yr Almaen y Rheindir a oedd wedi'i ddadfyddino, gan fynd yn gwbl groes i amodau Cytundeb Versailles. Ni wnaeth Ffrainc na Phrydain ei wrthwynebu. Yna ym mis Mawrth 1938 cipiodd Awstria ac yna hawliodd y Sudetenland, ardal Almaeneg ei hiaith yn Tsiecoslofacia, fel rhagarweiniad i gipio gweddill y wlad. Gan ofni rhyfel eang arall fe ddilynodd Prydain a Ffrainc bolisi o ddyhuddo Hitler. Ym mis Medi 1939 cymerodd Hitler siawns a

meddiannodd Wlad Pwyl yn y gobaith y byddai Prydain a Ffrainc yn llunio cytundeb heddwch. Ond roedd wedi camddeall y sefyllfa ac oherwydd y camgymeriad hwn, aeth Ewrop a'r byd i ryfel.

## Ideoleg fel achos y Rhyfel Oer

Parodd y Rhyfel Oer o ddiwedd yr Ail Ryfel Byd hyd at gwymp comiwnyddiaeth yn 1990. Roedd yn gyfnod o ymrafael gwleidyddol, economaidd, milwrol ac ideolegol dwys rhwng UDA a'i chynghreiriaid democrataidd yn y gorllewin ac UGSS a'i gwladwriaethau dibynnol. Gan fod y ddwy ochr wedi datblygu arfau niwclear roedd hyn yn golygu petai rhyfel yn dechrau y byddai'n 'rhyfel poeth' a fyddai'n arwain at ddinistr byd-eang. Yn hytrach, roedd yn rhaid i'r ddwy ochr droi at 'ryfel oer' neu ryfel nerfau na fyddai'n arwain at wrthdaro uniongyrchol nac ymladd gwirioneddol.

- **Cystadleuaeth wleidyddol** – Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd roedd llawer o anghytuno ynglŷn â sut i ailadeiladu Ewrop. Roedd UDA yn sylweddoli y byddai Almaen wan yng Nghanol Ewrop yn ardal ddelfrydol i feithrin comiwnyddiaeth. Felly roedd yn awyddus i hybu adferiad y wlad a sicrhau bod democratiaeth yn dychwelyd. Fodd bynnag, roedd Stalin eisiau sicrhau iawndal mawr er mwyn cosbi'r Almaen. Roedd patrwm y gwrthdaro wedi'i osod.
- **Ymlediaeth** – Ceisiodd Stalin dra-arglwyddiaethu ar wledydd Dwyrain Ewrop, eu llyncu a lledaenu comiwnyddiaeth yno. Bathodd Churchill y term Llen Haearn a galwodd am gynghrair o genhedloedd Saesneg eu hiaith i wrthsefyll nodau Sofietaidd i ymledu ac ennill grym. Yn 1947 cyhoeddodd UDA '**Athrawiaeth Truman**' a oedd yn cynnig cymorth i unrhyw wlad dan fygythiad gan 'rymoedd mewnol neu allanol' mewn ymgais i gyfyngu ar ledaeniad comiwnyddiaeth.
- **Militariaeth** – Roedd Stalin yn ddig iawn nad oedd neb wedi ymgynghori ag ef ynglŷn â phenderfyniad UDA i ddefnyddio arfau atomig er mwyn dod â'r rhyfel gyda Japan i ben. Yn 1949 taniodd yr Undeb Sofietaidd ei fom atomig cyntaf gan ddod â monopoli arfau atomig UDA i ben a daeth y ddau bŵer yn rhan o ras arfau a ddaeth yn ganolog i'r Rhyfel Oer. Yn 1949 ymunodd 12 o'r pwerau Gorllewinol i ffurfio **Sefydliad Cytuniad Gogledd yr Iwerydd (NATO: North Atlantic Treaty Organisation)**, cynghrair filwrol a sefydlwyd i wrthbwyso'r byddinoedd Sofietaidd a oedd wedi'u lleoli yng Nghanol a Dwyrain Ewrop. Ymateb y Sofietiaid oedd sefydlu Pact Warsaw yn 1955, sef cynghrair filwrol yr Undeb Sofietaidd a'r taleithiau dibynnol.
- **Cystadleuaeth economaidd** - Roedd **Cynllun Marshall** yn rhoi Athrawiaeth Truman ar waith. Cynigiodd Ysgrifennydd Gwladol UDA, George C. Marshall, raglen cymorth economaidd i wledydd a oedd yn ceisio ailadeiladu eu hunain ar ôl y rhyfel. Gwaharddodd Stalin y taleithiau dibynnol rhag cael y cymorth hwn.

- **Ideoleg** - Gwrthdaro rhwng cyfalafiaeth a chomiwnyddiaeth oedd y Rhyfel Oer yn ei hanfod.

## Gwahaniaethau rhwng cyfalafiaeth a chomiwnyddiaeth

Mae cyfalafiaeth yn seiliedig ar:

- yr egwyddor o hawliau unigol
- bod yn berchen ar eiddo yn breifat
- economi marchnad rydd
- fawr ddim ymyrraeth gan y llywodraeth
- dosraniad anwastad o gyfoeth
- y nod o gyfle cyfartal â phwyslais ar yr unigolyn a'i gynnydd mewn bywyd.

Mae comiwnyddiaeth yn seiliedig ar:


- yr egwyddor o hawliau cymunedol
- y wladwriaeth yn berchen ar eiddo
- economi wedi'i rheoli
- llawer o reolaeth gan y llywodraeth
- dosraniad cyfartal o gyfoeth
- y nod o ganlyniad cyfartal i bawb â phwyslais ar gynnydd y gymuned yn gyffredinol.

Prif achos y Rhyfel Oer oedd ideolegau gwleidyddol gwahanol iawn UDA gyfalafol ac UGSS gomiwnyddol. Roedd y ddwy wlad wedi uno yn erbyn Natsïaeth ond ar ôl y rhyfel fe wnaethon nhw wrthdaro ynglŷn â dyfodol Ewrop a dyfodol yr Almaen yn benodol.

Roedd yr Almaen a'r brifddinas Berlin wedi'u rhannu yn bedwar parth meddiannaeth dan weinyddiaeth Prydain, Ffrainc, UDA ac UGSS. Roedd Berlin yn y parth Sofietaidd.

Erbyn 1948 roedd yr Almaen yn wynebu anawsterau economaidd, felly penderfynodd pwerau'r Gorllewin uno eu parthau a chyhoeddi eu bod am gyflwyno arian cyfred (*currency*) newydd. I dalu'r pwyth yn ôl, ataliodd Stalin bob cysylltiad

rhwng y Gorllewin a Berlin mewn ymgais i newynu trigolion Gorllewin Berlin a gorfodi'r pwerau Gorllewinol i ildio. Cafodd bwyd a chyflenwadau eu hedfan i mewn i Berlin a gorfodwyd Stalin i godi'r gwarchae.



Ffynhonell 5: Adeiladwyr yn Nwyrain yr Almaen yn codi'r wal yn 1961

Gwahanwyd yr Almaen yn swyddogol yn 1949 rhwng Gweriniaeth Ffederal yr Almaen (Gorllewin yr Almaen) a Gweriniaeth Ddemocrataidd yr Almaen (Dwyrain yr Almaen). Daeth Berlin yn ynys rydd wedi'i chloi 100 milltir i mewn i'r tir yn Nwyrain yr Almaen, a oedd dan reolaeth y Sofietiaid. Daeth y ddinas yn symbol o'r Rhyfel Oer. Adeiladwyd Wal Berlin ym mis Awst 1961 gan wahanu Dwyrain a Gorllewin Berlin a daeth y wal yn symbol ffisegol ac ingol o'r Rhyfel Oer nes iddi gael ei dymchwel yn 1989. Arweiniodd yr ideolegau amrywiol at rannu Ewrop gan droi'r byd yn ddwy garfan wrthwynebus yn y pen draw. Dilynodd UDA ei pholisi cyfyngiant (*containment*) gan ymladd rhyfeloedd dirprwyol e.e. Korea a Vietnam.

## Newidiadau mewn tactegau a strategaeth: Sut mae tactegau a strategaeth wedi newid dros amser?

**‘Tactegau yw’r grefft o ddefnyddio milwyr mewn brwydr, strategaeth yw’r grefft o ddefnyddio rhyfeloedd i ennill y rhyfel’. - Carl von Clausewitz (1780-1831), cadfridog Prwsiaidd a damcaniaethwr milwrol.**

Mae strategaeth a thactegau milwrol yn nodweddion hanfodol o ryfela. Strategaeth yw cynllunio, cydlynu a chyfarwyddo ymgyrchoedd milwrol. Tactegau yw rhoi strategaeth ar waith drwy wneud penderfyniadau yn y cyfamser ynglŷn â defnyddio milwyr ac arfau ar faes y gad.

### Tactegau a strategaeth frwydro yn yr Oesoedd Canol

Ar ôl i wŷr meirch ag arfau gael eu cyflwyno yn yr Oesoedd Canol, roedd y byddinoedd mwyaf effeithiol yn cynnwys grwpiau o farchogion ar geffylau.

Fodd bynnag, doedd marchogion yn cario arfau trwm ar gefn ceffylau ddim yn effeithiol ar y tir garw, mynyddig a oedd mewn ardaloedd mawr o Gymru ac felly roedd y pwyslais ar y gwŷr traed.

Dynion â gwaywffyn oedd dynion gogledd Cymru yn bennaf ac roedd y goreuon yn dod o Sir Feirionnydd. Saethwyr oedd dynion de Cymru yn bennaf ac roedd y goreuon yn dod o Sir Fynwy a Gwent. Oherwydd eu bod mor agos at y ffin â Lloegr, roedden nhw’n gyfarwydd iawn â rhyfela. Byddai’r ddwy garfan wedi cynnwys dynion â gwaywffyn a saethwyr.

Lluniwyd tactegau a’u haddasu ar gyfer y tir. Roedd y Cymry yn ffafrio rhyfeloedd gerila gan ddefnyddio tactegau rhyfela gerila fel rhagodau (ambushes) a chyrchoedd. Hefyd, roedd yn well ganddyn nhw ymladd ar dir garw, neu gorslyd hyd yn oed, a oedd yn rhoi mantais iddyn nhw dros eu gwrthwynebwyr â’u holl arfau. Ar ôl ymosod yn gyntaf byddai’r Cymry yn aml yn esgus eu bod yn encilio er mwyn twyllo eu gwrthwynebwyr. Os na fyddai hyn yn llwyddiannus a byddai’n rhaid ymladd mewn ffordd fwy confensiynol, bydden nhw fel arfer yn cael eu trechu. Dyna ddigwyddodd ym mrwydrau Pont Orewin (1282) a Maes Meidiog (1295) lle cafodd y Cymry eu chwalu gan saethwyr a gwŷr meirch Edward I.

## Brwydr Bryn Glas, ger Trefyclo – 22 Mehefin 1402

Roedd rhwng 2,000 a 4,000 o ddynion ym myddin Lloegr (fel yng nghofnodion y rhan fwyaf o frwydrau'r Oesoedd Canol, mae'r niferoedd yn amrywio). Eu harweinydd oedd Syr Edmund Mortimer ac roedd ganddo fintai o saethwyr Cymreig hefyd. Roedd cyfanswm o rhwng 800 ac 1,100 yn lluoedd y Cymry o dan awdurdod Rhys Gethin (a laddwyd yn ddiweddarach yn yr ymosodiad ar gastell Grysmwnt yn 1405). Doedd dim llawer o offer gan y Cymry o'u cymharu â'r Saeson ond roedd ganddyn nhw'r fantais o'r tir uwch. Er bod llai ohonyn nhw, roedd lluoedd Glyndŵr wedi'u rhannu. Roedd rhan o'i fyddin, gan gynnwys llawer o saethwyr â'u bwâu hir pwerus, wedi cymryd eu lle ar lethrau'r bryn. Roedd y gweddill yn cuddio mewn dyffryn ar ymyl y bryn, o'r golwg yn y dail trwchus. Cafodd dynion Mortimer eu cymell i symud ymlaen yn eu trefniant i fyny'r llethr ac roedden nhw o fewn cyrraedd i'r saethwyr Cymreig. Wrth i wŷr traed Mortimer geisio agosáu at saethwyr Glyndŵr, daeth y Cymry i'r golwg o'r dyffryn ac ymosododd y rhai a oedd ar y bryn. Ar adeg hollbwysig yn y frwydr, enciliodd llawer o'r saethwyr Cymreig ym myddin Mortimer a throi eu bwâu ar eu cyn-gymheiriaid. Roedd lluoedd Mortimer wedi drysu ac fe wnaethon nhw ffoi. Amcangyfrifir bod 1,000 o'r Saeson wedi'u lladd.

Mae adroddiadau am y frwydr yn honni bod menywod a oedd yn dilyn y gwersyll wedi anffurfio organau rhyw cyrff meirw'r Saeson. Roedd hynny i ddial am weithredoedd byddinoedd Harri IV y flwyddyn flaenorol a oedd yn cynnwys achosion o dreisio a chreulondeb. Mae'n ddigon posibl i'r stori gael ei chreu gan senedd Loegr er mwyn portreadu'r Cymry fel barbariaid.

Y frwydr hon yw un o fuddugoliaethau mwyaf y Cymry yn erbyn byddin Lloegr hyd heddiw.

Newidiodd rôl y gwŷr traed hefyd. Yn sgil cyflwyno'r bwa hir a defnyddio balisteg (gweler yr adran ar newidiadau technolegol) cafodd natur rhyfela ei gweddnewid. Fodd bynnag, doedd fawr ddim newid mewn sawl agwedd arall ar ryfela. Yr un arfau a oedd yn cael eu defnyddio ac roedd y gwŷr traed yn dal i ymladd â'u dyrnau.

Roedd strategaeth yn seiliedig ar y cysyniad o ryfela cyfyngedig. Yn yr Oesoedd Canol roedd brwydrau yn cael eu hymladd fel arfer ddim ond pan doedd dim dewis arall, ac roedd hynny hyd yn oed yn fwy gwir yn achos rhyfeloedd. Gellid trafod telerau drwy symud byddinoedd i ddrysu'r gelyn neu drwy osod gwarchae ar gastell neu dref gaerog.

Anaml iawn byddai'r Cymry yn defnyddio peiriannau gwarchae a dulliau meddiannu ac roedd yn well ganddyn nhw gadw amddiffynwyr y tu mewn i'r castell neu dref gaerog gan ddefnyddio grym neu drwy atal cyflenwadau bwyd.

Mewn ymgais i atal hyn, adeiladodd Edward I gestyll ar yr arfordir. Roedd yn ddigon

hawdd dod â chyflenwadau i mewn ar y môr gan nad oedd gan y Cymry lynges mewn gwirionedd.

**Gerallt Gymro**

Roedd **Gerallt Gymro (c.1146–1223)** yn awdur Cymreig-Normanaidd a ysgrifennai am faterion y dydd yn unig, ac roedd ganddo ddiddordeb arbennig ym mywyd Cymru ac Iwerddon. Er ei fod yn edmygu sawl agwedd ar fywyd Cymru, roedd yn ffyddlon iawn i reolaeth Normanaidd y Mers. Roedd yn ystyried y Normaniaid yn fwy gwaraidd na'r Cymry, ac mae hyn yn amlwg yn ei ysgrifennu. Yn ei Disgrifiad o Gymru rhoddodd gyngor i'r Normaniaid ar sut y gallen nhw gwblhau eu concwest o Gymru. Mae ei Expugnatio Hibernica (Concwest Iwerddon) yn adrodd hanes y goresgyniad Normanaidd yn Iwerddon. Yn y llyfr hwn awgrymodd strategaethau ar gyfer ymgyrchoedd i goncro Cymru ac Iwerddon a chyflwynodd y syniadau hyn i frenhinoedd Lloegr. Ei gynllun ar gyfer y ddwy wlad oedd strategaeth athreuliad – newynu a blino'r Cymry a'r Gwyddelod trwy dorri eu cyflenwadau a dwyn eu cyfoeth. Awgrymodd y dylid adeiladu system o gestyll i amddiffyn enillion y Saeson. Argymhellodd y dylid gosod gwarchae llyngesol ar Gymru ac awgrymodd y dylid dechrau unrhyw ymosodiad ar Iwerddon drwy gipio porthladd Limerick a'i ddefnyddio fel canolfan i gynnal mwy o ymgyrchoedd. Roedd ganddo gyngor hefyd i'r Cymry ar sut gallen nhw amddiffyn eu hunain yn erbyn y Normaniaid. Fe wnaeth eu hannog i uno o dan arweinyddiaeth un tywysog Cymreig cryf ac i wella eu sgiliau ymladd.

*'Mae'n rhyfeddol bod y bobl hyn, er nad ydynt yn cario arfau, yn meiddio ymosod ar elyn arfog; mae'r gwŷr traed yn drech na'r gwŷr meirch, ac oherwydd eu gwaith caled a'u dewrder maen nhw fel arfer yn ennill y dydd. Maent yn defnyddio arfau ysgafn ac nid yw'r rhain yn achosi unrhyw rwystr i'w cyflymdra: llurigau bach, sypynnau o saethau, a gwaywffyn hir; helmau a thariannau, a choesarfau haearn yn llai aml.*

*Mae'r uchelwyr yn mynd i ryfel ar gefn y ceffylau cyflym a chryf sy'n cael eu cynhyrchu yn y wlad; ond mae'r rhan fwyaf o'r bobl yn ymladd ar droed oherwydd bod y wlad yn gorsiog ac anwastad. Mae'r gwŷr meirch yn barod i wasanaethu fel gwŷr traed, yn ôl yr angen a'r sefyllfa, gan ymosod neu gilio; ac maent naill ai'n cerdded yn droednoeth, neu'n defnyddio esgidiau uchel, wedi'u braslunio o ledr heb ei drin'. – Disgrifiad Gerallt Gymro o'r Cymry yn ymladd.*

Yn ystod yr Oesoedd Canol arweiniodd brenhinoedd eu byddinoedd i frwydrau a allai arwain at farwolaeth neu eu cipio am bridwerth. Yn ôl codau sifalri, roedd marchogion yn teimlo rhwymedigaeth i osgoi lladd marchogion eu gwrthwynebwyr. Ystyrid bod cael eich cipio yn fwy anrhydeddus ac yn fwy proffidiol.

Os oedd brwydr am gael ei chynnal yna roedd cael safle da yn hanfodol. Roedd ennill y tir uchel yn rhoi mantais dros y gwrthwynebwyr ynghyd â'r angen i amddiffyn yr ystlysau neu'r ochrau i wthio ymosodiadau'r gwŷr meirch yn ôl.

## Defnyddio gwŷr meirch

Yn groes i'r farn gyffredin, doedd hi ddim yn bosibl defnyddio gwŷr meirch fel hwrdd-beiriant (*battering ram*) enfawr wrth ymosod ar geffylau. Byddai ceffylau, oherwydd eu natur, yn dod i stop wrth ymyl rhwystr atalfur. Byddai amddiffynwyr yn hyrddio eu gwaywffyn neu'n taflu teflynnau  a phetai'r gwŷr traed yn dal eu tir byddai'r gwŷr meirch yn llai effeithiol. Fodd bynnag, yn erbyn byddin wasgaredig gallai ymosodiad ar geffylau neu 'ymlid ac erlid' ddinistrio'r gwrthwynebwyr.

## Defnyddio saethwyr

Enillodd William ei fuddugoliaeth fawr yn Hastings yn 1066 diolch i'r saethwyr yn bennaf, er mai'r marchogion a gafodd y clod, fel arfer. Roedd y bwa hir yn gwbl allweddol mewn sawl brwydr fawr yn yr Oesoedd Canol, yn benodol Crécy (1346), Agincourt (1415) a'r Rhyfel Can Mlynedd (1337–1453).

Ymladdodd saethwyr ar droed mewn trefniant o gannoedd ac weithiau miloedd o ddynion. Gallai saethwyr danio cawod o saethau dros bellter gan darfu ar y gwrthwynebwyr. Roedden nhw hefyd yn gallu saethu at dargedau unigol agosach. Gan saethu hyd at chwe saeth y munud, gallai 3,000 o saethyddion anfon 18,000 o saethau at y gelyn gan achosi dinistr mawr.

## Defnyddio gwŷr traed a phicellwyr

Os na fyddai ymosodiadau'r saethwyr a'r gwŷr meirch yn llwyddiannus, byddai'r gwŷr traed yn cael eu hanfon i mewn gan arwain at ymladd â'r dyrnau. Roedd y gwŷr traed yn defnyddio cleddyfau, cadfwyeill a phicellau, sef gwaywffyn a oedd rhwng 3 a 5 metr o hyd. Oherwydd ei bod mor anhylaw, defnyddiwyd y bicell yn bennaf fel arf amddiffynnol ond roedd picellwyr medrus yn gallu ei defnyddio i ymosod a symud ymlaen gyda'r rhengoedd ar yr un pryd.


Ffynhonell 6: Brwydr Crécy, 26 Awst 1346)

Roedd *schiltron* yn drefniant ar ffurf cylch neu betryal a oedd yn gallu cynnwys dros 2,000 o bicellwyr. Roedd yr Albanwyr wedi ymarfer llawer ar y dacteg hon a phan fydden nhw'n closio'n dynn at ei gilydd

roedd bron yn amhosibl eu treiddio. Defnyddiwyd y dacteg hon yn effeithiol iawn ym Mrwydr Bannockburn (1314). Cafodd marchogion Lloegr eu cau i mewn gan y *schiltronau* a ddaeth tuag atyn nhw a phan ddefnyddiodd Robert y Bruce ei *schiltron* gorau, bu'n rhaid i filwyr Lloegr gilio.

Daeth rôl y gwŷr traed yn bwysicach wrth i dactegau o'r fath ddatblygu ac yn sgil hynny, daeth marchogion ar geffylau yn llai effeithiol.

Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol roedd cadfridogion byddinoedd yn gallu disgyblu eu milwyr yn well ac roedden nhw, yn eu tro, yn ymateb yn well i orchmynion ac yn gweithio fel uned gydlynol. Dechreuodd y marchogion ymladd am arian yn hytrach na chlod, gan ddechrau parchu saethwyr y bwâu hir a'r picellwyr hyd yn oed. Roedd byddinoedd ffiwdal yn dechrau datblygu yn fyddinoedd proffesiynol.

## Tactegau'r Rhyfel Cartref – Brwydr Sain Ffagan, 8 Mai 1648

Erbyn dechrau'r cyfnod modern cynnar roedd uchafiaeth y gwŷr meirch trwm yn dod i ben yn rhyfeloedd Ewrop a daeth unedau cymysg o wŷr traed â phicellau ac arfau llaw i'r amlwg. Daeth 'oes y picell a phelenni' fel yr oedd yn cael ei galw, i bontio'r cyfnod rhwng dulliau rhyfela'r Oesoedd Canol a'r cyfnod modern.

Yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr, defnyddiodd y ddwy ochr dactegau tebyg iawn. Cyn dechrau'r frwydr byddai'r ddwy ochr yn sefyll i wynebu ei gilydd. Safai'r picellwyr a'r mysgedwyr yn y canol a'r gwŷr meirch ar y naill ochr a'r llall. Byddai'r magnelau trwm yn cael eu gosod yn y cefn er mwyn saethu dros y gwŷr traed. Y gwŷr meirch fyddai'n ymosod yn gyntaf mewn ymgais i dorri llinell y gwrthwynebwyr a'u gwasgaru.

Ym Mrwydr Sain Ffagan ger Caerdydd, ymladdodd dros 11,000 o ddynion yn un o'r brwydrau mwyaf erioed ar dir Cymru. Daeth y frwydr i ben gyda buddugoliaeth i'r Seneddwyr.

Roedd gorchymyn y senedd y dylai rhai o'u cadfridogion dynnu eu byddinoedd yn ôl wedi achosi i rai droi i gefnogi'r brenin, gan gynnwys John Poyer o Gastell Penfro, Syr Nicholas Kemopys o Gastell Cas-gwent a Rice Powell o Ddinbych-y-pysgod. Cafodd y fyddin o wrthryfelwyr ei harwain gan gadfridog y Seneddwyr yn Ne Cymru, Rowland Laugharne.

Anfonodd Syr Thomas Fairfax 3,000 o filwyr proffesiynol a gwŷr meirch o dan awdurdod y Cyrnol Thomas Horton. Byddin fach oedd un Laugharne yn cynnwys 500 o wŷr meirch a 7,500 o wŷr traed yn cario pastynau, ac roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw heb gael hyfforddiant.

Penderfynodd Laugharne ymosod yn gyntaf ac am 7 a.m. anfonodd lu o 500 o wŷr traed i ymosod ar ragfinteioedd (outposts) y seneddwyr. Doedd dim gobaith ganddyn nhw yn erbyn y seneddwyr. Sylweddolodd Laugharne fod angen iddo newid ei dactegau a rhoddodd orchymyn i'w ddynion ymosod o gysgod y cloddiau gan wneud pethau'n anodd i wŷr meirch y seneddwyr. Roedd y dacteg yn llwyddiant i ddechrau ond yn raddol dechreuodd milwyr mwy profiadol y seneddwyr ennill y dydd. Arweiniodd Laugharne ymosodiad gan ei wŷr meirch mewn ymdrech olaf i ailymgynnull ei fyddin ond bu'r cyfan yn fethiant. Ymhen cwta dwy awr roedd byddin y Brenhinwyr wedi'i threchu. Cafodd dros 300 eu lladd a chipiwyd dros 3,000 yn garcharorion. Fe wnaeth y gweddill ffoi i Gastell Penfro lle arweiniodd Laugharne ymgyrch amddiffynnol am chwe wythnos cyn ildio yn y pen draw.

## Defnyddio tactegau llinol hyd ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Roedd bataliynau o bicellwyr yn dal i gael eu defnyddio fel sail i drefniannau brwydrau ond wrth i arfau tanio ddatblygu gwelwyd mwy o fysgedwyr a llai o bicellwyr. Yn sgil cyflwyno'r reiffl a'r fidog erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg cafodd y picellwyr eu disodli.

Datblygwyd tactegau llinol i daro'n ôl yn erbyn defnyddio arfau tanio. Gellid ffurfio bataliynau o wŷr traed yn cynnwys rhwng 500 a 1,000 o ddynion mewn llinellau, colofnau neu sgwariau. Defnyddid llinellau ar gyfer mysgedwyr, colofnau er mwyn symud ymlaen ac roedd y sgwâr yn drefniant amddiffynnol a ddefnyddiwyd yn erbyn gwŷr meirch. Roedd yn rhaid i swyddogion drefnu dynion yn gyflym ac effeithiol. Golygai hyn fod angen iddynt fod yn gyfarwydd â'r tir ac amcangyfrif pellter er mwyn creu trefniant. Roedd cynnal ymarferion ar gyfer y milwyr yn hanfodol.

- **Trefniant llinell** - dyma'r dacteg sylfaenol o ganol yr ail ganrif ar bymtheg hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd llinellau'n cynnwys rhwng dwy a phedair rheng, yn dibynnu ar faint o saethu yr oedd angen ei wneud. Roedd mysgedau yn saethu'n gywir o bellter byr yn unig ac yn gallu saethu rhwng dwy a thair rownd y munud. Yn hytrach na saethu'n rhydd a oedd yn fwy cywir, byddai gwŷr traed yn saethu en masse er mwyn torri llinell eu gwrthwynebwyr. Ar dir garw, gallai bylchau ymddangos yn y rhengoedd a byddai'n anodd eu symud ac felly roedden nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer pellteroedd byr yn unig.
- **Trefniant colofn** – roedd yn haws trefnu a symud milwyr yn y trefniant hwn ond gan nad oedd yn bosibl tanio mysgedau roedd yn fwy agored i ymosodiadau gan fagnelau. Byddai colofn yn symud yn gyflym at fan yr ymosodiad ac yna'n ffurfio llinell er mwyn saethu'n ôl at y gelyn. Doedd colofnau ddim yn cael eu

defnyddio i ymosod, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig.

- **Trefniant sgwâr** – defnyddiwyd y trefniant hwn os oedd ymosodiad gan wŷr meirch ar ddod, a byddai lluoedd yn ffurfio sgwariau neu betryalau i atal yr ymosodiad. Byddai'r pennaeth milwrol yn aros yn y canol, ynghyd â chludwr y faner a milwyr clwyfedig. Unwaith eto, roedd ffurfio sgwâr yn gofyn am ddisgyblaeth a chywirdeb. Er eu bod yn effeithiol yn erbyn gwŷr meirch roedd sgwariau yn agored i ymosodiadau gan fagnelau. Defnyddiodd Dug Wellington y dacteg hon yn effeithiol iawn pan drechwyd lluoedd Napoleon ym Mrwydr Waterloo (1815).

Roedd gwŷr traed yn cael eu defnyddio'n aml mewn sgarmesoedd a oedd yn digwydd o flaen y llinell. Bydden nhw'n cael eu defnyddio i dreiddio'r gwrthwynebwyr ac yn cuddio y tu ôl i goed ac adeiladau i dargedu swyddogion a thrympedwyr y gelyn. Roedd sgarmeswyr yn gweithio mewn parau a byddai un yn tanio wrth i'r llall lwytho.



Ffynhonell 7: Brwydr Waterloo, 18 Mehefin 1815

Yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg cafodd y reiffl ei gwella'n sylweddol gan olygu bod modd saethu'n bellach. Roedd yn anymarferol i ddefnyddio trefniannau llinol a cholofnau o fataliynau. Roedd y milwyr ar y maes bellach yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r gelyn ac yn gweithredu mewn trefn rydd a gafodd ei disgrifio fel cadwyn. Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf roedd trefniannau brwydro yn cynnwys milwyr ymladd a milwyr wrth gefn. Defnyddiwyd cwmnïau a bataliynau mewn llinell sgarmes drwchus â bwlch o un neu ddau gam rhwng pob milwr. Arweiniodd natur fwy statig rhyfela ar ôl 1915 at rannu'r trefniant brwydro ymhellach yn sectorau brwydro yn y rheng flaen a milwyr wrth gefn yn yr ail linell.

## Datblygiad rhyfela o'r ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf

**'Daw'r rhyfel i ben pan fydd y cenhedloedd wedi blino'n lân yn hytrach na phan fydd byddinoedd yn fuddugoliaethus'. - Winston Churchill**

Mae mathau o ryfela o'r ffosydd wedi cael eu defnyddio ers yr hen amser ond cawson nhw eu defnyddio ar raddfa heb ei thebyg ar y Ffrynt Gorllewinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf (1914–18). Ar ddechrau'r rhyfel roedd cadlywyddion yr Almaen a Ffrainc yn rhagweld y byddai llawer o filwyr yn cael eu symud wrth i'r ddwy ochr geisio ennill ac yna amddiffyn eu tiriogaeth. Yn ystod brwydr gyntaf Marne ym mis Medi 1914 cafodd lluoedd yr Almaen eu gwthio'n ôl gan y cynghreiriaid a'u 'cloddio i mewn' i osgoi colli mwy o dir. Gwnaeth y cynghreiriad yr un fath. Daeth yn amlwg yn fuan iawn nad oedd strategaethau symud ymlaen y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef ymosodiadau ben-ben gan wŷr traed, yn ymarferol yn erbyn arfau'r cyfnod ac arweiniodd hyn at sefyllfa ddiddatrys. Datblygodd tyllau ymochel cynnar yn rhwydwaith cymhleth o ffosydd ac erbyn diwedd 1914 roedd y system ffosydd yn ymestyn 475 milltir o Fôr y Gogledd i'r ffin â'r Swistir.

Cafodd y ffosydd eu cloddio ar batrwm igam-ogam fel nad oedd y gelyn yn gallu saethu i lawr y ffos. Byddai system ffosydd arferol yn cynnwys llinell o dair neu bedair ffos – llinell y rhagfintai, y ffos gymorth a'r ffos wrth gefn. Roedd pob un yn gyfochrog â'i gilydd ac yn mesur rhwng 100 a 400 llath o hyd. Roedd y prif ffosydd wedi'u cysylltu â ffosydd cyfathrebu gan ei gwneud hi'n haws symud milwyr ac offer, yn ogystal ag anfon gorchmynion a negeseuon. Roedd y llinell saethu wedi'i hamddiffyn gan gaeau o weiren bigog yn 'nhir neb', rhwng 50 a 300 metr o linellau'r Almaenwyr. Roedd rhai ffosydd yn cynnwys cilfachau neu 'dug-outs' o dan wely'r ffos. Roedd cilfachau'r Almaenwyr yn tueddu i fod yn fwy soffistigedig ac roedd gan rai doiledau, trydan a system awyru.

Nod y ddwy ochr oedd defnyddio holl adnoddau a dynion y naill ochr a'r llall gan wanhau eu hewyllys i ymladd mewn rhyfel athreuliol. Roedd uwch swyddogion y Cynghreiriaid yn argyhoeddedig y byddai ymdrech fawr yn arwain at ddatblygiad tyngedfennol fel y dangoswyd ym **Mrwydr y Somme** (Gorffennaf–Tachwedd 1916) a **Brwydr Verdun** (Chwefror–Tachwedd 1916). Doedd dim gwerth strategol i Verdun ond cafodd maes y frwydr ei throi'n faes lladdfa.

Daeth tactegau i'r amlwg a oedd yn mynd y tu hwnt i'r syniad o ddynion yn 'mynd dros y top' i wynebu anaf neu farwolaeth. Roedd camu i mewn i 'dir neb' yng ngolau dydd bron yn sicr o arwain at farwolaeth ac felly digwyddodd y rhan fwyaf

o'r ymosodiadau yn ystod y nos neu ar doriad gwawr. Cyn yr ymosodiadau byddai'r magnelau yn cael eu tanio gyda'r bwriad o ddinistrio rhannau o amddiffynfeydd y gelyn. Cafodd yr ymosodiadau hyn eu trefnu'n fwyfwy gofalus a chyfrifwyd pellter a thaflwybr (trajectory) yn fanwl. Roedd y cysyniad o 'ymosod ymgripiol' (creeping barrage) yn golygu symud ymlaen gan achosi dinistr llwyr cyn anfon y milwyr yn eu blaenau.

Wrth i'r rhyfel fynd yn ei flaen daeth mathau newydd o ryfela i'r amlwg. Roedd y rhain yn cynnwys rhyfela â ffrwydrynnau, sef cloddio ffrwydrynnau o dan linellau'r gelyn er mwyn gosod tunelli o ffrwydron. Ym Mrwydr Messines (1917) gosodwyd 455 tunnell mewn 22 twnnel a oedd wedi cymryd blwyddyn i'w paratoi. Lladdodd y ffrwydrad 10,000 o Almaenwyr.

Erbyn mis Tachwedd 1918 roedd rhyfel athreuliol wedi rhedeg ei gwrs ac ildiodd yr Almaen. Roedd rhyfela yn y ffosydd wedi chwarae rhan hollbwysig yng nghanlyniad y rhyfel yn y pen draw.

Gwasanaethodd 273,000 o Gymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a lladdwyd 35,000 o'r rhain. Roedd y Cymry yn amlwg ym mron iawn pob un o frwydrau'r rhyfel ac roedd eu cyfraniad ym **Mrwydr Cefn Frezenberg** ym mis Mai 1915 (2il Frwydr Ypres) a **Brwydr Coedwig Mametz** ym mis Gorffennaf 1916 yn drawiadol ac yn ingol iawn.

Roedd rhan o linell newydd ffosydd Prydain yn ymestyn o flaen Cefn Frezenberg i'r gogledd-orllewin o Ypres a rhoddwyd gorchymyn i Fataliwn 1af Catrawd Sir Fynwy gynorthwyo i amddiffyn y ffosydd yno. Ar 6 Mai 1915 cafwyd gorchymyn i symud at flaen y gad ac ar 8 Mai, gyda'r 2il Fataliwn i'r gogledd a'r 3ydd Bataliwn i'r de, roedd y tri wedi cyrraedd blaen y gad ar doriad gwawr. Roedd y sefyllfa'n ymddangos yn anobeithiol gan fod llawer mwy o Almaenwyr na nhw yno, a chafwyd ergydion trwm o fagnelau a thon ar ôl ton o ymosodiadau gan wŷr traed yr Almaen. Ceisiodd Capten Harold Thorne Edwards ymosod ar ystlys y gelyn drwy ddefnyddio ffos gyfathrebu ond cafodd ei amgylchynu'n fuan iawn. Ac yntau dan bwysau i ildio, dywedodd y geiriau a ddaeth yn rhan o hanes y gatrawd – 'ildio i'r diawl'. Dechreuodd danio ei rifolfer at ei ymosodwyr ond cafodd ei ladd. Roedd yn rhaid i Gatrawd Sir Fynwy gilio ac wrth geisio cyrraedd yn ôl i'w safleoedd a rhedeg ar draws y tir agored lladdwyd llawer o ddynion. Yn ystod **Ail Frwydr Ypres** collodd 23 swyddog a 565 o filwyr eraill eu bywydau. Roedd yr effaith ar deuluoedd de Sir Fynwy, yn enwedig Casnewydd, yn enfawr. Lladdwyd 85 o ddynion Casnewydd ar 8 Mai, a chredir mai dyma'r nifer mwyaf o fywydau i gael eu colli o un dref yng Nghymru ar un diwrnod yn ystod y rhyfel.

Dim ond tri o Bentrefi Diolchgar neu Bentrefi Gwynfydedig a oedd yng Nghymru, h.y. lleoedd lle nad oedd neb wedi colli ei fywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf – Llanfihangel-y-Creuddyn, ger Aberystwyth; Tregolwyn, ger Pen-y-bont ar Ogwr; a Herbrandston yn Sir Benfro.

Ar 7 Gorffennaf 1916, fel rhan o Frwydr y Somme, gorchmynnwyd i'r 38ain Adran (Cymreig) ymosod a chipio **Coedwig Mametz**, ardal goediog bron i filltir o led a thros filltir o ddyfnder a oedd wedi'i hamddiffyn yn gadarn gan yr Almaenwyr. Roedd y 38ain yn cynnwys sawl catrawd o Gymru gan gynnwys y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a'r Gatrawd Gymreig. Gwirfoddolwyr newydd, heb gael llawer o hyfforddiant, oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw ac fe ddaethon nhw wyneb yn wyneb â chatrawd aruchel y Lehr, rhan o'r Gwarchodlu Prwsiaidd hynod broffesiynol, a oedd yn ddwfn yn y goedwig ac yn cario gynnau peiriant. Roedd yr ymosodiad cyntaf am 8.30 a.m. yn anhrefn llwyr a daeth i ben 200 neu 300 llath yn fyr o'r coed. Methodd ail a thrydydd ymosodiad â thorri llinellau'r gelyn.

Roedd disgwyl i'r ymosodiad bara dwy awr neu dair ond parhaodd dros bum diwrnod. Roedd yr ymladd yn ffyrnig a chollwyd llawer iawn o fywydau. Erbyn canol y bore ar 10 Gorffennaf roedd yr Adran Gymreig wedi ennill troedle yn y coed. Erbyn y prynhawn canlynol, 11 Gorffennaf, cafodd y 38ain Adran ei galw yn ôl a chipiwyd y goedwig gan yr 21ain Adran. Lladdwyd 911 swyddog heb gomisiwn ac aelodau o rengoedd eraill yr Adran Gymreig ynghyd â 37 swyddog. Roedd cannoedd mwy 'ar goll' sy'n golygu na chafodd eu cyrff erioed eu canfod.

Ailfeddiannodd yr Almaenwyr Goedwig Mametz ac fe ddalion nhw eu gafael ar yr ardal am weddill y rhyfel.



Ffynhonell 8: Milwyr Prydain yn 'mynd dros y top' ym Mrwydr y Somme, 1916



Ffynhonell 9: Mae'r ddraig ar gofeb yr Adran Gymreig yn edrych i gyfeiriad Coedwig Mametz

## Y Gadair Ddu

Lladdwyd y bardd Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) yng Nghefn Pilckem, 31 Gorffennaf 1917, ychydig dros fis cyn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw. Roedd Hedd Wyn wedi ennill y gadair farddol y flwyddyn honno.

Yn ôl yr adroddiad ym mhapur newydd y Western Mail '*instead of the usual chairing ceremony the chair was draped in a black cloth amidst death-like silence, and the bards came forward in long procession to place their muse-tribute of englyn or couplet on the draped chair in memory of the dead bard hero*'.

## Datblygiad tactegau rhyfel diarbed ar ôl yr Ail Ryfel Byd

Ystyr rhyfel diarbed yw pan fydd holl adnoddau cymdeithas yn cael eu defnyddio i drechu gwrthwynebydd. O ganlyniad, mae ffatrïoedd, piblinellau, rheilffyrdd, pontydd, dociau ac ardaloedd poblog iawn yn dod yn dargedau dilys. Mae rhyfel diarbed yn cael yr effaith fwyaf ar sifiliaid.

Roedd bomio Guernica yn ystod Rhyfel Cartref Sbaen wedi achosi ofn mawr yn y wlad. Fe wnaeth hyn argyhoeddi llawer o bobl ei bod yn bosibl bomio poblogaeth sifil nes y byddai'n ildio. Y ddamcaniaeth oedd y byddai poblogaeth a oedd yn byw mewn ofn parhaus o farwolaeth annisgwyl a threisgar, yn rhoi pwysau ar ei llywodraeth i ildio. Holl bwynt ymgyrch fomio barhaus oedd dinistrio ysbryd cenedl.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd Llundain – prifddinas Prydain, canolbwynt llywodraeth, diwydiant a masnach a chartref nifer mawr o bobl – yn darged strategol a hawdd. Roedd gan yr Almaen ganolfannau awyrennau bomio yng ngwledydd meddianedig Ewrop a gallai lansio ymosodiadau ar draws y Sianel gan ddilyn llwybr afon Tafwys i Lundain. Roedd y paratoadau a rhagofalon ar gyfer y rhyfel yn Llundain wedi cynnwys symud plant a sifiliad a oedd yn agored i niwed i ardaloedd diogel. Digwyddodd hyn yn ysbeidiol yn dilyn cwymp Ffrainc a dechrau'r Blitz yn 1940 ac yn ystod cyfnod y bomiau hedegog yn 1944. Roedd y Ddeddf Rhagofalon Cyrchoedd Awyr (ARP: *Air Raid Precaution*) yn rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol dros sefydlu systemau Amddiffyn Sifil, dosbarthu mygydau nwy, darparu llochesau cyrchoedd awyr i gartrefi a chydlynu gwaith y Wardeiniaid Cyrchoedd Awyr i orfodi rheoliadau'r blacowt yn ystod y Blitz.

Dechreuodd y Blitz ar 7 Medi neu 'Dydd Sadwrn Du', pan ymosododd awyrennau bomio'r Almaen ar Lundain, gan ladd 430 ac anafu 1,600. Yn dilyn hyn, cafodd Llundain ei bomio am 57 noson yn olynol a dioddefodd rai ymosodiadau yn ystod y dydd hefyd. Cafodd Llundain ei tharo gan y cyrch awyr mwyaf ar 10–11 Mai 1941 pan ollyngwyd 711 tunnell o ffrwydron a 2,393 o fomiau tân. Lladdwyd 1,436 o sifiliaid. Hwn oedd y cyrch awyr olaf mawr tan fis Ionawr 1943.

Cafodd Llundain ei bomio'n fwy aml ac yn fwy trwm nag un man arall ym Mhrydain, ond prin oedd yr ardaloedd na chafodd eu heffeithio gan gyrchoedd awyr. O ddiwedd 1940 ymlaen, targedwyd y dinasoedd mawr, canolfannau diwydiannol a phorthladdoedd. Bomiwyd Lerpwl, prif borthladd Môr Iwerydd yn ogystal â phorthladd Hull ar arfordir Môr y Gogledd. Cafodd bomiau eu gollwng ar borthladdoedd eraill gan gynnwys Bryste, Caerdydd, Portsmouth, Plymouth, Southampton ac Abertawe, yn ogystal â dinasoedd diwydiannol Birmingham, Belfast, Coventry, Glasgow, Manceinion a Sheffield.

## Bomio Caerdydd ac Abertawe

Caerdydd ac Abertawe a ddioddefodd yr ymosodiadau mwyaf cyson. Rhwng mis Gorffennaf 1940 a mis Mawrth 1944 gollyngwyd tua 2,100 o fomiau ar ddinas Caerdydd gan ladd 355 o sifiliaid. Difrodwyd tua 33,000 o dai a dinistriwyd dros 500. Y prif darged oedd y dociau ond roedd sawl ymosodiad yn ochr orllewinol y ddinas, yn enwedig ardal Canton a Glanyrafon lle lladdwyd 50 o bobl mewn un stryd – Stryd De Burgh – ar 3 Ionawr 1941. Honnodd yr Almaenwyr eu bod yn dial ar ôl i Brydain fomio Bremen. Roedd llai o gyrchoedd awyr yn 1943, ond un o'r mwyaf nodedig oedd ymosodiad ar 17 Mai. Y gred oedd bod hwn yn talu'r pwyth yn ôl am gyrchoedd enwog y Dambusters ar ganolfannau diwydiannol ac argaeau trydan dŵr yr Almaen. Wedi dweud hynny, mae'n eironig mai yng Nghymru y cafodd aelodau'r RAF eu hyfforddi ar gyfer y cyrchoedd hyn. Datblygodd y cynllunydd awyrennau Barnes Wallis y 'bom sboncio' a ddinistriodd a difrodi rai o brif argaeau'r Almaen ar ôl cynnal profion ar argae Nant y Gro yng Nghwm Elan, ger Rhaeadr Gwy, Powys.

Cafodd Abertawe ei thargedu rhwng mis Mehefin 1940 a mis Chwefror 1943 a dioddefodd 44 cyrch awyr. Parodd yr ymosodiad gwaethaf dros dair noson ym mis Chwefror 1941 gan ddinistrio hanner canol y dref. Cafodd tri deg mil o fomiau eu gollwng; llosgwyd 575 busnes; dinistriwyd 282 o dai a difrodwyd 11,084. Lladdwyd 227 o bobl, ac roedd 37 o'r rhain o dan 16 oed. Dinistriwyd rhannau mawr o Frynhyfryd, Townhill a Manselton

Roedd Caerdydd ac Abertawe yn dargedau amlwg oherwydd eu dociau a gweithfeydd diwydiannol ond ymosodwyd ar fannau eraill hefyd. Bomiwyd ffatrïoedd ordnans, purfeydd olew, gweithfeydd mwyngloddio a hyd yn oed cymunedau gwledig, fel arfer gan awyrennau a oedd ar goll neu'r rheini a oedd yn awyddus i ollwng eu bomiau cyn hedfan adref. Yng ngogledd ddwyrain Cymru, mewn ymdrech i ddenu awyrennau'r Almaen i ffwrdd o Lerpwl, byddai dynion y Gwarchodlu Cartref yn cynnau tanau ar dir diffaith. Y gobaith oedd y bydden nhw'n cael eu twyllo i feddwl eu bod wedi cyrraedd eu targed, a bu hyn yn llwyddiant mawr. Yn Sir Gaernarfon, a oedd yn agos at lwybr hedfan yr awyrennau bomio ar eu ffordd

i Lerpwl, lladdwyd pump o bobl mewn cyrchoedd bomio yn ystod y rhyfel. Ym mis Ebrill 1941, collodd 27 o bobl eu bywydau mewn cyrch yng Nghwm-parc yn y Rhondda; roedd chwech ohonyn nhw yn blant, gan gynnwys pedwar faciwî.

**Anafiadau/marwolaethau oherwydd cyrchoedd awyr**

| Tref/dinas/sir | Marwolaethau | Anafiadau |
|---|---|---|
| Abertawe | 387 | 412 |
| Caerdydd | 355 | 502 |
| Casnewydd | 51 | 63 |
| Morgannwg | 82 | 120 |
| Penfro | 45 | 42 |
| Mynwy | 25 | 36 |
| Dinbych | 18 | 10 |
| Caerfyrddin | 14 | 13 |
| Caernarfon | 5 | 14 |
| Y Fflint | 3 | 6 |
| Môn | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **985** | **1,221** |

*Amcangyfrifon Cymru, Mehefin 1940–Mai 1944*

# Hyfforddiant a recriwtio:

# I ba raddau y newidiodd dulliau hyfforddi a recriwtio milwyr dros amser?

## Dyletswyddau ffiwdal a chodau sifalri

Trefnwyd cymdeithas yr Oesoedd Canol yn Lloegr o amgylch y drefn ffiwdal a oedd yn seiliedig ar ddyrannu tir yn gyfnewid am wasanaeth. Yn Lloegr roedd y brenin yn rhoi tiroedd i'w hoff uchelwyr (prif denantiaid) a fyddai yn eu tro yn addo ei wasanaethu'n ffyddlon a rhoi milwyr iddo ar adegau o anghydfod. Byddai'r uchelwyr yn rhannu tir ymhlith y pendefigion neu'r marchogion is (is-denantiaid) a byddai'r rheini yn eu tro yn addo rhoi cefnogaeth filwrol i'w harglwydd. Yr enw ar godi milwyr hyfforddedig oedd yr ardoll ffiwdal. Roedd yn rhaid i ddynion gynnig gwasanaeth milwrol am 40 diwrnod a gellid cynyddu hyn i 90 diwrnod ar adegau o anghydfod. Roedd hyn yn annigonol ar gyfer ymgyrchoedd a rhyfeloedd hir ar raddfa genedlaethol. Byddai marchogion yn eu tro yn gosod tir i ddynion rhydd a fyddai'n gorfod cynnig un teulu ar gyfer dyletswydd filwrol pan fyddai eu hangen ar y brenin neu'r arglwydd. Roedd disgwyl i werinwyr a thaeogion (mwyafrif helaeth y boblogaeth) gynnig gwasanaeth milwrol yn rheolaidd, nid fel ardoll ffiwdal, ond oherwydd ymdeimlad o deyrngarwch a pharch at eu harglwydd a'u meistr. Byddai rhai wedi ystyried hyn fel cyfle i ddianc rhag caledi bywyd y cyfnod.

Yn sgil dirywiad y drefn ffiwdal roedd yn rhaid i'r wlad symud o economi a oedd yn seiliedig ar y tir i un a oedd yn seiliedig ar arian. Aeth yr ardoll ffiwdal yn llai wrth i'r boneddigion ffafrio talu arian i'r marchogion ar ffurf **ysgwtreth** (*scutage*) yn hytrach na rhoi gwasanaeth milwrol. Dechreuodd brenhinoedd gyflogi **hurfilwyr** (*mercenaries*) a oedd yn deyrngar i arian yn hytrach na gwasanaeth ffyddlon.

Un ffordd o godi byddin oedd trwy'r **Aséis Arfau**, sef proclamasiwn bod yn rhaid i'r holl ryddfreinwyr rhwng 16 a 60 oed dalu llw gwrogaeth, bod yn berchen ar arfau a chario arfau yng ngwasanaeth y brenin. Roedd yr aséis yn mynnu y dylai dyn fod yn berchen ar offer milwrol yn unol â'i statws a'i gyfoeth. Atgyfododd yr aséis y ddyletswydd fyrd Sacsonaidd.

Ni chafodd ffiwdaliaeth lawer o ddylanwad ar arddull na dull rhyfela'r Cymry yn yr Oesoedd Canol. Roedd byddinoedd Cymru yn seiliedig ar warchodwyr personol y tywysogion a'r penaethiaid unigol, sef y **Teulu**. Byddai gweddill y fyddin yn cynnwys unrhyw ddynion lleol dros 14 oed. Roedd gwasanaeth yn cael ei ystyried yn fwy o fraint na'r milisia ffiwdal a oedd yn ystyried gwasanaeth o'r fath fel rhwymedigaeth. Yr unig ddynion dros 14 oed a oedd wedi'u hesgusodi o wasanaeth o'r fath oedd tenantiaid tiroedd yr eglwys. Gallai tywysog alw ar ei fyddin unwaith y flwyddyn

a dim ond am hyd at 6 wythnos y byddai'n rhaid iddyn nhw wasanaethu mewn ymgyrchoedd y tu allan i'w tywysogaeth. Roedd y Teulu yn uned fach a oedd yn cael ei defnyddio'n bennaf fel cyrchlu. Yn yr unfed ganrif ar ddeg maint cyfartalog Teulu'r tywysog oedd 120 o ddynion ac roedd gan **Llywelyn ap Gruffydd** Deulu o 160 yn 1282. Roedd yn bosibl ychwanegu at y byddinoedd Cymreig, yn ôl yr angen, drwy brynu gwasanaeth Llychlynwyr a Gwyddelod. Cafodd Owain Glyndŵr gymorth nifer bach o filwyr Ffrainc yn ystod ei wrthryfel yn erbyn Harri IV. Yn ei ymgyrch olaf yn erbyn Edward I yn 1282, roedd gan Llywelyn ap Gruffydd fyddin o 7,000 o filwyr traed yn ogystal â'r 160 aelod o'i Deulu.

Pan gododd Owain Glyndŵr faner y gwrthryfel roedd ganddo gnewyllyn bach o filwyr proffesiynol ynghyd â milwyr o Ffrainc a Gwlad Belg ond roedd hefyd yn gallu galw ar ardollau ffiwdal o'r cantrefi (rhaniadau tir) nad oedd erioed wedi bod ar gael i'r tywysogion Cymreig.

**Y Cod Sifalri** oedd cod ymddygiad moesol a chymdeithasol y marchogion yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif, ond credir ei fod yn mynd yn ôl i gyfnod llawer cynharach. Yn ystod rhyfeloedd, roedd disgwyl i farchog arddangos gwroldeb a theyrngarwch yn ogystal â pharch anrhydeddus i'r gelyn. Yn ystod cyfnodau o heddwch, dylai marchog fod yn foesgar a chwrtais, yn enwedig tuag at fenywod. Yn ôl y gân Song of Roland (a gyfansoddwyd rhwng 1098 ac 1100) roedd y Cod Sifalri yn cynnwys addunedau i:

- ofni Duw a'i eglwys
- gwasanaethu'r dyledog (*liege lord*) yn wrol a ffyddlon
- amddiffyn y gwan a'r diamddiffyn (e.e. gwragedd gweddw a phlant amddifad)
- byw yn anrhydeddus ac yn ogoneddus
- parchu anrhydedd menywod.

Amlygwyd y Cod Sifalri yn y straeon a oedd yn disgrifio anturiaethau'r Brenin Arthur a Marchogion y Ford Gron.

Dirywiodd sifalri a marchogwriaeth (*knighthood*) gyda'i gilydd o ganlyniad i dwf mercantiliaeth ac ymddangosiad dosbarth canol llewyrchus. Symudodd grym oddi wrth yr uchelwyr a oedd yn berchen ar dir at fasnachwyr cyfoethog yr oedd disgwyl iddyn nhw fabwysiadu rhinweddau marchogion.

## Creu byddinoedd cyfnod y Tuduriaid

Roedd cyfnod cynnar y Tuduriaid yn gymysgedd cymhleth o ddiwylliant diwedd yr Oesoedd Canol a'r Dadeni. O ran rhyfela roedd yn gyfnod o newid wrth i arfau

tanio, magnelaeth a meddwl strategol ddatblygu ond roedd defnyddio gwŷr meirch a rhyfela gwarchae, fel yn yr Oesoedd Canol, yn parhau.

Dechreuodd cyfnod y Tuduriaid gyda buddugoliaeth **Harri Tudur** ar faes y gad yn Bosworth. I ddeall arwyddocâd Maes Bosworth i'r Cymry, a chefnogaeth y Cymry i Harri, rhaid tynnu sylw at yr hen gred am 'y mab darogan', achubwr a fyddai'n arwain y Cymry i ryddid.

Yn fuan iawn, daeth gwrthryfel Owain Glyndŵr yn rhyfel cenedlaethol, er mai rhywbeth dros dro oedd hyn, ac roedd y gred yn y mab darogan yn sicr wedi chwarae rhan i ennill cefnogaeth i'w achos. Roedd teulu Harri Tudur yn hannu o Ynys Môn ac fe'i ganwyd yng Nghastell Penfro. Er iddo gael ei eni yng Nghymru, Owain Tudur, ei daid/tadcu ar ochr ei dad, oedd yr unig un o'i bedwar taid a nain/tadcu a mamgu, i fod yn Gymro pur. Etifeddodd Harri ei hawl i'r goron drwy John o Gaunt.

Pan gyrhaeddodd Harri faes **Bosworth** ar 22 Awst 1485, ymunodd lluoedd mawr o bob rhan o Gymru ag ef gan ddyblu maint ei fyddin i bob pwrpas. Y fintai fwyaf oedd un Rhys ap Thomas o dde orllewin Cymru. Ond roedd lluoedd sylweddol eraill yno hefyd: arweiniodd William Gruffudd fintai o'r gogledd orllewin, arweiniodd Rhys ap Maredudd ddynion Hiraethog, ac arweiniodd Richard ap Hywel ddynion o'r gogledd ddwyrain. Llifodd y cyflenwadau o bob man a daeth 'anifeiliaid tew, ychen a gwartheg' o ogledd Cymru. Fe wnaeth Harri gydnabod rôl y Cymry yn ei fuddugoliaeth. Ar ôl i'r frwydr ddod i ben cyhoeddodd broclamasiwn a'i eiriau agoriadol oedd 'Harri, trwy ras Duw, Brenin Lloegr a Ffrainc, Tywysog Cymru ac Arglwydd Iwerddon'.

Penderfynodd disgynyddion Harri y bydden nhw'n ymladd i gadw'r wlad yn unedig ac yn rhydd rhag goresgynwyr tramor. Roedd Rhyfeloedd y Rhosynnau a ragflaenodd cyfnod y Tuduriaid wedi dangos grym milwrol yr uchelwyr ac roedd angen system a fyddai'n codi byddin gan gyfyngu ar y grym hwnnw ar yr un pryd. Yn ystod cyfnod y Tuduriaid parhaodd yr Aséis Arfau a'r arfer o godi'r milisia ond gyda rhai addasiadau. Ym mhob sir roedd yn orfodol i bob dyn rhwng 16 a 60 oed **fwstro** i gael eu harchwilio ar wahanol gyfnodau – hyd at ddwywaith y flwyddyn ar adegau peryglus. Trefnwyd y mwstwr gan gomisiynwyr mwstro a gafodd eu disodli gan arglwyddi rhaglaw yn ystod teyrnasiad **Mari I**. Roedd gan y clerigwyr a'r arglwyddi a'u daliedyddion (retainers) oblygiadau tebyg ond roedden nhw'n cael eu gweinyddu ar wahân. Roedd milwyr yn cael dychwelyd adref ar ôl archwiliad fel arfer oni bai bod bygythiad o oresgyniad tramor. Golygai'r system y gellid codi byddin fawr yn eithaf cyflym ac effeithiol. Cododd **Harri VIII** fyddin o 120,000 o wŷr traed ar gyfer haf cyfan unwaith.

Erbyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg roedd un filiwn o ddynion yn aelodau o'r

milisia. Fodd bynnag, hyfforddiant sylfaenol iawn a gafodd llawer ohonyn nhw a daeth yn amlwg bod angen gwella safon y milwyr. O 1573 ymlaen ymddangosodd bandiau hyfforddedig a oedd yn cynnwys dynion a ddewiswyd yn benodol o'r mwstwr cyffredinol. Roedden nhw'n cael eu cadw ar gyfer ymarferion a thalwyd eu costau gan y ddinas neu'r cyngor dan sylw. Roedd angen hyfforddiant ychwanegol oherwydd y cynnydd mewn defnyddio arfau tanio a'r sgìl a oedd yn angenrheidiol i ddefnyddio picellau. Ar gyfer gwasanaeth tramor, a ddaeth yn fwy amlwg yn chwarter olaf yr unfed ganrif ar bymtheg, roedd milwyr yn aml yn cael eu **presio** neu eu gorfodi i ymuno â'r fyddin. Byddai'r milwyr cyflogedig hyn yn aml yn cael eu codi ag arfau ac arfwisgoedd o'r milisia sirol neu'r bandiau hyfforddedig.

Erbyn yr ail ganrif ar bymtheg dechreuodd y system milisia ddirywio ond dyna oedd y sail ar gyfer codi llu milwrol o hyd, gan esbonio pam ceisiodd y ddwy ochr reoli'r system yn ystod y Rhyfeloedd Cartref.

## Byddin Model Newydd yr 1640au a dechrau'r fyddin broffesiynol

Ar ddechrau'r Rhyfel Cartref yn 1642 roedd byddinoedd yn cael eu harwain gan yr uchelwyr a'r bonheddwyr a oedd yn credu bod eu genedigaeth fraint yn rhoi hawl iddyn nhw arwain. Roedd gwŷr traed y ddwy ochr yn ddynion a gafodd eu presio i'r fyddin ac roedden nhw wedi dechrau lladrata oddi ar bobl leol gan nad oedden nhw'n cael tâl rheolaidd. Roedd diffyg disgyblaeth ymhlith y milwyr ac roedd nifer mawr iawn yn gadael. Roedd yr angen am fyddin broffesiynol sefydlog yn amlwg a milwyr y senedd a achubodd y blaen yn y mater hwn. Cyflwynwyd y 'model newydd' o fyddin y Senedd gan Syr William Waller ym mis Rhagfyr 1644. Cynigiodd sefydlu byddin genedlaethol heb unrhyw gysylltiadau brenhinol na fyddai'n cael ei rheoli gan yr uchelwyr a'r bonheddwyr. Pasiwyd y **Ddeddf Hunanymwadiad** ym mis Ebrill 1645 a oedd yn mynnu bod aelodau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn ildio eu seddi comisiynau milwrol.

Roedd 22,000 o ddynion ym myddin y Senedd bellach, gan gynnwys:

- 12 catrawd o ŵyr traed yn cynnwys 1,200 o ddynion, yr oedd traean (dwy ran o dair) yn fysgedwyr ac un rhan o dair yn bicellwyr
- 11 gatrawd o ŵyr meirch yn cynnwys 600 o ddynion yr un
- 1 gatrawd o ddragwniaid (gwŷr traed ar geffylau)
- magnelaeth yn cynnwys 50 gwn.

Fel Aelod Seneddol roedd yn rhaid i Oliver Cromwell ildio'i awdurdod ond cafodd y teitl Is-gadfridog gan y Cadfridog Thomas Fairfax a daeth yn gyfrifol am y gwŷr meirch. Roedd aelodau'r Fyddin Model Newydd yn cael hyfforddiant milwrol, tâl

rheolaidd a'u disgyblu'n llym. Roedd Cromwell yn awyddus i ddyrchafu dynion ar sail eu gallu ac felly roedd yn bosibl i ddynion godi drwy'r rhengoedd. Roedd hefyd yn credu y byddai milwyr yn ymladd yn well petaen nhw'n credu yn yr hyn roedden nhw'n ymladd drosto, ac felly recriwtiodd ddynion â safbwyntiau Piwritanaidd cadarn.

Enillodd y Fyddin Model Newydd fuddugoliaeth hollbwysig yn Naseby (Mehefin 1645). Dangosodd y frwydr y gwahaniaeth yn nisgyblaeth y ddwy ochr. Gwaharddodd Cromwell ei wŷr meirch rhag carlamu ar ôl byddin a oedd ar ffo, a mynnodd eu bod yn aros ar faes y frwydr yn hytrach na dwyn o fagiau a adawyd ar ôl gan y gelyn gan olygu eu bod yn gallu parhau i ymosod. Gwnaeth y Cafaliriaid gamgymeriad tactegol drwy lansio un ymosodiad llwyddiannus ac yna gadael y maes er mwyn lladrata.

Ar ddiwedd y rhyfel roedd rôl y fyddin yn hanfodol i gadw rheolaeth ar adeg pan oedd llawer o bobl o blaid adfer y frenhiniaeth. Arweiniodd '**Rheolaeth yr Uwch-frigadwyr**' (1655–57) yn ystod y **Brotectoriaeth** at ddrwgdeimlad ac ofn unbennaeth filwrol.

Yn sgil **Adferiad** y frenhiniaeth yn 1660 cafodd y Fyddin Model Newydd ei dadfyddino. Yn ei lle aeth Siarl II ati i greu byddin sefydlog fach a oedd yn cynnwys hen gatrodau y Brenhinwyr a'r Seneddwyr. Ar 26 Ionawr 1661 cyhoeddodd y brenin y **Warant Frenhinol** gan greu catrodau cyntaf yr hyn a ddaeth yn Fyddin Prydain.

O'r ddeunawfed ganrif at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, doedd dim llawer o newidiadau yn y fyddin o ran penodi swyddogion a hyfforddi milwyr. Fodd bynnag, yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd newid mawr yn sgil datblygiadau cyffredinol ym maes rhyfela, ac yn benodol mewn deddfwriaeth llywodraeth.



Ffynhonell 10: Buddugoliaeth i'r Fyddin Model Newydd ym Mrwydr Naseby, 14 Mehefin 1645

## Y près a phartïon recriwtio yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg

'**Presio**' neu '**y près**' neu '**listio**' oedd yr arfer o orfodi dynion i ymuno â'r fyddin, y llynges fel arfer, drwy eu dal yn annisgwyl neu drwy rym.

Cyn cyflwyno consgripsiwn roedd llawer o wledydd yn ychwanegu at eu milisia a'u milwyr gyrfa drwy ddulliau gorfodol. Roedd yr arfer yn amlwg yng nghyfnod y Sacsoniaid a chafodd ei ddefnyddio'n helaeth gan Elisabeth I, Siarl I ac Oliver Cromwell.


Ffynhonell 11: Gwawdlun (caricature) o'r près, 1789

Roedd y llynges yn defnyddio'r dull hwn o ganol yr ail ganrif ar bymtheg a thrwy gydol y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ryfel. Dynion a oedd yn gyfarwydd â'r môr, rhwng 18 a 55 oed, oedd yn fwyaf tebygol o gael eu 'presio', a llongwyr masnach yn bennaf. Roedd recriwtio morwyr trwy ddulliau gwirfoddol yn anodd oherwydd yr amodau caled ar fwrdd y llongau a'r peryglon amlwg a oedd yn gysylltiedig â gwasanaethu yn ystod rhyfel. Roedd y **près** yn cynnwys 10–12 dyn ac yn cael ei arwain gan swyddog a fyddai'n crwydro'r strydoedd yn chwilio am 'wirfoddolwyr tebygol'. Byddai'r dynion yn cael diod, yn cael eu bygwth ac weithiau eu taro yn anymwybodol. Pan fyddai dyn yn cael ei gipio byddai'n cael 'swllt y brenin' fel gwobr am wirfoddoli. Defnyddiwyd dulliau cyfrwys i roi'r darn arian iddo, fel ei sleifio i'w boced neu i'w ddiod. Roedd y recriwtwyr yn chwilio'n bennaf am ddynion o'r dosbarthiadau cymdeithasol is a oedd weithiau'n grwydriaid neu'n gyn-garcharorion. Bydden nhw'n dod o hyd i recriwtiaid newydd yn nhafarndai a phuteindai trefi'r llynges fel arfer.

Ar ôl 1853 daeth llai o alw am y près ar ôl i'r llynges gyflwyno gwasanaeth parhaus a phensiynau ar ôl ymddeol.

## Recriwtio

Yn y ddeunawfed ganrif a hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg cafodd dynion eu recriwtio i'r fyddin drwy bartïon a pharedau recriwtio mewn marchnadoedd, ffeiriau a thafarndai. Codwyd catrodau'r milisia drwy bleidlais o

ganlyniad i **Ddeddf Milisia** 1757 pan fyddai'n rhaid i ddynion wasanaethu am 5 mlynedd. Gallai dynion ymrestru'n wirfoddol yn y fyddin am gyfnod o rhwng 8 a 12 mlynedd neu gallen nhw ymuno am oes, a oedd fel arfer yn golygu 21 mlynedd. Roedd y cyflog yn isel ond rheolaidd a'r ddisgyblaeth yn llym. I lawer roedd yn ffordd o ddianc rhag tlodi ac roedd hefyd yn cynnig posibilrwydd o gyffro ac ysbail. Adeg rhyfel byddai carcharorion yn gallu cael eu rhyddhau petaen nhw'n ymuno â'r fyddin.

Roedd y blynyddoedd rhwng diwedd Rhyfeloedd Napoleon (1815) a dechrau Rhyfel y Crimea (1854) yn eithaf heddychlon ac roedd y rhan fwyaf o'r milwyr yn ymwneud â materion yn y trefedigaethau. Roedd profiad Rhyfel y Crimea a Gwrthryfel India yn 1857 yn ysgytwad i Fyddin Prydain. Datgelodd fethiannau logistaidd, camweinyddu ac arweinyddiaeth ddi-glem. Amlygodd hefyd y bwlch enfawr rhwng swyddogion a dynion.

Yn 1868 etholwyd llywodraeth Ryddfrydol a daeth William Gladstone yn Brif Weinidog. Roedd yn ddiwygiwr ymroddedig ac yn ymwybodol iawn bod angen cyflwyno newidiadau i'r fyddin. Dangosodd buddugoliaeth yr Almaen yn erbyn Ffrainc yn 1870–71 fod y system Brwsiaidd o filwyr proffesiynol ag arfau modern yn llawer gwell na'r system Brydeinig hen ffasiwn o filwyr bonheddig. Penododd Gladstone Edward Cardwell yn Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel ac fel rhan o **Ddiwygiadau Cardwell** aeth ati i ad-drefnu a moderneiddio Byddin Prydain.

## Newidiadau o ran recriwtio a hyfforddiant

- 1870 – roedd Deddf Ymrestru'r Fyddin yn pennu cyfnod ymrestru o 12 mlynedd, 6 yn y fyddin a 6 yn y lluoedd wrth gefn.
- 1871– diddymwyd yr arfer o brynu comisiynau.
- 1872 – ad-drefnwyd strwythur y catrodau ar sail dau fataliwn cysylltiedig, un yn gwasanaethu ar y ffrynt cartref ac un dramor. Rhoddwyd cysylltiad lleol i'r catrodau at ddibenion recriwtio.
- 1881 – unwyd bataliynau sefydlog a milisia'r fyddin yn gatrodau tiriogaethol ag enwau lleol a chanolfannau lleol.

O ganlyniad i'r diwygiadau roedd gan Fyddin Prydain gyflenwad cyson o filwyr a oedd wedi cael hyfforddiant da ac roedd ansawdd y swyddogion yn well.

Cyn y diwygiadau roedd swyddogion yn parhau i fod yn ddynion o'r dosbarthiadau uwch a oedd â'r modd i brynu comisiwn. Ymrwymiad ariannol oedd comisiwn yn ei hanfod, a byddai'n cael ei fforffedu yn achos anfedrusrwydd, llwfrdra neu gamymddwyn difrifol. Dechreuodd yr arfer yn ystod teyrnasiad **Siarl II** a pharhaodd

nes iddo gael ei ddiddymu yn 1871. Dim ond comisiynau yng nghatrodau'r gŵyr meirch a'r gwŷr traed, hyd at reng cyrnol, yr oeddech chi'n gallu eu prynu. Roedd comisiynau yn y Peirianwyr Brenhinol (*Royal Engineers*) a'r Magnelwyr Brenhinol (*Royal Artillery*) yn agored i raddedigion y **Coleg Milwrol Brenhinol** yn Woolwich (sefydlwyd yn 1741) a byddai swyddogion yn cael eu dyrchafu yn ôl eu statws. Roedd swyddogion o'r fath yn cael eu hystyried yn ddilornus yn bendefigion isradd (not quite a gentleman).

Oherwydd bod llawer o swyddogion yn marw yn ystod Rhyfeloedd Napoleon roedd cyfle weithiau i swyddogion ennill dyrchafiad. Ni fyddai swyddogion o'r tu allan i'r rhengoedd yn cael eu derbyn yn gymdeithasol ac roedden nhw'n aml yn cael eu symud i swyddi yn y cefn, fel swyddogion cyflenwi. Gallai siarsiant uchelgeisiol ddod yn is-lefftenent drwy fod yn gyfrifol am y 'fenter ddiobaith' cyn brwydr ond, fel rheol, nid oedd llawer yn gallu fforddio'r bywyd cymdeithasol drud na chost lifrai swyddog mewn rhai achosion.

Cafodd profiadau milwr cyffredin a gododd i reng swyddog eu portreadu yn y gyfres deledu *Sharpe* (1993–97).

## Defnyddio propaganda wrth recriwtio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf

### Recriwtio

Pan ddechreuodd y rhyfel ar 4 Awst 1914 roedd gan Brydain fyddin broffesiynol o lai na 250,000. Roedd 80,000 o filwyr ym **Myddin Alldeithiol Prydain** *(British Expeditionary Force)* a daeth yn amlwg iawn na fyddai'r fyddin barhaol yn ddigon mawr i ymladd rhyfel ar raddfa fawr. Roedd yr Arglwydd Kitchener, yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Ryfel, yn ddigon craff i ragweld y byddai'r rhyfel yn para am dair blynedd o leiaf, yn groes i'r farn gyffredinol, ac y byddai angen miliwn o ddynion o leiaf. Ddeuddydd ar ôl i'r rhyfel ddechrau, cytunodd y senedd i gynyddu maint y lluoedd arfog o dros hanner miliwn o ddynion a dechreuodd ymgyrch recriwtio enfawr. Sefydlwyd swyddfeydd recriwtio mewn trefi a dinasoedd ac mewn ton o wladgarwch, llwyddwyd i gyrraedd y targed erbyn diwedd mis Medi.

Roedd y recriwtiaid cyntaf yn tueddu i fod yn ddynion ifainc, sengl a oedd yn aml yn ymuno â '**bataliynau cyfeillion**'. Roedden nhw wedi tyfu i fyny gyda'i gilydd, ac yn aml fe fydden nhw'n gwasanaethu gyda'i gilydd ac yn marw gyda'i gilydd. Codwyd y cyfyngiad oedran ar gyfer ymrestru i 35 a chafodd dynion priod eu hannog i gofrestru.

Lluniodd yr Arglwydd Derby, Cyfarwyddwr Cyffredinol Recriwtio, gynllun o'r enw **Cynllun Derby** mewn ymgais i osgoi cyflwyno consgripsiwn. Byddai'r gwirfoddolwyr

yn cael eu rhoi ar restr wrth gefn a'u galw i fyny yn ôl yr angen. Roedden nhw'n gwisgo band braich lliw caci â choron goch ar eu dillad arferol i osgoi cael y bluen wen a oedd yn arwydd o lwfrdra.


Ym mis Awst 1914 tybiwyd na fyddai Cymru yn ymateb yn frwdfrydig i'r alwad am wirfoddolwyr oherwydd traddodiadau Cymreig anghydffurfiaeth a rhyddfrydiaeth. Eto i gyd, ar ddechrau'r rhyfel roedd ton o wladgarwch yn ysgubo ar draws Cymru hefyd. Yn Llansawel ger Castell Nedd, gwirfoddolodd bron iawn pob dyn o'r oedran cymwys. Yn y Rhondda, aeth David Watts Morgan, asiant y glowyr, ati i hyrwyddo sefydlu 'brigâd cyfeillion'. Doedd swyddfeydd recriwtio Caerdydd ddim yn gallu ymdopi â'r niferoedd a ddaeth ymlaen ym mis Awst. Erbyn diwedd mis Medi 1914, roedd 14 bataliwn 'gwasanaeth' o wirfoddolwyr wedi'u sefydlu ac ymunodd llawer o Gymry â chatrodau Seisnig, yn enwedig y Devonshires.

Ymrestrodd cyfanswm o 272,924 o ddynion a menywod rhwng dechrau'r rhyfel a Diwrnod y Cadoediad ym mis Tachwedd 1918, sef 11% o'r boblogaeth.

## Propaganda

Erbyn 1917 roedd y llywodraeth yn wynebu'r broblem o berswadio'r genedl i barhau i gefnogi rhyfel a oedd yn costio gymaint yn nhermau arian, adnoddau a bywydau. Ym marn y Prif Weinidog David Lloyd George roedd angen cyflwyno rhaglen er mwyn dylanwadu ar agweddau. Sefydlodd y llywodraeth Bwyllgor **Nodau Cenedlaethol y Rhyfel** (*NWAC: National War Aims Committee*) gyda'r nod o gyflwyno mathau o bropaganda.

- Y cyfryngau – gweithiodd y NWAC gyda busnesau'r stryd fawr, fel W. H. Smith i ddosbarthu pamffledi. Roedd papurau newydd darluniadol yn adrodd am y rhyfel mewn ffordd arwrol ond yn gwneud yn fach o erchyllterau'r rhyfel a nifer y bywydau a gollwyd.
- Ffilmiau – ffilm a gynhyrchwyd ym mis Rhagfyr 1915 oedd *Britain Prepared* ac fe'i dosbarthwyd yn genedlaethol. Roedd deunydd ffilm milwrol ynddi i hyrwyddo'r syniad o gryfder a phenderfyniad Prydain. Dangoswyd y ffilm am chwe




Ffynhonell 12: Poster a anelwyd at siaradwyr Cymraeg

wythnos yn Theatr yr Empire yn Llundain a chynhyrchwyd fersiwn byrrach i'w ddangos mewn sinemâu ar draws y wlad.

- Posteri – gellir dadlau mai posteri recriwtio oedd y dull mwyaf effeithiol o bropaganda. Y thema fwyaf cyffredin oedd gwladgarwch a oedd yn apelio at bawb i 'wneud eu rhan'. Roedd themâu eraill yn cynnwys ofn goresgyniad, erchyllterau'r Almaenwyr ac apêl at falchder dynion.
- Propaganda erchyllterau – roedd adroddiadau papur newydd am yr 'Hun' yn cyflawni gweithredoedd erchyll yng Ngwlad Belg ac yn dangos barbariaeth yr Almaenwyr yn ddramatig ond yn gwbl ddychmygol. Cynhyrchwyd poster ym mis Rhagfyr 1914 o'r enw *Remember Scarborough* a oedd yn dangos y dref yn cael ei bomio gan ladd 18 o bobl, yn cynnwys plant a baban 14 mis oed.
- Cefnogaeth pobl enwog – siaradodd gwleidyddion fel Winston Churchill mewn ralïau ac fe gefnogodd y Brenin Siôr V yr ymgyrch gan apelio ar y cyhoedd i ddod ynghyd.

## Consgripsiwn, Gwasanaeth Cenedlaethol a milwyr gyrfa yn ystod yr ugeinfed ganrif

Methiant oedd Cynllun Derby oherwydd roedd 38% o ddynion sengl a 54% o ddynion priod nad oedden nhw mewn gwaith neilltuedig, heb ymrestru. Felly, cyflwynwyd consgripsiwn ym mis Ionawr 1916. Cafodd dynion rhwng 18 a 41 oed eu galw i fyny (codwyd yr oedran i 51 yn ystod misoedd olaf y rhyfel). Roedd dynion oedd ddim yn cael eu hystyried yn ddigon ffit yn feddygol i wasanaethu, clerigwyr, athrawon a gweithwyr yn y diwydiannau mwyngloddio a pheirianneg a ffatrïoedd arfau wedi'u heithrio.

Yn ystod blwyddyn gyntaf consgripsiwn ymrestrodd 1.1 miliwn ac erbyn diwedd y rhyfel roedd y nifer wedi codi i 2.5 miliwn.

Doedd llawer o bobl ddim yn hoffi consgripsiwn ac ym mis Ebrill 1916 protestiodd dros 200,000 o bobl yn Sgwâr Trafalgar.

Gwrthododd tua 16,000 o ddynion ymladd ar sail foesol a chrefyddol ac roedd 900 o'r rhain yn Gymry. Roedden nhw'n cael eu galw yn wrthwynebwyr cydwybodol ('conshis') er bod 7,000 o heddychwyr wedi cytuno i wneud gwasanaeth nad oedd yn cynnwys ymladd, yn aml fel cludwyr stretsieri ar flaen y gad. Cafodd cyfanswm o 6,000 o ddynion eu carcharu am wrthod ymladd a dedfrydwyd 35 o'r rhain i farwolaeth, er i'w dedfrydau gael eu newid i 10 mlynedd yn y carchar.

Un o heddychwyr mwyaf dylanwadol Cymru yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed

ganrif oedd George Maitland Lloyd Davies. Cafodd ei eni yn Lerpwl a chafodd ei garcharu am wrthwynebu'r penderfyniad i fynd i'r Rhyfel Byd Cyntaf a chonsgripsiwn.

Gyda Richard Roberts o Flaenau Ffestiniog, aeth ati i sefydlu cymdeithas Gristnogol i hybu heddwch yn 1914 o'r enw Cymdeithas y Cymod. Cyhoeddodd y gymdeithas gyfnodolyn misol o'r enw Y Deyrnas rhwng 1916 ac 1919, o dan olygyddiaeth Thomas Rees, prifathro coleg Bala–Bangor.

Roedd gan rai o enwadau anghydffurfiol Cymru draddodiad cryf o heddychiaeth a gwrthododd llawer o bobl ymladd yn y rhyfel, gan ddod yn wrthwynebwyr cydwybodol. Gwrthwynebodd y bardd Gwenallt (David Jones) y rhyfel ar sail Gristnogol, sosialaidd a chrefyddol. Treuliodd amser yn Wormwood Scrubs a Dartmoor yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf am wrthod 'gwisgo'r dillad caci'. Cafodd ei ysbrydoli i ysgrifennu ei nofel gyntaf Plasau'r Brenin (1934) ar sail ei brofiadau yn y carchar.

## Gwirfoddolwyr o Gymru yn Rhyfel Cartref Sbaen

Sefydlwyd gweriniaeth ddemocrataidd yn Sbaen yn 1931. Pan gododd y cenedlaetholwyr o dan arweiniad y Cadfridog Franco yn erbyn y weriniaeth yn 1936 dechreuodd rhyfel cartref. Roedd llawer o Gymry yn cydymdeimlo â'r weriniaeth ac mae llawer o enghreifftiau o unigolion a chymunedau yng Nghymru a aeth allan i helpu'r achos. Sefydlwyd cangen Prydeinig o'r Frigâd Ryngwladol ym mis Rhagfyr 1936.

Cafodd nifer o Gymry eu cadw'n wystlon yn Sbaen ac un o'r rhain oedd Tom Jones o Rosllannerchrugog ger Wrecsam. Ymunodd â'r Frigâd Ryngwladol a chafodd ei gymryd yn garcharor ym mis Medi 1938, heb gael ei ryddhau tan fis Mawrth 1940.

Ymosodiad Ebro oedd digwyddiad mawr olaf y rhyfel ac roedd yn ymgais gan y Gweriniaethwyr i gipio Gandesa, canolfan gyfathrebu allweddol yng Nghatalwnia. Syrthiodd Gandesa i ddwylo'r Cenedlaetholwyr a lladdwyd llawer o ddynion ar y ddwy ochr. Lladdwyd pum Cymro gan gynnwys:

- Thomas Jones o Aberdâr
- David Murphy o Gaerdydd
- James Stringer o Gastell-nedd
- Brazell Thomas o Lanelli
- James Watt o Abertawe.

Erbyn diwedd Rhyfel Cartref Sbaen roedd 177 o Gymry wedi ymladd yn Sbaen a 33 wedi colli eu bywydau.

## Consgripsiwn a'r Ail Ryfel Byd

Ym Mhrydain, mae consgripsiwn wedi cael ei ystyried yn angenrheidiol yn ystod dau gyfnod: 1916–18 a 1939–1960. Gyda rhyfel ar y gorwel, pasiodd y llywodraeth **Ddeddf Hyfforddiant Milwrol** 1939. Roedd hyn yn golygu y gallai dynion 20–22 oed gael eu galw i fyny i hyfforddi am 6 mis – y tro cyntaf i gonsgripsiwn gael ei gyflwyno yn ystod cyfnod o heddwch. Pan ddechreuodd y rhyfel ar 3 Medi 1939, daeth pob dyn rhwng 18 a 40 oed yn gymwys i gael ei alw i fyny o dan y **Ddeddf Gwasanaeth Cenedlaethol (Lluoedd Arfog)**.

Codwyd yr oedran i 51 yn 1941. Cofrestrodd 250,000 i wasanaethu ac, fel yn achos y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd rhai swyddi yn cael eu hystyried yn 'waith neilltuedig' e.e. yn 1943 cafodd 22,000 o 'Fechgyn Bevin' (a gafodd eu henwi ar ôl Ernest Bevin, y Gweinidog Llafur) eu consgriptio i weithio yn y pyllau glo.

Unwaith yn rhagor, gwnaed trefniadau ar gyfer y rhai hynny a wrthododd wasanaethu ar sail foesol. Fe wnaethon nhw wynebu tribiwnlysoedd milwrol ond oherwydd profiad y Rhyfel Byd Cyntaf cawson nhw eu trin yn fwy dyngarol. Roedd llawer yn gwneud swyddi lle doedd dim rhaid ymladd a gwaith sifil ar ffermydd ac mewn ysbytai.

## Gwasanaeth Cenedlaethol

Cyflwynwyd Gwasanaeth Cenedlaethol neu gonsgripsiwn yn ystod cyfnod o heddwch yn 1948. O 1 Ionawr 1949 roedd disgwyl i bob dyn ffit yn feddygol rhwng 17 ac 21 oed wasanaethu yn y lluoedd arfog am 18 mis ac aros ar y rhestr wrth gefn am 4 blynedd. Gwasanaethodd y rhan fwyaf o'r rhain yn y fyddin a'r llu awyr gan mai nifer bach iawn o filwyr dan orfodaeth a gafodd eu derbyn gan y llynges. Cafodd dynion mewn diwydiannau allweddol eu hesgusodi a gellid gohirio Gwasanaeth Cenedlaethol er mwyn i ddynion ifainc gwblhau eu haddysg uwch. Ar ôl 10 wythnos o hyfforddiant sylfaenol




Ffynhonell 13: Gwasanaeth Cenedlaethol – archwilio'r cit

anfonwyd dynion i ymuno â chatrodau gartref a thramor. Roedd eu profiadau yn amrywio'n fawr. Bu farw llawer wrth wasanaethu gyda'r lluoedd, dysgodd eraill grefft a threuliodd eraill eu hamser ar y maes ymarfer. Daeth Gwasanaeth Cenedlaethol i ben yn 1960 a dychwelodd Prydain i ddibynnu ar fyddin sefydlog, wirfoddol.

## Lleoli catrodau Cymreig yn y 1950au

Ym mis Tachwedd 1951 anfonwyd y Gatrawd Gymreig i Korea ac yna i Hong Kong ym mis Tachwedd 1952. Yna gwasanaethodd y gatrawd yng Ngorllewin yr Almaen ym mis Mehefin 1956, Cyprus yn 1957 a Gogledd Affrica yn 1958.

Anfonwyd Bataliwn 1af y Gwarchodlu Cymreig i Balestina yn 1947 ond cafodd y bataliwn ei dynnu allan pan gyhoeddwyd Gwladwriaeth Israel yn 1948. O 1950 ymlaen gwasanaethodd y bataliwn yng Ngorllewin yr Almaen gan ymuno â Brigâd Berlin, cyn symud i'r Dwyrain Canol yn ystod Argyfwng Suez yn 1957.

## Rhan y Cymry yn Rhyfel Ynysoedd Falkland

Yn 1982 roedd y Gwarchodlu Cymreig yn rhan o'r tasglu a anfonwyd i Ynysoedd Falkland. Roedden nhw ar y llong fyddin *Sir Galahad* pan ymosodwyd arni gan dair awyren A-57 Skyhawk o Lu Awyr yr Ariannin. Lladdwyd 48, y nifer mwyaf i golli eu bywydau yn y fyddin ers yr Ail Ryfel Byd, ac roedd 32 o'r rhain yn aelodau o'r Gwarchodlu Cymreig. Anafwyd hyd at 100 o ddynion a dioddefodd llawer ohonyn nhw losgiadau erchyll.

Ym mis Mehefin 1982, ymladdodd Bataliwn 1af y Gwarchodlu Cymreig yn Sapper Hill yn ystod Brwydr Mount Tumbledown. Hwn oedd y rhwystr olaf i'r ymosodiad ar Port Stanley.

## Milwyr gyrfa yn yr ugeinfed ganrif

Yn y degawdau ar ôl i'r Gwasanaeth Cenedlaethol ddod i ben, cafodd y fyddin ei lleihau. Erbyn diwedd y 1980au pan ddaeth y Rhyfel Oer i ben gwelwyd mwy o doriadau. Yn 1990 cynhaliodd y llywodraeth arolwg amddiffyn. Cafodd 50,000 o swyddi eu colli o'r fyddin gan adael dim ond 102,000 o aelodau sefydlog. Ynghyd â'r Llu Awyr Brenhinol a'r Llynges Frenhinol mae gan y wlad rym milwrol o tua 150,000 o bobl.

Yr isafswm oedran ar gyfer ymrestru yw 16 ond rhaid bod yn 18 oed i wasanaethu ar ymgyrchoedd. Codwyd uchafswm yr oedran recriwtio o 26 i 33 yn 2007. Mae'r

rhan fwyaf o bobl yn gwasanaethu am 22 mlynedd ac mae'n rhaid gwasanaethu am 4 blynedd fel arfer cyn ei bod hi'n bosibl gadael. Mae hyfforddiant sylfaenol yn para am 14 wythnos ac yna rhaid cael blwyddyn o hyfforddiant mwy arbenigol.

Mae tair cangen lluoedd arfog Prydain yn recriwtio'n bennaf o'r Deyrnas Unedig ond mae dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon a gwledydd y Gymanwlad hefyd yn gymwys i ymrestru.

Mae darpar-swyddogion y fyddin yn dechrau eu hyfforddiant yn y **Coleg Milwrol Brenhinol** yn **Sandhurst** lle mae graddedigion yn treulio 44 wythnos yn hyfforddi cyn dewis llwybrau gyrfa penodol fel; cynnal awyrennau, arfau ymladd, cyfathrebu, addysg a hyfforddiant, peiranneg a logisteg.

Mae'r Llu Awyr yn cynnig rhaglen hyfforddiant 6 mis a hyfforddiant arbenigol i ddilyn mewn meysydd fel; gweinyddiaeth, rheoli traffig awyr, peirianneg, rheoli awyrennau ymladd, ymgyrchoedd a chudd-wybodaeth.

Mae swyddogion dan hyfforddiant yn y Llynges Frenhinol yn treulio amser yn y **Coleg Llyngesol Brenhinol** yn Dartmouth cyn mynd ymlaen i hyfforddi ar y môr a chael hyfforddiant arbenigol mewn meysydd fel awyrennau, peirianneg a rhyfela.

## Barics y fyddin yng Nghymru

Ardal hyfforddi Pontsenni yw'r drydedd fwyaf yng ngwledydd Prydain. Defnyddir y meysydd tanio ar gyfer ymarferion magnelaeth a thanio byw gan awyrennau sy'n ymosod ar y tir yn ogystal â pharthau gollwng o'r awyr.

Yn 1999 sefydlwyd yr ystâd hyfforddi amddiffyn yng Nghastellmartin. Mae lluoedd y Deyrnas Unedig a NATO yn hyfforddi yno. Hwn yw'r unig faes tanio yn y Deyrnas Unedig ar gyfer unedau arfog sy'n cynnal ymarferion tanio gynnau uniongyrchol ac mae yno ardaloedd diogel ar y tir ac ar y môr.

Mae barics Aberhonddu bellach yn gartref i 160fed Brigâd (Cymru). Mae Ysgol Frwydro'r Gwŷr Traed yn y dref hefyd, sy'n darparu hyfforddiant i wŷr traed ac ym maes arfau.

# Newidiadau mewn technoleg:

## Pa mor bwysig oedd technoleg o ran newid natur rhyfela dros amser?

### Rhyfela gwarchae'r Oesoedd Canol

Roedd brwydrau llawn yn eithriadau yn yr Oesoedd Canol. Roedd gosod gwarchae (siege) ar gastell neu dref gaerog yn fwy cyffredin ac yn chwarae rhan hollbwysig mewn strategaeth a thechnoleg filwrol. Datblygodd byddinoedd a oedd yn cynnal gwarchaeau beiriannau gwarchae soffistigedig. Yn sgil hyn datblygodd yr amddiffynwyr fesurau i'w gwrthsefyll. Daeth amddiffynfeydd yn gryfach, yn enwedig ar ôl cyflwyno cestyll consentrig. Rhoddwyd pwyslais ar amddiffyn mynedfeydd ac adeiladu pontydd codi amddiffynnol, porthcwlis a rhagfuriau. Roedd ffosydd ac amddiffynfeydd dŵr eraill yn nodweddion pwysig, ynghyd â'r angen am ffynhonnau dwfn â chyflenwadau o ddŵr ffres.

Datblygodd y rhai a oedd yn gosod y gwarchae dechnegau arbennig i fynd i mewn i'r castell neu'r dref neu i orfodi'r preswylwyr i adael.

Roedd peirianwyr gwarchaeau yn asesu cryfderau a gwendidau'r castell neu'r dref ac yn cynllunio arfau gwarchae gan ddefnyddio gweithlu o seiri a gofaint.

### Dulliau gwarchae


- Agor twll neu fwlch yn yr amddiffynfeydd – gan ddefnyddio peiriannau taflu cerrig fel trebuchets a magnelau, hyrddod rhyfel, cathod a fyddai'n crafangu'r waliau cerrig a gwencïod a oedd yn defnyddio pigau.
- Twnelu o dan waliau – defnyddio ffrwydron i allu mynd i mewn neu gynnau tanau a chloddio o dan y sylfeini i'w gwanhau.
- Dringo'r waliau – gan ddefnyddio ysgolion, tyrrau gwarchae a chlochdai.
- Rhyfela biolegol – defnyddio catapyltiau i daflu cyrff anifeiliaid marw ac afiach i'r castell neu'r dref neu wenwyno'r cyflenwadau dŵr.
- Dulliau llechwraidd – llwgrwobrwyo amddiffynnwr er mwyn ei gymell i ymuno â'r ymosodwyr.
- Tactegau erchyll – brawychu'r trigolion drwy anffurfio neu ladd gwystlon neu

daflu rhannau o gyrff dynol i'r castell neu'r dref.

- Athreuliad (*attrition*) – manteisio ar amser gan ddileu cysylltiadau rhwng y bobl dan warchae a'r byd y tu allan neu rwystro cyflenwadau bwyd.

Fodd bynnag, doedd gwarchae hir ddim yn fanteisiol i'r amddiffynwyr na'r ymosodwyr. Byddai rhyfela gwarchae fel arfer yn cael eu cynnal yn ôl y Cod Sifalri. Byddai ymgais yn cael ei wneud i gael cadoediad diplomyddol cyn dechrau'r gwarchae ac roedd ildio o dan delerau anrhydeddus yn cael ei ffafrio.

Ar ôl cyflwyno powdr gwn a'r canon, doedd gwarchaeau ddim yn para'n hir iawn gan y byddai'r waliau caerog yn cael eu taro'n ddidrugaredd a'r trigolion yn ildio'n eithaf cyflym.





Ffynhonell 14: Peiriannau gwarchae'r Oesoedd Canol

# ASTUDIAETH O SAFLE HANESYDDOL SY'N GYSYLLTIEDIG Â DATBLYGIAD RHYFELA –


## CASTELL HARLECH, C.1282-1647.

### Rhesymau dros adeiladu castell Harlech


Ffynhonell 15: Castell Harlech

Roedd brenhinoedd Lloegr a thywysogion Cymru wedi ymgiprys am reolaeth dros Ogledd Cymru ers y 1070au. Ailgychwynnodd y gwrthdaro yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg, gan arwain Edward I i ymyrryd yng Ngogledd Cymru yn 1282 am yr ail waith yn ystod ei deyrnasiad. Aeth Edward I ati i adeiladu ac adnewyddu cyfres o gestyll cadarn fel cadarnleoedd grym a diogelwch. Roedd castell Harlech yn un o saith castell a adeiladwyd ar draws Gogledd Cymru fel rhan o'i 'gylch haearn' o gestyll ac fel canolfannau ar gyfer ei fyddinoedd lle gallai lansio ymosodiadau yn erbyn y Cymry. Caernarfon fyddai pencadlys ei lywodraeth.

### Sut mae dyluniad castell Harlech wedi newid dros amser



Ffynhonell 16: Cynllun llawr o gastell Harlech

Meistr James o St George yn rhanbarth Safwy (Savoy) oedd yng ngofal y gwaith cynllunio ac adeiladu. Roedd y castell bron â'i gwblhau erbyn diwedd 1289 am tua £8,190, sef tua 10% o'r £80,000 a wariodd Edward ar adeiladu cestyll yng Nghymru.

Adeiladwyd y castell o garreg leol ac roedd o gynllun consentrig, gan gynnwys porthdy enfawr a oedd

unwaith yn llety uchel ei statws i gwnstabl y castell ac ymwelwyr pwysig. Ar y pryd roedd y môr yn cyrraedd yn nes o lawer at Harlech ac roedd llifddor â grisiau hir yn arwain i lawr o'r castell at y lan gan olygu bod modd dod â chyflenwadau i'r castell o'r môr yn ystod gwarchae.

Yn wynebu'r môr, roedd murfylchau Harlech yn ymestyn o wyneb y graig serth. Byddai unrhyw ymosodwyr o'r tir yn gyntaf yn gorfod wynebu'r porthdy enfawr â dau dŵr. Mae'r môr, fel mynyddoedd Eryri, yn allweddol i leoliad Harlech. Mae waliau mewnol a thyrrau enfawr y gaer yn dal i sefyll i'w huchder llawn.

Yn sgil gwrthryfel Madog ap Llywelyn rhwng 1294–95, adeiladwyd amddiffynfeydd ychwanegol o amgylch y llwybr i lawr at y môr. Gwnaed mwy o waith rhwng 1323–24, ar ôl rhyfel Despenser pan gafodd Edward II ei fygwth yn y rhanbarth gan ddau o arglwyddi'r gororau, Roger a Humphrey de Bohun. Gorchmynnodd ei siryf, Syr Gruffydd Llwyd, i ymestyn yr amddiffynfeydd a oedd yn arwain at y porthdy a chodi tyrau ychwanegol.

## Gwarchaeau castell Harlech

Yn 1294, dechreuodd Madog ap Llywelyn wrthryfel yn erbyn y Saeson a ymledodd yn gyflym ar draws Cymru. Gosododd y gwrthryfelwyr gastell Harlech dan warchae y gaeaf hwnnw. O Iwerddon anfonwyd cyflenwadau ffres dros y môr, a chawsant eu cludo drwy lifddorau Harlech gan ddod â'r gwrthryfel i ben.

Yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr, erbyn 1403, dim ond llond llaw o gestyll, gan gynnwys Harlech, a lwyddodd i ddal eu tir yn erbyn y gwrthryfelwyr. Doedd dim digon o offer na staff yn y castell i wrthsefyll gwarchae a dengys y cofnodion mai dim ond tair tarian, wyth helmed, chwe gwaywffon, deg pâr o fenig, a phedwar gwn oedd gan y garsiwn. Ar ddiwedd 1404, roedd y castell wedi syrthio i ddwylo Glyndŵr a daeth yn gartref ac yn bencadlys milwrol iddo am bedair blynedd. Yn 1408 gosododd lluoedd Seisnig, o dan awdurdod y gŵr a gafodd ei goroni yn Harri V yn ddiweddarach, a'i gadlywydd, Edmund Mortimer, warchae ar y castell. Gwnaeth magnelau a chanonau ddifrod mawr i rannau deheuol a dwyreiniol y waliau allanol. Ar ôl methu â chipio'r castell, cafodd John Talbot ei adael gan Harri i fod yn gyfrifol am y gwarchae ac aeth Harri yn ei flaen i Gastell Aberystwyth. Ar ôl i Mortimer a llawer o'i ddynion farw o flinder, syrthiodd Harlech yn y pen draw ym mis Chwefror 1409.

Yn y bymthegfed ganrif, roedd Harlech yn gysylltiedig â'r gyfres o ryfeloedd cartref a elwir yn Rhyfeloedd y Rhosynnau, rhwng carfanau gelyniaethus teulu Lancaster a theulu Iorc. Yn 1460, yn dilyn brwydr Northampton, fe wnaeth y Frenhines Margaret o Anjou a'r baban, y Tywysog Edward, ffoi i'r castell. Rhwng 1461 ac 1468 roedd yn nwylo cefnogwyr teulu Lancaster, o dan awdurdod Dafydd ap Ieuan. Oherwydd

ei amddiffynfeydd naturiol a'r llwybr gyflenwi ar y môr, daliodd castell Harlech ei dir unwaith eto ac, wrth i gestyll eraill syrthio, hwn oedd yr olaf o'r prif gadarnleoedd a oedd yn dal i fod o dan reolaeth teulu Lancaster. Daeth y castell yn ganolfan ar gyfer eu hymgyrchoedd ar draws y rhanbarth. Ymosododd Syr Richard Tunstall o gastell Harlech yn 1466 a glaniodd Siaspar Tudur yno gyda milwyr ychwanegol o Ffrainc yn 1468. Yn sgil dyfodiad Tudur gorchmynnodd Edward IV William Herbert i drefnu byddin, o bosibl hyd at 10,000 o ddynion, er mwyn cipio'r castell unwaith ac am byth. Ar ôl mis, ildiodd y garsiwn bach ar 14 Awst.

### Castell Harlech yn ystod y Rhyfel Cartref

Ar ôl dechrau Rhyfel Cartref Lloegr yn 1642, daliwyd y castell gan luoedd a oedd yn deyrngar i Siarl I.

Roedd y castell heb gael ei drwsio yn dilyn gwarchae 1468 ac roedd wedi mynd â'i ben iddo, ac eithrio'r porthdy, a oedd yn cael ei ddefnyddio fel y brawdlys lleol. Yn 1644 penododd y Tywysog Rupert frenhinwr lleol, y Cyrnol William Owen, yn gwnstabl y castell, a rhoddwyd y dasg o drwsio'r gaer i Owen.

Bu gwarchae hir rhwng mis Mehefin 1646 a mis Mawrth 1647 pan ildiodd y garsiwn o 44 dyn i'r Cadfridog Thomas Mytton. Y castell oedd y gaer frenhinol olaf ar y tir i ildio gan nodi diwedd cam cyntaf y rhyfel. Doedd dim angen y castell bellach i sicrhau diogelwch Gogledd Cymru ac, i atal y Brenhinwyr rhag ei ddefnyddio eto, gorchmynnodd y Seneddwyr y dylid ei ddinistrio. Fodd bynnag, dilynwyd y gorchmynion yn rhannol yn unig. Dinistriwyd grisiau'r porthdy a difrodwyd y castell i'r fath raddau fel na ellid ei ddefnyddio ond ni chafodd ei ddinistrio'n llwyr. Cafodd cerrig y castell eu defnyddio i godi tai yn y dref.

## Datblygiad bwâu ac arfau tanio fel arfau Prydeinig hyd at yr ail ganrif ar bymtheg

### Bwâu croes

Roedd y bwa croes yn agoriad llygad ac mor bwysig â'r gwn i genedlaethau'r dyfodol. Roedd angen cyhyrau cryf a llaw gadarn i ddefnyddio bwâu llaw ac nid oedd yn bosibl eu tynnu'n llawn am gyfnod hir. Hefyd, roedd yn cymryd llawer o flynyddoedd i feistroli'r arf. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd milwyr cyffredin heb hyfforddiant yn gallu defnyddio bwâu croes. Roedd yn rhaid i saethwyr bwâu llaw sefyll i danio ac roedden nhw'n dargedau amlwg. Gallai saethwyr bwâu croes danio ar eu cwrcwd neu wrth orwedd ac anelu pan fyddai targed yn ymddangos. Hefyd,

roedd ganddyn nhw darian arbennig i'w hamddiffyn o'r enw **pavise**. Roedd bwâu croes yn farwol o bellter byr a gellid saethu bolltau ymhellach ac yn fwy cywir na'r bwa llaw. O ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg cafodd bwâu croes eu gwneud o ddur â mecanwaith arbennig a oedd yn eu gwneud hyd yn oed yn fwy pwerus. Ond roedd eu cyfradd saethu yn araf, 2 neu 3 bollt y munud. Fodd bynnag, bellach gallai gwerinwr cyffredin drywanu arfwisg marchog bonheddig o bellter byr ac arweiniodd hyn at fabwysiadu arfwisg blât.

## Bwâu hir

Y Cymry oedd y bobl gyntaf i ddefnyddio'r bwa hir ym Mhrydain ond erbyn diwedd y drydedd ganrif ar ddeg roedd yn cael ei ddefnyddio yn Lloegr. Roedd y bwa yn chwe throedfedd o hyd ac wedi'i wneud o ywen fel arfer. Roedd y saethau yn dair troedfedd o hyd â blaenau metel llydan. Defnyddiwyd y botgin hir i drywanu mael cadwyn, y botgin byr i drywanu arfwisg blât, a 'chynffonnau gwenoliaid' i dargedu ceffylau.

Erbyn dechrau'r bymthegfed ganrif roedd saethwyr wedi darganfod y gellid saethu yn bellach drwy gyrlio plu cynffonnau eu saethau gan wneud iddyn nhw droelli wrth hedfan. Saethwyr y bwâu hir oedd yr elît ymhlith y saethwyr ac roedden nhw'n gallu saethu hyd at 15 saeth y munud.

## Brwydr Agincourt – 25 Hydref, 1415

Dathlodd Harri V, 'Llanc o Fynwy' Shakespeare, fuddugoliaeth fawr yn y Rhyfel Can Mlynedd pan drechodd byddin Ffrainc ym mrwydr Agincourt. Roedd y fyddin hon yn llawer mwy o ran maint ac roedd cyfraniad dynion y bwâu hir yn hollbwysig. Fel ym mrwydr Crecy yn 1346, roedd saethwyr bwâu hir Cymry yn allweddol i lwyddiant y Saeson. Roedd byddin Harri yn cynnwys saethwyr o Sir Fynwy a Sir Frycheiniog. Lansiodd saethwyr Harri ymosodiad cychwynnol gan niweidio llawer o geffylau a blaenlluoedd (advance troops) Ffrainc. Yn ogystal â'i chael hi'n anodd dod o hyd i lwybr drwy'r llu hwn ac ar draws y cae mwdlyd a oedd yn eu gwahanu oddi wrth



Ffynhonell 17: Saethwyr bwâu hir yn ymarfer saethu

y Saeson, doedd gwŷr traed Ffrainc ddim yn gallu symud ymlaen yn effeithlon oherwydd y polion a osodwyd yn y ddaear i amddiffyn saethwyr Lloegr. Roedd yn rhaid i'r Ffrancwyr gadw'n agos at ei gilydd wrth symud ymlaen, gan olygu nad oedd y marchogion Ffrengig yn gallu ymladd mor effeithlon. Amcangyfrifir bod dros 8,000 o filwyr Ffrainc wedi cael eu lladd yn y frwydr. Ychydig dros 400 o filwyr byddin Lloegr a gollwyd.

## Arfau tanio

Disodlwyd bwâu pan gafodd arfau tanio eu cyflwyno. Yr arf tanio cyntaf i gael ei fasgynhyrchu oedd yr **arquebus** a ddefnyddiwyd yn y bymthegfed ganrif. Cafodd ei ddisodli gan y **mysged** yng nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg ac aeth 200 mlynedd arall heibio cyn ei wella.

Roedd mysgedau cynnar yn anhylaw ac yn beryglus i'w defnyddio. Roedd yn rhaid gosod barilau mysgedau hir ar gynhalydd, roedd yn cymryd amser i'w llwytho a doedden nhw ddim ond yn effeithiol pan fydden nhw'n tanio cawod o ergydion.

Roedd dau fath o fysged, y **mysged matsien** a'r **gwn carreg fflint**. Roedd y ddau yn cael eu llwytho yn yr un ffordd drwy dywallt powdr gwn i'r faril a'i wasgu â ffon neu bren. Byddai'r bêl blwm yn cael ei rhoi i mewn ac yna'r wadin i'w chadw yn ei lle. I danio'r mysged matsien byddai'r mysgedwr yn gwagio powdr gwn i'r badell danio ac yn ei orchuddio er diogelwch. Yna byddai'n gwasgu darn o lin wedi'i gynnau i'r glicied fetel neu'r sarff. Wrth danio byddai'r llin yn dod i mewn i'r badell ac yn cynnau'r powdr. Byddai'r fflam yn mynd i mewn i'r faril, yn cynnau'r powdr ac yn tanio'r bêl blwm. Roedd tanio'r gwn carreg fflint ychydig yn haws. Roedd y sarff yn cynnwys darn o fflint a fyddai'n cynhyrchu gwreichionen wrth gael ei daro, gan gynnau'r powdr. Roedd llwytho yn amlwg yn broses araf a byddai'n cymryd hyd at ddau funud i danio un ergyd.

Cafodd yr egwyddor o droelli saethau er mwyn gwella cywirdeb a phellter ei gyflwyno i arfau tanio ar ffurf rhigoli, sef torri rhychau troellog ym maril y gwn. **Reiffl** oedd yr enw ar fysged a oedd yn defnyddio'r dechnoleg hon ac fe ymddangosodd yn ail hanner y bymthegfed ganrif. Doedden nhw ddim yn cael eu defnyddio'n eang oherwydd bod angen eu glanhau yn gyson ac roedd hyn yn anymarferol mewn brwydr.


Ffynhonell 18: Y 'Brown Bess'

Ac eithrio rhigoli a datblygiad mysgedau cerrig fflint, wnaeth arfau tanio cynnar ddim newid rhyw lawer

rhwng dechrau'r bymthegfed ganrif a diwedd y ddeunawfed ganrif. Comisiynwyd y **mysged patrwm tir** neu'r '**Brown Bess**' yn 1722 ac roedd yn parhau i gael ei ddefnyddio tan 1838. Dyma'r gwn a 'adeiladodd Ymerodraeth Prydain'. Fodd bynnag, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwelwyd datblygiadau a fyddai'n arwain at arfau tanio modern.

## Canonau

Roedd y canonau cynnar ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg wedi'u gwneud o bren neu garreg nes y cafodd bariau haearn eu weldio at ei gilydd a'u cryfhau â chylchoedd haearn i greu silindr ar gyfer tanio peli carreg. Roedd canonau llai yn tanio saethau. Unwaith neu ddwywaith y dydd yn unig y gellid tanio'r teclynnau cynnar hyn ac roedden nhw'n tueddu i fyrstio. Lladdwyd y **Brenin Iago II** o'r Alban ar ôl i ganon fyrstio yn ystod gwarchae Roxburgh yn 1460. Roedd canonau gwell yn cael eu bwrw o efydd ac roedd y fersiynau rhatach o haearn bwrw. Roedden nhw'n tanio peli haearn ymhellach ond roedden nhw'n methu eu tanio'n uchel iawn. Yn sgil cyflwyno **trynionau** ar droliau pren roedd yn bosibl symud y faril yn uwch neu'n is. Roedden nhw'n gallu cyrraedd pellter o tua 100 metr ond roedden nhw'n anodd eu cludo ac mewn gwarchaeau roedden nhw'n cael eu defnyddio yn bennaf. Mae cofnodion yn dangos bod Edward III wedi defnyddio tri chanon ym **mrwydr Crécy** (1346) ond gwnaeth hynny'n bennaf i godi ofn ar y gelyn yn hytrach nag achosi dinistr.

Erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg daeth magnelau'n llai ac yn ysgafnach ac felly'n haws eu cludo ac erbyn cyfnod y Rhyfeloedd Cartref, gallai tîm o bedwar dyn eu symud. Roedd angen hyd at 16 o geffylau i symud canonau mwy a byddai'n rhaid eu gosod yn eu lle cyn dechrau'r frwydr.

## Effaith diwydiannu ar arfau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Roedd Prydain yn rhyfela bron iawn drwy gydol cyfnod y Chwyldro Diwydiannol ac roedd galw am wella arfau i amddiffyn yr ymerodraeth a buddiannau tramor.

Yn sgil y **Chwyldro Diwydiannol** gweddnewidiwyd y dull o gynhyrchu arfau gan newid natur rhyfela. Roedd dyfodiad y rheilffyrdd a llongau ager yn golygu bod modd cludo byddinoedd a chyflenwadau yn gyflym ac yn sgil y telegraff roedd yn bosibl trosglwyddo negeseuon yn gyflymach o lawer.

Cafodd y datblygiadau diwydiannol effaith ar feysydd eraill. Aeth **Syr Henry Bessemer** (1813–98) ati i chwilio am ffyrdd o gynhyrchu canon mwy cywir ac arweiniodd hyn at ddatblygu baril â rhigolau. Roedd defnyddio dur yn ddrud a datblygodd y **broses Bessemer**, sef proses i gynhyrchu fersiwn rhatach. Yn y

1740au dechreuodd y meistr haearn **John Wilkinson** fwrw barilau canonau o un darn o fetel gan eu gwneud yn fwy tenau ac yn fwy cywir.

Yn sgil mabwysiadu dulliau cynhyrchu modern fel safoni a masgynhyrchu daeth Prydain yn brif gynhyrchwr arfau'r byd a daeth Birmingham yn gartref i ddiwydiant cynhyrchu gynnau mwyaf y byd. Roedd Ardal Gynnau Birmingham yn ateb y galw enfawr am arfau yn ystod Rhyfeloedd Napoleon, Rhyfel y Crimea a Rhyfel Cartref America.

Yn y **Ffatri Mân Arfau Frenhinol** (*The Royal Small Arms Factory*) yn Enfield, Llundain, cynhyrchwyd mysgedau, reifflau a chleddyfau rhwng 1816 ac 1988. Arweiniodd y galw am arfau yn ystod Rhyfel y Crimea at gynnydd yn lefelau cynhyrchu'r ffatri ac ehangwyd y gweithlu. Erbyn 1860, roedd 1,000 o weithwyr yn cynhyrchu 1,744 o reifflau bob wythnos.

O ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd reifflau a oedd yn llwytho trwy'r bôn wedi disodli mysgedau a oedd yn llwytho trwy'r blaen fel arf y gwŷr traed gan chwyldroi dulliau rhyfela. Cyflwynwyd modelau newydd a oedd yn gallu tanio rowndiau lluosog o storgell (*magazine*) drwy fecanwaith â llaw neu'n awtomatig. Roedd gan y reifflau aildanio hyn fantais enfawr dros y reifflau llwytho drwy'r bôn a oedd yn tanio un ergyd.

Ar ôl sawl newid i'r dyluniad a'r dull cynhyrchu daeth y **Lee Enfield** yn brif arf tanio Byddin Prydain. Roedd ganddo storgell 10 rownd a dyma'r arf a roddwyd i filwyr yn ystod y ddau ryfel byd. Yn ystod 'munud gwallgof', gallai troedfilwr a oedd wedi cael hyfforddiant da danio rhwng 20 a 30 ergyd y munud.

## Gynnau peiriant

Roedd yr ymdrechion cynnar i gynhyrchu gwn â sawl gweithred baril yn aflwyddiannus, yn bennaf oherwydd problemau yn ymwneud â gorboethi a llwytho. Yn 1871 mabwysiadodd Byddin Prydain y **gwn Gatling** a allai danio hyd at 150 rownd y munud dros bellter o 200 metr. Roedd yn fawr ac yn drwm ac roedd y criw a oedd yn gofalu am y gwn yn ddiamddiffyn. Yn 1883 dyfeisiodd yr Americanwr Hiram Maxim wn peiriant a wnaeth pob un



Ffynhonell 19: Milwyr Prydeinig yn defnyddio gwn peiriant Vickers ym Mhalestina yn 1946

arall yn ddiwerth. Roedd gwregys yn bwydo bwledi i'r **gwn Maxim** a defnyddiwyd adlam y nwyon gwenwynig yn y siambr danio i ail-lwytho'r fwled nesaf. Mewn egwyddor, gallai danio 600 rownd y munud ond roedd 500 yn fwy ymarferol.

Sicrhaodd **cwmni Vickers** yr hawliau i'r gwn ac aeth ati i symleiddio'r gwn ar gyfer ei fasgynhyrchu. Cafodd y gwn ysgafnach ei ddefnyddio i achosi dinistr mawr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac oherwydd ei fod mor llwyddiannus roedd yn parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion milwrol tan y 1980au.

## Magnelaeth (*artillery*)

Roedd gynnau haearn bwrw'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd yn llwytho drwy'r blaen yn araf i'w llwytho ac yn gadael y criw yn ddiamddiffyn yn wyneb y gelyn. Roedd angen am ganon reiffl a oedd yn llwyddo o'r bôn. Roedd 'gwn enfawr' Syr **William George Armstrong** (1887) yn chwyldroadol o safbwynt technoleg arfau a disgrifiwyd y reiffl sy'n llwytho o'r blaen fel un o'r dyfeisiadau pwysicaf yn hanes y Magnelwyr Brenhinol. Yn pwyso 111 tunnell ac yn mesur 43 troedfedd ac 8 modfedd o hyd, roedd yn tanio sieliau 1,800 pwys am bellter o 8 milltir. Y gwn hwn oedd rhagflaenydd arfau mawr yr ugeinfed ganrif.

## Datblygiadau mewn peirianwaith yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd

Daeth y Rhyfel Byd Cyntaf yn faes prawf ar gyfer nifer o arfau a thechnolegau a fyddai'n gweddnewid natur rhyfela ac yn siapio rhyfeloedd y dyfodol.

Defnyddiwyd prototeipiau o awyrennau, tanciau a llongau tanfor ag effaith frawychus yn yr Ail Ryfel Byd pan gafodd dinasyddion eu rhoi ar flaen y gad yn sgil y cysyniad o '**ryfel diarbed**'.

## Tanciau

Cafodd tractorau ager â thraciau treigl eu defnyddio i symud o amgylch meysydd rhyfel mwdlyd y Crimea. Roedd y rhain yn edrych yn addawol ond ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau pellach tan 1885 pan ddefnyddiodd **cwmni Holt** yn UDA beiriant tanio mewnol i adeiladu tractor â thraciau treigl. Yn 1899 cynlluniodd **Frederick Simms** 'gar modur-rhyfel' a oedd yn cynnwys injan Daimler, casin gwrthfwledi a dau wn peiriant cylchdro. Cynigiodd yr **Is-gyrnol Ernest Swinton** y dylid datblygu math newydd o gerbyd ymladd. Doedd swyddogion mwy traddodiadol y Staff Cyffredinol ddim yn hoffi'r peiriannau trwm hyn. Roedd Swinton yn

argyhoeddedig y byddai peiriannau o'r fath yn newid rhyfela ar y Ffrynt Gorllewinol.



Ffynhonell 20: Tanc Prydeinig ar y Ffrynt Gorllewinol, 1916

Erbyn 1915 cafwyd cytundeb y dylai arf newydd:

- gael cyflymder uchaf o 4 mya ar dir gwastad
- gallu symud ar y cyflymder uchaf
- gallu dringo mur hyd at 5 troedfedd o uchder
- gallu croesi bwlch 8 troedfedd o led
- gallu torri rhwystrau weiren bigog
- gweithredu o fewn cwmpas 20 milltir
- gael ei arfogi â 2 wn peiriant a gwn magnelau ysgafn
- bod yn ddigon mawr i gario criw o 10 dyn.

Roedd sawl problem ar y dechrau ond ymddangosodd y prototeip cyntaf ym mis Ionawr 1916. Ym marn yr **Arglwydd Kitchener** doedd yn ddim byd mwy na 'thegan mecanyddol tlws' a dywedodd na fyddai'r rhyfel yn cael ei ennill gan beiriannau o'r fath. Galwyd y peiriant yn '**llong dir**' (*landship*) ond er mwyn cadw cyfrinachedd cafodd rhannau o'r cerbyd eu cludo ar longau i ardal y brwydro mewn cratiau wedi'u labelu 'tanciau dŵr'.

Cafodd y tanc ei gyflwyno yn ystod brwydr Flers–Courcelette (Medi 1916) ar y Somme. Y bwriad oedd defnyddio 49 tanc ond dim ond 35 a gymerodd ran oherwydd problemau mecanyddol. Er bod y tanciau heb newid y sefyllfa yn ôl y disgwyl, fe lwyddon nhw i godi ofn ar yr Almaenwyr a chyflwynwyd arf a fyddai'n cymryd y lle blaenaf ac yn diffinio rhyfeloedd y dyfodol.

Ar 20 Tachwedd 1917 cymerodd pob aelod o Gorfflu Tanciau Prydain (British Tank Corps) (474 tanc) ran hynod effeithiol ym mrwydr Cambrai. Cafodd llinell flaen yr Almaenwyr ei bylchu ond methodd milwyr Prydain â chynnal y safle. Er bod yr Almaenwyr ddim yn gwbl argyhoeddedig bod tanciau yn ymarferol, fe wnaethon nhw ddechrau eu cynhyrchu. Ar 20 Ebrill 1918 gwelwyd y frwydr gyntaf rhwng tanciau pan sicrhaodd tri thanc Mark IV Prydeinig fuddugoliaeth yn erbyn tri thanc A7V Almaenig i'r de o Villiers Bretonneaux.

Erbyn diwedd y rhyfel roedd Prydain wedi cynhyrchu 2,636 tanc, roedd y Ffrancwyr wedi cynhyrchu 2,870 o danciau a'r Almaenwyr wedi cynhyrchu dim ond 20. Fodd bynnag, wythnos cyn diwedd y rhyfel, dim ond 8 tanc oedd ar ôl gan Brydain.

Ar ôl y rhyfel dechreuodd Prydain gynhyrchu cyfres o danciau ysgafnach ac erbyn dechrau'r Ail Ryfel Byd roedd y tanc wedi'i weddnewid o gerbyd ar gyfer y tir i gerbyd rhyfel arfog. Fodd bynnag, cafodd llawer eu hanfon i weithio yn llawer rhy gyflym a doedden nhw ddim wedi'u harfogi i wrthsefyll saethu gwrthawyrennol.

Roedd y rhyfel yn anialwch Gogledd Affrica rhwng 1940 a 1943 yn ddibynnol iawn ar ddefnyddio tanciau. Defnyddiodd y Prydeinwyr sawl model gan gynnwys y **Matilda**, y **Crusader**, y **Cromwell** a'r **Valentine**.

- Matilda – roedd gwn gan y tanc hwn a allai gylchdroi 360 gradd, gwn peiriant a dau lansiwr grenadau. Roedd yn symud yn araf ar 4 mya ond roedd yn effeithiol a chafodd y llysenw 'brenhines yr anialwch'.
- Crusader – gallai gyrraedd cyflymder o hyd at 40 mya ac roedd yn cynnwys llawer o arfau. Adeiladwyd dros 5,300 rhwng 1939 ac 1943 ond cafodd ei ddisodli gan y Cromwell.
- Cromwell – cafodd ei ddefnyddio am y tro cyntaf yng nglaniadau 'D-Day' ym mis Mehefin 1944. Roedd yn gyflym ac yn ystwyth ond doedd y gynnau 75mm ddim yn gallu cystadlu â thanciau gwell yr Almaenwyr.
- Valentine – cafodd ei ddefnyddio hefyd yn Rhyfel yr Anialwch a chynhyrchwyd 11 fersiwn. Cynhyrchwyd cyfanswm o 8,275, ac anfonwyd 2,720 o'r rhain at y Fyddin Goch i ymladd ar y Ffrynt Dwyreiniol.

Roedd tanciau Prydeinig yn aml yn cael problemau mecanyddol ond pan ymunodd UDA yn y rhyfel roedd Prydain yn gallu elwa ar danciau gwell fel y **Grant** a'r **Sherman**. Erbyn mis Mai 1945 pan oedd y rhyfel bron â gorffen, cafodd prototeip o danc newydd ei brofi ar faes y gad ar frys. Yn ddiweddarach, daeth y **Centurion** yn un o'r tanciau mwyaf llwyddiannus i gyd ac roedd yn cael ei ddefnyddio i ymladd yn y 1980au.



Ffynhonell 21: Tanc Centurion

## Awyrennau

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf datblygodd awyrennau o beiriannau syml, ansoffistigedig i ymladdwyr a bomwyr. Ar ddechrau'r rhyfel doedd awyrennau ddim yn cael eu defnyddio rhyw lawer ar gyfer ymladd ac roedd y 'llygaid yn yr awyr' yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer archwiliadau strategol. Doedd dim llawer o

gymhorthion llywio ac roedd yn rhaid i beilotiaid ddibynnu'n aml ar atlasau ysgolion a nodweddion tir. Wrth i'r rhyfel fynd yn ei flaen cyflwynodd y ddwy ochr nifer o ddatblygiadau technolegol gwahanol mewn ymgais i ragori ar ei gilydd.

Ar y dechrau, roedd peilotiaid y ddwy ochr yn tanio ergydion ar hap at ei gilydd gan ddefnyddio rifolferi gwasanaeth. Hefyd, roedd y criwiau yn cario grenadau y gellid eu taflu a bomiau y gellid eu gollwng. Wrth i'r dechnoleg ddatblygu daeth awyrennau yn haws eu symud, daeth y peiriannau yn fwy pwerus ac roedd yn bosibl cario gynnau peiriant. Roedd yn bosibl cyrraedd cyflymder o dros 70 mya. Roedd oes brwydro yn yr awyr wedi cyrraedd.




Ffynhonell 22: Awyren Sopwith Camel, 1917

Daeth bomio targedau milwrol, iardiau llongau a ffatrïoedd yn nodwedd o ryfela.

Erbyn diwedd y rhyfel roedd awyrennau yn dal i gael eu gwneud o bren a defnydd. Eto i gyd, o safbwynt y ffordd roedden nhw'n ymateb a pherfformiad y peiriannau roedden nhw wedi gosod sylfaen ar gyfer datblygiad pellach yn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd.

## Caffael tir ar gyfer hyfforddiant yng Nghymru

Sefydlwyd gwersyll milwrol bach ym Mryn Golau ger Trawsfynydd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Yn 1906 sefydlwyd safle mwy o faint a mwy parhaol yn Rhiw Goch. Daeth yn bwysig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf fel llety i filwyr ond hefyd fel maes magnelaeth a gwersyll carcharorion rhyfel.

Sefydlwyd Ardal Hyfforddi Castellmartin yn Sir Benfro yn 1938 ar drothwy'r rhyfel, ac yn 1939 cymerodd y Weinyddiaeth Amddiffyn feddiant gorfodol o dir ar Fynydd Epynt at ddibenion hyfforddiant milwrol. Mae'n parhau i gael ei ddefnyddio fel Ardal Hyfforddi Pontsenni.

## Penyberth, 1936

Ffermdy ym Mhenrhos, ar Benrhyn Llŷn ger Pwllheli, Gwynedd, oedd Penyberth. Am genedlaethau bu'n gartref i noddwyr y beirdd ond roedd bwriad i'w ddinistrio yn 1936 i adeiladu gwersyll hyfforddi a maes glanio ar gyfer y Llu Awyr Brenhinol

(RAF). Er gwaethaf dirprwyaeth yn cynrychioli hanner miliwn o brotestwyr o Gymru, gwrthododd y Prif Weinidog Stanley Baldwin glywed yr achos yn erbyn yr ysgol fomio.

Cafodd y brotest yn erbyn yr ysgol fomio ei chrynhoi gan Saunders Lewis pan ysgrifennodd fod llywodraeth Prydain yn dymuno troi un o 'aelwydydd sancteiddiolaf' diwylliant a llenyddiaeth Cymru yn ganolfan hybu dull barbaraidd o ryfela.

Ar 8 Medi 1936, rhoddodd tri o aelodau Plaid Cymru – Saunders Lewis, Lewis Valentine a D. J. Williams yr ysgol fomio ar dân. Aeth y tri i orsaf heddlu Pwllheli yn ddiweddarach i gymryd cyfrifoldeb am y weithred. Yn yr achos yng Nghaernarfon methodd y rheithgor â chytuno ar ddedfryd ac anfonwyd yr achos i'r Old Bailey yn Llundain. Cafodd y tri dyn eu dedfrydu i naw mis o garchar yn Wormwood Scrubs, ac ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau cawson nhw eu croesawu fel arwyr gan bymtheng mil o Gymry ym mhafiliwn Caernarfon. Enw'r digwyddiad hwn yw 'llosgi'r ysgol fomio' neu'r 'tân yn Llŷn'.

Ar ddechrau'r rhyfel yn 1939 roedd yr awyren 'fonoplan' fetel wedi datblygu llawer iawn o ran ei pherfformiad a'i phŵer tanio. Gan gyrraedd cyflymder o 400 mya gallai rhai awyrennau hedfan ar 30,000 troedfedd o uchder. Roedd peilotiaid yn gallu cyfathrebu â'i gilydd wrth hedfan a chysylltu â rheolaeth y ddaear gan ddefnyddio teleffonau radio. Roedd sgwadronau ymladd a bomio yn gallu hedfan mewn trefniant a chael eu cyfarwyddo gan orsafoedd rheolaeth radar fel rhan o'r dull electronig newydd o ryfela. Roedd **systemau radio canfod ac anelu** *(radio detecting and ranging)* yn golygu bod awyrennau'n gallu ymosod yn y nos ac mewn tywydd garw.

Yn sgil datblygiad technoleg awyrennau bomio roedd yn bosibl cynnal cyrchoedd mwy cywir a thargedu safleoedd yn fanwl gywir.

Datblygwyd mathau gwahanol o awyrennau ar gyfer tasgau penodol. Awyrennau bach ar gyfer brwydrau awyr, awyrennau bomio mwy ac awyrennau a oedd yn gallu esgyn a glanio ar longau awyrennau a oedd yn cludo cyflenwadau. Roedd datblygiadau eraill yn cynnwys cyflwyno'r hofrenyddion milwrol cyntaf a, tua diwedd y rhyfel, awyrennau ymladd jet.

- Lancaster – mae'n cael ei ystyried yn un o awyrennau bomio gorau'r rhyfel. Roedd y pedwar peiriant yn ei galluogi i hedfan ar 287 mya, roedd yn gallu cario bomiau a oedd yn pwyso 14,000 pwys a thanio i bellter o 1660 milltir.
- Halifax – cafodd ei rhoi yn y cysgod gan y Lancaster ond roedd yn awyren amlbwrpas a oedd yn hedfan yn ystod y nos ac yn gallu tanio i bellter o 1,240 milltir.
- Hurricane – awyren ymladd a bomio a oedd yn gallu ymosod ar y ddaear; roedd

yr un mor effeithiol ag awyren wrthdanc.

- Hawker Tempest – awyren oedd o flaen ei hamser yn dechnolegol, daeth yn un o awyrennau ymladd llafn gwthio (propeller fighters) gorau'r rhyfel ac roedd yn wych am ryng-gyfarfod taflegrau V1 yr Almaenwyr.
- Spitfire – awyren eiconig y rhyfel a ddaeth yn drech na'r Luftwaffe yn ystod **Brwydr Prydain** yn 1940. Roedd yn cyrraedd cyflymder o 450 mya; cynhyrchwyd dros 1,500 rhwng 1939 ac 1945.
- Parnall Panther – awyren canfod a chynnal archwiliadau strategol a oedd yn cael ei chludo ar longau awyrennau. Gwasanaethodd ar yr HMS Argus a'r HMS Hermes.
- Short Type 166 – awyren fôr batrôl â dau fflôt pontŵn pren.



Ffynhonell 23: Awyren Lancaster yn cael ei chefnogi gan Hurricane a Spitfire

## Datblygiad arfau niwclear ym Mhrydain yn y 1950au; cyfrifiaduro ac arfau technoleg uchel yn lluoedd arfog modern Prydain

### Datblygiad arfau niwclear

Yn fuan ar ôl i'r rhyfel ddechrau ym mis Hydref 1939 cafodd yr **Arlywydd Roosevelt** o UDA lythyr gan y ffisegwr Albert Einstein. Roedd yn sôn am y posibilrwydd o greu bom a fyddai'n fwy nerthol nag unrhyw beth a welwyd o'r blaen trwy ffrwyno grymoedd ymholltiad niwclear. Roedden nhw'n ofni bod gwyddonwyr yr Almaen ar fin creu 'bom atomig' a fyddai'n cael canlyniadau trychinebus. Argyhoeddwyd Roosevelt ac aeth ati i sefydlu menter ar y cyd â Phrydain o'r enw **Project Manhattan**. Fe wnaeth gwyddonwyr a oedd yn cael eu hadnabod fel y 'genhadaeth Brydeinig' gyfraniad pwysig i'r project.

Ar 20 Gorffennaf 1945 profwyd y bom atomig cyntaf yn anialwch Alamogordo yn México Newydd. Roedd yr Almaen wedi ildio ar yr adeg hon ond gollyngwyd dau

fom wraniwm ar **Hiroshima** (6 Awst) a **Nagasaki** (9 Awst) gan orfodi Japan i ildio. Roedd pob bom yn arf thermo-niwclear a oedd yn pwyso ychydig dros 2,400 pwys ond roedd y grym ffrwydrol yn gyfystyr â thanio 1.2 miliwn tunnell o TNT.

Mae ceisio amcangyfrif faint o bobl a laddwyd yn y dinasoedd Japaneaidd wedi bod yn anodd. Lladdwyd 150,000 yn Hiroshima a 75,000 yn Nagasaki.

Yn dilyn hyn, dechreuodd UDA a UGSS, a fu'n gynghreiriaid yn y rhyfel, ar gyfnod o elyniaeth yn ystod y Rhyfel Oer. Daeth y berthynas yn anodd pan ddatblygodd UGSS ei bom atomig ei hun. I dalu'r pwyth yn ôl, dechreuodd Roosevelt raglen i ddatblygu math o arf niwclear mwy datblygedig, sef y bom hydrogen. Erbyn 1954 roedd UDA a UGSS wedi profi'r genhedlaeth gyntaf o fomiau-H yn llwyddiannus.

Prydain oedd y drydedd wlad i ddatblygu a phrofi arf niwclear ym mis Hydref 1952, sef dyfais atomig o'r enw **Hurricane**. Ym mis Mai 1957 profwyd yr arf ymasiad cyntaf ar Ynys Christmas yn y Môr Tawel.

## Cyfrifiaduro ac arfau technoleg uchel

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae milwyr Prydain wedi elwa ar welliannau ym maes cudd-wybodaeth a gwyliadwriaeth ar lefel tactegol, canfod targedau ac archwiliadau strategol. Mae cyfrifiaduro wedi bod yn ganolog i'r gwelliannau hyn ac mae'r ffordd mae'r fyddin yn gweithredu ar y tir, yn yr awyr ac ar y môr wedi newid yn llwyr.



Ffynhonell 24: MQ Reaper, 2005

Mae bomio manwl gywir yn golygu bod modd lansio taflegryn at dargedau sydd gannoedd o filltiroedd i ffwrdd. Mae hyn yn bosibl oherwydd defnyddio systemau optegol a laserau uwch ynghyd â chyfrifiaduron i brosesu'r wybodaeth. Mae'r **System Leoli Fyd-eang** (*GPS: Global Positioning System*) yn codi signalau o loerenni a gellir gollwng bomiau 'clyfar' ar dargedau. Mae gweithredwyr ar y ddaear hefyd yn gallu eu llywio gan ddefnyddio deunydd fideo o gamerâu yn y taflegryn neu synwyryddion gwres.

Gellir defnyddio **Cerbydau Awyr Di-griw** (*UAV: Unmanned Aerial Vehicles*) neu dronau ar gyfer gwyliadwriaeth, archwiliadau strategol neu ymosodiadau awyr. Mae

gan y Llu Awyr Brenhinol (*RAF*) 10 **Reaper** sydd wedi'u harfogi â thaflegrau **Hellfire** a bomiau sy'n cael eu llywio gan laserau.

Yn sgil technoleg uwch gall y rhan fwyaf o wŷr traed ddefnyddio dronau bach, ysgafn i gynnal archwiliadau strategol o dargedau a chymell lluoedd y gelyn. Diolch i helmedau sy'n cynnwys systemau gwybodaeth, golygdyllau (*sights*) thermol ar arfau a lifrai sy'n cynnwys cyfrifiaduron, gall milwyr gymryd rhan mewn brwydrau gyda chymorth delweddau lloeren o faes y gad a gwneud cyfrifiadau cywirdeb balistig.

## Datblygiad rhyfela llyngesol:

## Beth oedd y prif ddatblygiadau mewn rhyfela llyngesol dros amser?

### Datblygiad y llynges yng nghyfnod y Tuduriaid a gorchfygiad yr Armada

Trwy gydol yr Oesoedd Canol roedd llongau yn parhau i gael eu defnyddio i gludo milwyr a chyflenwadau yn bennaf. Roedd ymladd yn erbyn llyngesau eraill yn golygu cyfnewid teflynnau nes y gallai'r llongwyr fynd ar fwrdd y llong ac ymladd ar y dec.



Ffynhonell 25: Y Grace á Dieu, neu'r Great Harry

Mae'n ymddangos bod cyflwyno gynnau ar longau yn ddatblygiad pwysig ond y cyfan a wnaeth mewn gwirionedd oedd arafu dynameg ymladd rhwng llongau. Cyflwynwyd gynnau ar longau am y tro cyntaf yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'u bwriad oedd lladd neu anafu neu achosi panig a dryswch cyn mynd ar y llong. Wrth i gynnau ddod yn fwy ac yn drymach, roedd mwy o siawns o achosi difrod i longau. Oherwydd eu pwysau cawson nhw eu rhoi o dan y dec a'u tanio o dyllau gynnau o'r bymthegfed ganrif ymlaen. Yr enw ar longau a oedd yn gallu suddo llongau eraill oedd **galïau** (*galleys*).

Yn ystod cyfnod y Tuduriaid gwelwyd newidiadau mawr a fyddai'n arwain at sefydlu llu parhaol, gan osod y sylfeini ar gyfer y Llynges Frenhinol yn ddiweddarach.

Gellir dadlau mai sylfaenydd llinach y Tuduriaid oedd tad llynges Lloegr. Yn ystod y bymthegfed ganrif cafodd cynlluniau llongau Ewrop eu gweddnewid a manteisiodd

Harri VII ar y datblygiadau hyn. Dechreuodd gynllun i adeiladu llongau gan fuddsoddi'n helaeth yn natblygiad yr iard longau yn Southampton a'r dociau sych yn Portsmouth. Dyma lle cafodd **Sweepstake**, y llong ryfel gyntaf, ei hadeiladu yn 1497.

Etifeddodd Harri VIII lynges o 5 llong yn unig ac aeth ati ar unwaith i adeiladu llynges a oedd yn ddigon cryf i ategu at ei ddiffyg dynion ar y tir. Adeiladwyd y **Mary Rose** yn Portsmouth rhwng 1509 ac 1511 ac fe'i hatgyweiriwyd yn y 1530au. Cafodd ei gweddnewid yn galiwn 700 tunnell gyda 15 canon efydd ar droliau ag olwynion, 24 trol haearn gyr a 30 magnelwr. Mae'r ffaith iddi gael ei suddo'n ddamweiniol yn 1545 yn dangos ei bod hi'n anodd hwylio llongau fel hyn (cafodd ei darganfod yn 1971 a'i hadfer o 1982 ymlaen).

Yn 1547 lansiwyd y **Grace á Dieu** a oedd hefyd yn cael ei alw'n **Great Harry**. **Carac** (llong ar gyfer y cefnfor) 1,500 tunnell oedd hon â fforcas (*forecastle*) pedwar dec o uchder ar flaen y llong a bwrdd dau ddec o uchder yn starn (penôl) y llong. Roedd yn mesur 50 metr o hyd ac yn cario 43 gwn trwm, 141 gwn ysgafn, a chriw o rhwng 700 a 1,000. Ar y pryd, hon oedd y llong ryfel fwyaf a'r mwyaf nerthol yn Ewrop ond ni welodd lawer o ryfela gan iddi gael ei defnyddio'n bennaf fel llong lysgenhadol.

Erbyn 1540 roedd gan lynges Lloegr 45 llong ac roedd y nifer hwn wedi codi i 80 erbyn 1545. Ar ôl i Mari Tudur briodi Phillip II o Sbaen roedd mwy o gysylltiad rhwng Prydain â Sbaen. Yn sgil hyn dechreuwyd copïo rhai o ddulliau adeiladu llongau'r wlad honno.

Pan ddaeth Elisabeth II i'r orsedd yn 1558 rhoddodd flaenoriaeth i ddatblygu'r llynges. Yr adeg honno, dim ond 39 o longau oedd yn llynges Lloegr ac roedd cynlluniau i adeiladu 30 ychwanegol. Roedd y llongau newydd yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac yn symud oddi wrth y cynllun trwm, lletchwith. Daeth hyn yn hollbwysig yn ystod ymgais Sbaen i oresgyn Prydain yn 1588.

Y llong â rigin llawn (llong â thri neu fwy o fastiau â rigin sgwâr) oedd un o ddatblygiadau technolegol pwysicaf yr unfed ganrif ar bymtheg a chafodd effaith hirdymor. Yn 1573 lansiwyd y **Dreadnought** arloesol a oedd yn gyflymach na llongau eraill ac yn haws ei symud. O ganlyniad, gwelwyd newid yn y tactegau ar y môr ac yn hytrach na hwylio'n agos at longau'r gelyn er mwyn mynd ar eu bwrdd, byddai'r llongau'n wynebu ei gilydd ac yn tanio pob canon o bell gan ddinistrio arfau'r gelyn.

Uchafbwynt teyrnasiad Elisabeth oedd trechu Armada Sbaen yn 1588. Trechwyd y Sbaenwyr oherwydd sawl ffactor gwahanol, o anlwc i gynllunio gwael. Un o'r prif ffactorau oedd tactegau gwell llynges Lloegr.

- Roedd y Sbaenwyr wedi ymddiried yn eu galiynau mawr. Roedd llongau Lloegr

yn llai ac yn gyflymach ac yn gallu tacio'r gwynt yn haws.

- Defnyddiodd y Saeson longau tân neu 'losgwyr uffern' i chwalu trefniant cryf llynges Sbaen a oedd ar siâp cilgant.
- Prif dacteg y Sbaenwyr oedd dod ar fwrdd llongau'r Saeson a'u cipio. Ymladdodd y Saeson o bellter ond 6 yn unig o'r 129 o longau Sbaen a gafodd eu dinistrio o ganlyniad uniongyrchol i ymladd rhwng y ddwy lynges.
- Roedd gan longau Sbaen ynnau trwm a doedden nhw ddim yn gallu tanio mor bell â gynnau'r Saeson.
- Roedd comanderiaid gwell gan y Saeson, fel Drake, Frobisher, Hawkins a Howard.

## Twf llynges Prydain o ganol yr ail ganrif ar bymtheg

Ar ôl y Rhyfeloedd Cartref, sylweddolodd **Oliver Cromwell** fel yr **Arglwydd Amddiffynnydd** pa mor hanfodol oedd llynges Lloegr i amddiffyn y wlad wrth ennill cyfoeth a phŵer ar yr un pryd. Rhwng 1646 ac 1659 ehangodd y llynges i 217 llong; adeiladwyd 106 o'r rhain a chipiwyd 111.

Pan gafodd Siarl II ei adfer i'r frenhiniaeth yn 1660 un o'i gamau cyntaf oedd ailsefydlu'r llynges. O hynny ymlaen, yn hytrach na bod yn eiddo personol i'r goron daeth Llynges y Brenin yn **Llynges Frenhinol**. Tyfodd y llynges yn sylweddol o ran ei maint oherwydd y gystadleuaeth rhwng yr Iseldiroedd a'r Ffrancwyr, ac o ganlyniad daeth Lloegr yn wlad forol fwyaf pwerus y byd. Fel rhan o'i bolisi 'dŵr glas', ychwanegodd Siarl II 25 llong ryfel arall i wrthsefyll cryfder llynges yr Iseldiroedd.

Ehangwyd y llynges ymhellach rhwng 1688 ac 1714 o ganlyniad i'r rhyfel yn erbyn Ffrainc yn 1689. Chwaraeodd llynges Lloegr ran allweddol yn Rhyfel Olyniaeth Sbaen (1701–15) ac efallai na fyddai'r fuddugoliaeth arwyddocaol yn Blenheim (1704) wedi bod yn bosibl petai'r Llynges Frenhinol heb orfodi'r Ffrancwyr i gilio o'r moroedd. Roedd y fuddugoliaeth lyngesol ym **mrwydr Vigo** (1702) pan enillodd llu Eingl–Iseldiraidd fuddugoliaeth fawr dros y Ffrancwyr yn nodi dechrau goruchafiaeth Prydain ym moroedd y Canoldir. Yn ei buddugoliaeth fawr ym **mrwydr Toulon** (1767), achosodd y Llynges Frenhinol ddifrod mawr i lynges Ffrainc gan wanhau ei phŵer morol yn sylweddol.

Yn ystod **Rhyfel Olyniaeth Awstria** (1740–48) bu llynges Prydain yn poenydio llongau masnach Ffrainc a oedd yn teithio i India'r Gorllewin a gosodwyd gwarchae ar borthladdoedd Ffrainc i atal masnach. Ciliodd y Ffrancwyr ac ymbil am heddwch.

Erbyn 1755 roedd y llynges wedi tyfu i dros 200 llong a 40,000 o bersonél. Ar anterth y **Rhyfel Saith Mlynedd** (1756–63) yn 1759, roedd y llynges wedi ehangu i 300 llong ac 80,000 o weithlu. Roedd y rhyfel yn llwyddiant mawr i'r Llynges Frenhinol gan sefydlu Prydain yn brif bŵer trefedigaethol. Yn 1765 adeiladodd **Bwrdd y Llynges** y llong benigamp 100-gwn **Victory** a daeth yn feincnod ar gyfer llongau'r cyfnod.

Fodd bynnag, aeth y rhyfel yn erbyn trefedigaethau America o 1776 tan ddechrau'r 1780au yn groes i'r duedd. Roedd y Rhyfel Saith Mlynedd wedi gadael Prydain yn ynysig, heb gymorth unrhyw bwerau Ewropeaidd eraill. Er ei bod yn dal i fod yn oruchaf ar y môr, doedd hi ddim yn gallu trechu lluoedd America ar y tir a chynnal llongau yng Ngogledd yr Iwerydd i wrthsefyll y Ffrancwyr ar yr un pryd, a chafodd hyn effaith niweidiol. Byddai digwyddiadau yn Ffrainc yn 1789 yn cyflwyno'r her fwyaf yn ei hanes i'r Llynges Frenhinol.

## Rôl y Llynges Frenhinol mewn gorchfygu Napoleon erbyn 1815

Llwyddodd buddugoliaethau llyngesol Prydain yn **Rhyfeloedd Chwyldro Ffrainc** a **Rhyfeloedd Napoleon** i amddiffyn y wlad rhag goresgyniad gan y Ffrancwyr ond doedden nhw ddim yn ddigon i drechu'r Ffrancwyr a byddai'n rhaid eu trechu ar y tir yn y pen draw.

Chwaraeodd y llynges ran allweddol yn yr ymgyrch logistaidd enfawr o gludo milwyr a chyflenwadau a'u glanio ar diriogaethau a oedd dan reolaeth Ffrainc.

Adeg Rhyfeloedd Napoleon y cyrhaeddodd grym morol Prydain ei uchafbwynt o ran effeithlonrwydd, a doedd neb arall yn gallu cystadlu â hi o ran cryfder technolegol a phersonél, fel yr amlygwyd ym **Mrwydr y Nîl** (1798) a arweiniodd at y fuddugoliaeth bwysig ym **Mrwydr Trafalgar** (1805), uchafbwynt mawredd llynges Prydain.

I atal **Napeolon** rhag goresgyn yr Aifft, a fyddai wedi bygwth buddiannau Prydain yn India, rhoddwyd 15 cadlong i'r **Is-lyngesydd Horatio Nelson** a gorchymyn i ddinistrio llynges Ffrainc.

## Tactegau llinell frwydro ar y môr

Defnyddiwyd y dacteg o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg tan ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gafodd ei disodli gan longau rhyfel wedi'u gorchuddio â haearn. Byddai llynges yn ffurfio llinell o'r naill ben i'r llall. Cyn hyn, byddai dwy long wrthwynebus yn agosáu er mwyn ymladd yn unigol yn erbyn ei gilydd. Roedd y dacteg llinell yn fanteisiol oherwydd gallai pob llong yn y llinell danio canonau

o bellter heb ofni ‘tanio cyfeillgar’. Dim ond y llongau mwyaf a’r mwyaf pwerus a fyddai’n cael eu defnyddio a’r enw arnyn nhw oedd cadlongau neu longau rhyfel.

## Brwydr y Nîl, Awst 1798

Oherwydd eu bod yn disgwyl ymosodiad, roedd y Ffrancwyr wedi angori 13 cadlong yn y gobaith y byddai Prydain yn ymosod ar y llongau cryf yn y canol a’r cefn ac yna bydden nhw’n gwrthymosod. Trwy symud yn drefnus, llwyddodd llynges Prydain i hwylio heibio’r ochr arall i linell Ffrainc gan ddifrodi pob llong yn systematig. Cipiwyd 9 o longau Ffrainc, llosgwyd 2 a llwyddodd 2 i ddianc. Cafodd llynges Ffrainc ei dinistrio.

## Brwydr Trafalgar, Hydref 1805

Roedd Napoleon bellach yn cynllunio i oresgyn Prydain ac felly roedd eisiau rheoli’r Sianel. Roedd ei gynllun yn cynnwys osgoi gwarchae Nelson ac yna byddai llongau’r Is-lyngesydd Pierre Villeneuve yn cyfarfod â llynges Sbaen yn y Caribî.

Byddai’r llynges fawr hon wedyn yn croesi’r Iwerydd gan ymuno â llongau Ffrainc yn Brest a rheoli’r sianel. Cyrhaeddodd Villeneuve y Caribî ond wrth hwylio yn ôl ar draws yr Iwerydd cafodd ei erlid gan longau Prydeinig a bu’n rhaid iddo chwilio am loches ym mhorthladd Cadiz. Ar ôl clywed am hyn, gwnaeth Nelson baratoadau i ymuno â llynges Lloegr ger Sbaen, a chyrhaeddodd Cadiz ar 29 Medi yn ei long 104-gwn HMS Victory.

Hwyliodd Villeneuve i gyfeiriad Gibraltar gyda 33 cadlong ac ar 18 Hydref gwelodd fod y Prydeinwyr yn dod ar eu hôl. Ffurfiodd y Ffrancwyr un llinell. Roedd gan Nelson 27 cadlong a 4 ffrigad. Roedd y rhan fwyaf o ymrafael llyngesol ar y pryd yn annherfynol ond roedd Nelson yn benderfynol o ennill. Ei fwriad oedd anghofio am y llinell frwydr a hwylio’n syth at y gelyn mewn dwy golofn, un i’r canol a’r llall i’r cefn a’r Victory yn arwain. Ar ôl torri llinell y gelyn yn y cefn byddai’r rhan fwyaf o’r llongau wedi’u hamgylchynu a’u dinistrio mewn brwydr ‘blith-draphlith’. Roedd peryglon ynghlwm â hyn oherwydd byddai’r gelyn yn saethu at ei longau wrth iddo agosáu. Ar doriad gwawr 1 Hydref, ac yntau i’r gogledd-orllewin o Benrhyn Trafalgar, rhoddodd Nelson orchymyn i baratoi ar gyfer y frwydr gan roi ei gyfarwyddyd enwog: ‘Mae Lloegr yn disgwyl i bob dyn wneud ei ddyletswydd’. Cafodd Nelson ei anafu yn angheuol ond llwyddodd ei lynges i gipio neu ddinistrio 18 o longau’r llynges Ffrengig–Sbaenaidd. Daeth gweithred ddewr Nelson yn symudiad adnabyddus a gafodd ei gopïo gan gomanderiaid llyngesau am nifer o flynyddoedd.


Gan fod y sianel bellach yn ddiogel a llai o debygolrwydd o oresgyniad, roedd **Dug Wellington** bellach yn gallu gwneud cynlluniau i drechu Napoleon ar y tir.

Sicrhaodd Brwydr Trafalgar na fyddai neb yn herio goruchafiaeth Prydain ar y môr am weddill y rhyfel a dyna oedd y sefyllfa am y ganrif nesaf.



Ffynhonell 26: Brwydr Trafalgar, 21 Hydref 1805

## Rôl dociau'r Llynges Frenhinol, Doc Penfro, 1815–1925



Ffynhonell 27: Twr Martello, Doc Penfro

Sefydlwyd tref Doc Penfro yn 1814 pan sefydlwyd Iard Longau'r Llynges Frenhinol. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar unwaith a gyrrwyd y cyn-ffrigad HMS Lapwing ar y tir i'w defnyddio fel llety dros dro. Rhoddwyd gorchymyn i adeiladu llong ryfel 74 gwn a phedwar ffrigad. Fodd bynnag, ar ôl Brwydr Waterloo ym mis Mehefin 1815, roedd y cynllun yn ymddangos yn annoeth gan y byddai'r Llynges Frenhinol yn llai o faint ond penderfynwyd bwrw ymlaen â hyn ar 31 Hydref 1815.

Roedd garsiwn y Môr-Filwyr Brenhinol yn lletya yng nghorff y llong 74 gwn, HMS Dragon, ar ôl iddi fynd yn sownd ar graig yn 1832. Roedd llawer o'r gweithwyr yn teithio ar gychod o gymunedau cyfagos nes i dref Doc Penfro gael ei datblygu.

Dechreuodd y gwaith yn 1844 pan adeiladwyd barics amddiffynnol ac yn 1845 y preswylwyr cyntaf oedd aelodau Adran Portsmouth o'r Môr-filwyr Brenhinol (*Royal Marines*). Rhwng 1849 ac 1857 adeiladwyd dau dŵr carreg Martello ym mhen de-orllewinol a gogledd-orllewinol yr iard longau. Roedd sarsiantau'r fagnelaeth a'u teuluoedd yn lletya yn y tyrau hyn. Yn ystod y cyfnod rhwng Rhyfel Napoleon a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf roedd yr iard ddociau yn dyst i'r holl brif newidiadau yng nghynllun ac adeiladwaith llongau rhyfel, o bren i haearn ac yna dur, ac o longau

hwyliau i longau ager. Adeiladodd adeiladwyr llongau'r dref 263 o longau ar ran y Llynges Frenhinol – gynfadau (*gunboats*), llongau rhyfel a chychod hwylio brenhinol. Mae'r caerau a'r barics a oedd yn amddiffyn yr iard longau ac yn lletya'r garsiwn yn amlwg o hyd.

Y llong olaf i'w lansio o'r iard ddociau oedd y tancer RFA Oleander ar 26 Ebrill 1922. Yn 1925, cyhoeddwyd bod yr Iard Longau Frenhinol yn Noc Penfro bellach yn ddiangen ac y byddai'n cau.

## Rôl y Llynges Frenhinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd

Rôl y Llynges Frenhinol yn y ddau ryfel oedd: amddiffyn llwybrau masnach a rhwystro llongau masnachol yr Almaen; canfod a dinistrio llongau'r gelyn; amddiffyn yr arfordir a gwrthsefyll goresgyniad a chludo milwyr a chyflenwadau i faes y gad.

## Rôl y Llynges Frenhinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf


Ffynhonell 28: HMS Dreandnought a adeiladwyd yn 1906

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif roedd Prydain yn mwynhau statws fel pŵer llyngesol mwyaf y byd. Yn ystod y blynyddoedd cyn i'r rhyfel ddechrau yn 1914, roedd Prydain a'r Almaen wedi bod yn cymryd rhan mewn ras arfau. Daeth y rhyfel i ddynodi math newydd o ryfela ar y môr a fyddai'n rhoi lle blaenllaw i genhedlaeth newydd o longau rhyfel a llongau tanfor. Roedd y ***Dreadnought*** yn enghraifft berffaith o'r llongau newydd hyn a daeth yn symbol o rym llynges Prydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd y Dreadnought yn drobwynt mewn cynllunio i'r llynges ac o hynny ymlaen cyfeiriwyd at longau fel rhai cyn ac ar ôl Dreadnought. Eto i gyd, roedd ei hadeiladwaith yn seiliedig ar egwyddor ganrifoedd oed, sef gwrthdaro ben-ben.

Ar ddechrau'r rhyfel roedd y Llynges Frenhinol yn cynnwys:

- 18 dreadnought (ac yn adeiladu chwech arall)
- 29 llong rhyfel cyn-dreadnought
- 10 cadgriwser

- 20 trefgriwser
- 15 sgowtgriwser
- 200 llong ddistryw
- 150 criwser (a adeiladwyd cyn 1907).

Bu'n rhaid i'r comanderiaid ar y môr addasu'n gyflym i strategaethau newydd, yn union fel y gwnaeth cadfridogion Byddin Prydain. Roedd yn rhaid iddyn nhw feistroli technolegau a fyddai wedi bod y tu hwnt i'r dychymyg rai blynyddoedd yn gynt. Daeth rhyfel ar y môr yn brawf o ddyfeisgarwch yn enwedig gan y byddai'n cael ei ymladd o dan y môr am y tro cyntaf.

Roedd Uwch Reolwyr Prydain yn cydnabod y byddai rheoli Môr y Gogledd yn allweddol. Yn ogystal ag wynebu llynges yr Almaen, byddai angen i'r llynges rwystro cyflenwadau i'r Almaen er mwyn gwanhau'r wlad. Aeth y **Fflyd Fawr** ati i batrolio Môr y Gogledd a gosod ffrwydrynnau i amharu ar longau masnach yr Almaen.

Daeth y bygythiad mwyaf i lynges Prydain ar yr wyneb o longau tanfor yr Almaen, yr **U-Boats** (sef ffurf wedi'i Seisnigo o'r gair Almaeneg *U-Boot*, talfyriad o Unterseeboot). Roedd hi'n anodd dod o hyd i U-Boats gan mai'r perisgop oedd y dull mwyaf effeithiol o ddod o hyd i longau'r gelyn ar adeg pan oedd technoleg sonar yn newydd iawn.

Ar 5 Medi 1914 yr **HMS Pathfinder** oedd y llong gyntaf i'w suddo gan long danfor a oedd yn defnyddio torpido wedi'i baratoi ganddi hi ei hun. Ym mis Chwefror 1915, mewn ymgais i dalu'r pwyth yn ôl am yr ymdrechion i atal llongau masnach yr Almaen, cafodd comanderiaid y llongau tanfor eu gorchymyn i suddo llongau masnach Prydeinig a hyd yn oed llongau niwtral yn ddirybudd, os oedden nhw'n amau eu bod yn cario cyflenwadau. Suddwyd y llong deithio **Lusitania** (Mai 1915) a chollodd 1,198 o bobl eu bywydau gan gynnwys 128 o Americanwyr, mewn ymosodiad a rhoddodd sioc fawr i'r Cynghreiriaid.

Daeth y rhyfel ar y môr yn rhyfel nerfau, heb ei diffinio gan fuddugoliaethau dramatig ac roedd llawer yn gobeithio am fuddugoliaeth fawr fel Trafalgar. **Brwydr Jutland** (31 Mai 1916) oedd yr unig enghraifft o frwydr lawn, uniongyrchol rhwng llynges Prydain a Ffrainc. Roedd canlyniad y frwydr yn amhendant er bod gan Brydain 151 o longau a dim ond 99 oedd gan yr Almaen. Collodd Prydain 3 cadgriwser, 3 chriwser, 8 llong ddistryw ynghyd â 6,100 o ddynion. Collodd yr Almaenwyr 1 llong ryfel, 1 cadgriwser, 4 criwser a 5 llong ddistryw ynghyd â 2,550 o ddynion. Cafodd y frwydr ei hystyried yn fuddugoliaeth i Brydain oherwydd iddi gadw rheolaeth dros Fôr y Gogledd.

Parhaodd llynges Prydain i rwystro masnach a bu'n rhaid i'r wlad ddibynnu ar ei llongau cargo arferol i fewnforio bwyd a defnyddiau crai yn ogystal â chludo milwyr

ac arfau. Ar ôl y rhyfel cyflwynodd y Brenin Siôr V y teitl **Llynges Fasnachol** i gydnabod cyfraniad y llongwyr masnachol.

## Rôl y Llynges Frenhinol yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Ar ddechrau'r rhyfel ym mis Medi 1939 y Llynges Frenhinol oedd y fwyaf yn y byd. Roedd ganddi 1,400 o longau, gan gynnwys:

- 15 llong ryfel a chriwser (ac yn adeiladu pump arall)
- 7 llong awyrennau
- 66 criwser
- 184 llong ddistryw
- 60 llong danfor
- 45 cerbyd gosgordd a phatrôl.

Byddai'r Llynges Frenhinol yn cymryd cyfrifoldeb dros Fôr y Gogledd a'r Iwerydd a byddai llu Prydeinig–Ffrengig yn amddiffyn Môr y Canoldir ar y cyd.

**Brwydr River Plate** (13 Rhagfyr 1939) oedd brwydr fawr gyntaf y rhyfel ar y môr a'r frwydr gyntaf ar yr Iwerydd. Dioddefodd y Llynges Frenhinol lawer o golledion ond roedd datgomisiynu'r llong fawr Almaenig Graf Spee yn fuddugoliaeth bwysig o safbwynt propaganda.

Chwaraeodd y llynges ran hanfodol wrth gysgodi milwyr a oedd yn dianc o draethau Dunkirk ym misoedd Mai a Mehefin 1940 ac yn ystod yr enciliad o Creta ym mis Mai 1941. Ym **Mrwydr Taranto** ar 11 Tachwedd 1940 cynhaliodd y Llynges Frenhinol yr ymosodiad llwyddiannus cyntaf yn y byd o long awyrennau. Roedd yr ymosodiad ar longau'r Eidal yn hollbwysig er mwyn amddiffyn llwybrau cyflenwi Prydain ym Môr y Canoldir. Llwyddodd yr ymosodiad i ddinistrio dros hanner llynges yr Eidal ac roedd yn arwyddocaol gan ei fod yn nodi dechrau goruchafiaeth awyrennau'r llynges dros ynnau mawr y llongau rhyfel. Roedd y llong awyrennau yn mynd i fod yn brif long newydd rhyfela ar y môr.

Cafodd y Llynges Frenhinol golledion hefyd, fel y llong awyrennau **Ark Royal** (13 Tachwedd 1941) a **HMS Hood** (24 Mai 1941) a suddwyd gan long ryfel yr Almaen, y **Bismark**, er i hon gael ei suddo ei hun rai dyddiau'n ddiweddarach. Ym mis Rhagfyr 1941 suddwyd **HMS Repulse** a **HMS Prince of Wales** mewn ymosodiadau awyr gan y Japaneaid.

O 1942 ymlaen daeth y Llynges Frenhinol yn gyfrifol am amddiffyn cymdeithiau ar draws yr Iwerydd. Roedd yr angen i wrthsefyll bygythiad gan longau tanfor yr

Almaen yn ganolog i hyn.

Ym mis Mai 1941 daeth yr Almaen â llynges o 134 llong danfor at ei gilydd, y nifer mwyaf erioed. Roedd Prydain wedi gwneud sawl cam mawr ym maes awyrennau ac arfau. Roedd **Rheolaeth Arfordirol y Llu Awyr Brenhinol** (*RAF Coastal Command*) wedi ychwanegu awyrennau bomio **B-24 Liberator** a oedd yn gallu saethu dros bellter at ei llu o longau hedegog *Sunderland* a *Catalina*. Roedd y Liberator yn cario arf newydd y ffrwydryn Marc 24, sef math o dorpido â dyfais ddychwel a oedd yn targedu sŵn propelor llongau tanfor yr Almaen. Roedd unedau cudd-wybodaeth wedi datrys codau'r llongau tanfor ac wedi cyflwyno radar centi-metrig ac offer canfod radio. Cafodd y cyfuniad o rym yn yr awyr ac ar y môr ganlyniadau dramatig gan nodi trobwynt ym Mrwydr yr Iwerydd yn benodol, ac mewn rhyfela llyngesol yn gyffredinol.

Roedd goruchafiaeth lyngesol hefyd yn hollbwysig i'r ymgyrchoedd amffibiaidd yng ngogledd orllewin Affrica, yr Eidal ac yn enwedig yn ystod glaniadau Normandi ym mis Mehefin 1944. Roedd 4,300 o longau yn llynges y Cynghreiriaid a groesodd y Sianel. Rhannwyd y llynges yn ddwy ac roedd pob llu yn cynnwys cannoedd o longau milwyr, llongau cynorthwyol a llongau gosgordd ynghyd â sgwadron bomio llyngesol a oedd yn cynnwys rhwng 15 a 20 llong ryfel. Yn ystod y glaniadau taniodd y llynges at y gelyn yn barhaus.

Erbyn diwedd y rhyfel collodd llynges Prydain ei statws o safbwynt llongau rhyfel wrth i lynges yr Unol Daleithiau dyfu'n llawer mwy na'r Llynges Frenhinol.

## Swyddogaeth y Llynges Frenhinol yn yr unfed ganrif ar hugain

- **Amddiffyn yr economi**: mae amddiffyn masnach forol yn hollbwysig gan fod 95% o weithgaredd economaidd Prydain yn dibynnu ar y môr ac mae'r rhan fwyaf o fasnach yn pasio drwy lond llaw o fannau cyfyng yn y byd. Mae'r Llynges Frenhinol yn cadw llygad barcud ar ardaloedd sy'n allweddol i economi'r wlad.
- **Darparu cymorth dyngarol**: gall trychinebau naturiol neu rai o waith dyn barlysu seilwaith gwlad a pheryglu bywydau pobl fregus. Mae gan y Llynges Frenhinol longau cyflenwi logistaidd arbenigol a gall anfon arbenigedd i wledydd sydd yn dioddef e.e. Sri Lanka, Pilipinas a Haiti.
- Mae gan Brydain ddyletswydd hefyd i amddiffyn tiriogaethau dibynnol.Yn ystod argyfwng Libya ac argyfwng Lebanon yn 2011 llwyddodd y Llynges Frenhinol i gludo dinasyddion a oedd ar ffo ac yn ystod digwyddiad lludw folcanig Gwlad yr Iâ (2010) cludodd 200,000 o Brydeinwyr adref.
- **Atal gwrthdaro**: mae presenoldeb y Llynges Frenhinol ar lwyfan y byd yn

anfon neges bwerus bod Prydain yn ymroddedig i faterion byd er mwyn atal gwrthdaro e.e. Rhyfel y Gwlff ac yng Ngorllewin Affrica. Fel aelod o NATO a'r Cenhedloedd Unedig mae'n rhaid i Brydain fod 'ar alw' ac yn barod i amddiffyn ei chynghreiriau a buddiannau.

## Rôl menywod yn ystod rhyfel

Mae camdybiaeth gyffredin mai dynion yn unig sydd wedi ymladd mewn rhyfeloedd ar hyd yr oesoedd. Mae'r syniad bod menywod wedi'u heithrio rhag ymladd yn seiliedig ar y rhagdybiaethau sy'n dilyn:

- bod menywod yn wannach yn gorfforol na dynion ac felly yn llai abl i gario cleddyf a mysged neu lwytho sieliau am gyfnodau hir
- bod menywod yn wahanol yn seicolegol i ddynion a dydy'r natur ymosodol sydd ei hangen ar gyfer ymladd ddim ganddyn nhw
- bod menywod yn draddodiadol yn llai parod i gymryd risgiau ac aberthu eu bywydau wrth ymladd.


Ffynhonell 29: Milwyr a dilynwyr gwersyll Saeson yn gorffwys, 1739

Fodd bynnag, mae ymchwil hanesyddol wedi dangos bod traddodiad hir o fenywod yn gwasanaethu eu gwlad trwy ymladd arfog a dydy eu cyfraniad nhw ddim wedi bod yn gyfyngedig bob amser i nyrsio a gwaith cynorthwyol a gweinyddol.

## Sut mae rôl menywod mewn rhyfela wedi newid gydag amser?

### Rôl menywod mewn brwydrau yn yr Oesoedd Canol

Yn y cyfnod cynnar roedd menywod yn dod i gysylltiad â rhyfeloedd oherwydd etifeddiaeth, swydd neu ffydd. Mae cyfeiriadau mewn ffynonellau llenyddol at fenywod oedd ag awdurdod milwrol ynghyd â'u gwŷr ac a oedd yn cymryd yr awenau ar ôl i'w gwŷr farw. Daeth menywod eraill yn gysylltiedig â materion rhyfela oherwydd eu swyddi. Ar ddiwedd y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg cafodd rhai menywod eu penodi'n siryf ar farwolaeth eu gwŷr gan gyfuno

cyfrifoldebau gweinyddol a dyletswyddau milwrol. Chwaraeodd y Dduges Nicola de la Haye, Siryf Lincoln, ran bwysig yng ngwarchae Lincoln yn 1217 yn dilyn **Rhyfel Cyntaf y Barwn**.

Aeth rhai menywod i ryfel oherwydd defosiwn a ffydd. Dengys cofnodion bod menywod wedi mynd gyda'i gwŷr yn ystod y croesgadau. Roedd menywod cyfoethog yn trefnu eu cyrchoedd eu hunain, yn llogi dynion i ymladd ac yn cyfrannu at y gwaith o adeiladu amddiffynfeydd.

Roedd menywod oedd ddim yn aelodau o'r teuluoedd bonheddig yn cynnig pob math o wasanaethau gwahanol fel cario dŵr i faes y gad, gwneud saethau a llinynnau bwa, taflu teflynnau at y gelyn a chynnig cymorth meddygol.

Does dim llawer o dystiolaeth i ddangos a ymladdodd menywod ochr yn ochr â dynion ar faes y gad ai peidio. Nid yw awduron Cristnogol yn cyfeirio llawer at fenywod yn ymladd ond mae ffynonellau Mwslimaidd yn cyfeirio atyn nhw mewn ymgais i bwysleisio barbariaeth y Cristnogion.

Mae cyfeiriadau eraill at fenywod mewn brwydrau yn cynnwys:

- Ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg arweiniodd Eva MacMurrough frwydrau ar ran ei gŵr Iarll Penfro.
- Yn 1461 llwyddodd Margaret o Anjou (gwraig y Brenin Harri VI) i drechu Iarll Warwick yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau ond cafodd ei threchu yn ddiweddarach ym mrwydr Tewkesbury.

## Menywod a'r rôl oedd ganddyn nhw ym myddinoedd Prydain 1500–1815: nyrsio, cefnogaeth, puteindra

Roedd menywod yn cyflawni dyletswyddau milwrol yn y cyfnod modern cynnar. Maen nhw i'w gweld mewn darluniau cyfoes yn gorymdeithio ar ymgyrchoedd milwrol yn cario poteli dŵr ac mae eraill yn cario gwayw-fwyeill a gynnau llaw. Mae cofnodion yn dangos bod menywod ddim yn gwrthwynebu defnyddio arfau o'r fath wrth ymladd.

Pan fyddai eu gwŷr i ffwrdd yn y rhyfel byddai disgwyl i fenywod amddiffyn eu cartrefi. Yn 1643 yn ystod y Rhyfel Cartref, fe wnaeth Blanche, Arglwyddes Arundel, amddiffyn Castell Wardour yn erbyn 1,300 o filwyr y Seneddwyr yn ystod cyrch wythnos o hyd. Roedd ei morwynion yn cario bwledi a phowdr at y dynion yn eu safleoedd. Fe wnaeth yr Arglwyddes Mary Bankes amddiffyn Castell Corfe yn ystod gwarchae chwe wythnos o hyd yn 1643 trwy ollwng cerrig a chols poeth ar y milwyr a oedd yn ceisio dringo'r waliau. Llwyddodd Joane Purefoy a theulu Neuadd Caldecote i gadw'r Tywysog Rupert a byddin y Brenhinwyr draw am saith awr gyda

dim ond dwsin o fysgedau yn arfau.

Ymladdodd rhai menywod ar faes y gad. Yn 1639 arweiniodd yr Arglwyddes Ann Cunningham, Ardalyddes Hamilton, fyddin o wŷr meirch a oedd yn cynnwys dynion a menywod ym Mrwydr Berwick. Roedd corporal y Brenhinwyr a gipiwyd ger Nottingham yn fenyw. Dywedir bod byddin o'r Alban a orymdeithiodd i Newcastle yn 1644 yn cynnwys menywod a oedd yn ymladd fel milwyr parhaol ochr yn ochr â dynion.

Fyddai byddinoedd y cyfnod ddim wedi gallu gweithredu heb ddilynwyr gwersylloedd a oedd yn cynnwys llawer o fenywod. Roedd dau fath o ddilynwyr gwersylloedd – gwragedd (a phlant) milwyr, a'r rhai a oedd yn darparu gwasanaethau fel cario offer, coginio, chwilio am fwyd, golchi a thrwsio dillad, gofalu am bobl sâl a'r rhai a oedd wedi'u hanafu, ynghyd â 'gwasanaethau eraill'. Siaradodd rhai o arweinwyr y fyddin yn erbyn presenoldeb menywod yn y gwersylloedd, ond ar adeg pan doedd dim ysbytai maes, doedd dim llawer o ddewis ganddyn nhw.

Os oedd milwr wedi priodi neu os oedd yn priodi pan oedd wedi ymrestru, roedd ei wraig yn eiddo i'r gatrawd yn swyddogol ac felly roedd wedi'i chynnwys ar restr o gryfderau'r gatrawd. Roedd hyn yn golygu bod y gwragedd yn cael dognau ac, fel rhan o ddisgyblaeth y fyddin, y gellid eu chwipio am gamymddwyn.

Daeth menywod a oedd yn mynd ar ymgyrchoedd milwrol yn adnabyddus am ddwyn oddi ar gyrff y gelyn ar ôl brwydr yn ogystal â 'gwaredu' pobl a anafwyd drwy dorri eu gyddfau â llafn bach.

Roedd swyddogion yn llai tebygol o fynd â'u gwragedd ar ymgyrchoedd ond teithiodd rhai gwragedd dramor i ymuno â'u gwŷr. Roedd y rhan fwyaf o swyddogion yn credu nad oedd y fyddin yn lle addas i fenyw.

Roedd 'Leaguer Ladies' neu buteiniaid fel arfer yn fenywod lleol tlawd a oedd yn cynnig eu gwasanaethau i filwyr yn y gobaith y bydden nhw'n eu priodi. Roedd swyddogion milwrol yn troi llygad ddall i'r broblem gan gredu ei bod yn lleihau nifer y milwyr a oedd yn gadael y fyddin. Roedd gwragedd gweddw'r swyddogion yn priodi'n gyflym bron iawn fel ffordd o oroesi ac weithiau bydden nhw'n priodi un milwr ar ôl y llall. Roedd yn rhaid gofyn am ganiatâd cyrnol y gatrawd i briodi a dim ond milwyr a fyddai'n ymddwyn yn dda fyddai'n cael priodi.

Roedd gwragedd cydnabyddedig (gwragedd a oedd heb briodi'r milwyr) yn aml yn cael eu gadael gan y milwyr ar ddiwedd ymgyrch.

Roedd menywod yn cario arfau a chyflenwadau ar faes y gad ac yn amddiffyn troliau bagiau rhag ysbeilwyr y gelyn. Weithiau, byddai menywod yn llwyddo i newid eu gwedd ac esgus eu bod yn ddynion gan ymuno â'r fyddin fel drymwyr a daeth rhai i

gario arfau ac ymladd mewn brwydrau.

- Mae The Gallant She-Soldier yn faled o ganol yr ail ganrif ar bymtheg sy’n disgrifio menyw a oedd yn ymladd o’r enw Preifat Clarke. Gwasanaethodd yn yr un gatrawd â’i gŵr am naw mlynedd nes i enedigaeth plentyn ddatgelu ei bod yn fenyw.
- Ymladdodd ‘Robert Cornelius’ gyda Byddin Prydain ym mrwydr Namur 1695 a darganfu llawfeddyg a oedd yn trin ei chlwyfau mai menyw oedd hi mewn gwirionedd.
- Ymunodd Phoebe Hessel â 5ed Catrawd y Troedfilwyr yn y 1740au i wasanaethu gyda’i chariad a daeth ei chyfrinach i’r amlwg pan dynnwyd ei dillad at ei chanol cyn iddi gael ei chwipio.
- Daeth Daniel Defoe yn groniclydd menyw-filwr a gafodd y llys-enw ‘Mother Ross’ a wirfoddolodd fel troedfilwr o dan yr enw ‘Christopher Welsh’ yn 1693. Ymladdodd ym Mrwydr Laden yn y Rhyfel Naw Mlynedd lle cafodd ei hanafu. Ar ôl iddi gael ei rhyddhau, ailymunodd â’r fyddin ond datgelwyd yn ddiweddarach ei bod yn fenyw.
- Ganwyd Mary Anne Talbot yn ferch anghyfreithlon a chafodd ei gwerthu gan ei gwarcheidwad i swyddog yn y fyddin a aeth ati i esgus ei bod yn ddrymiwr ifanc. Aeth ymlaen i wasanaethu ar y llong HMS Brunswick yn ystod Rhyfeloedd Napoleon gan wasanaethu hefyd fel swyddog iau ar long fasnach.

Doedd hi ddim yn anodd cuddio’r ffaith eich bod yn fenyw. Doedd dim archwiliadau meddygol yn cael eu cynnal mewn gwirionedd wrth ymrestru ac oherwydd safonau hylendid gwael doedd milwyr ddim yn tynnu eu dillad i ymolchi yn aml.

## Rôl menywod fel nyrsys a nyrsys cynorthwyol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

Hyd at ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, doedd dim angen hyfforddi i fod yn nyrs ac nid oedd llawer o barch i’r proffesiwn.

> *‘Cafodd nyrsio ei adael i’r rheini a oedd yn rhy hen, yn rhy wan, yn rhy feddw, yn rhy fudr, yn rhy ddwl neu’n rhy wael i wneud dim byd arall’. - Florence Nightingale*

Roedd **Florence Nightingale** (1820–1910) yn ferch i deulu cyfoethog o Loegr ond aeth yn groes i gonfensiwn yr oes ac ymunodd â rhaglen hyfforddiant tri mis i astudio sut i ofalu am afiechydon a’u trin. Ar ôl gorffen astudio ymunodd â mudiad

o'r enw *The establishment for gentlewomen during illness* ac roedd ar fin dechrau rhaglen hyfforddiant pan ddechreuodd **Rhyfel y Crimea**. Cafodd ei gwahodd i arwain y staff nyrsio ym marics myddin Scutari yn Istanbul. Aeth ati ar unwaith i benodi nyrsys a nyrsys cynorthwyol gan fynd yn erbyn y farn ar y pryd nad oedd milwyr cyffredin yn haeddu cael sylw a gofal meddygol cywir. Ar ôl codi arian drwy'r *London Times* llwyddodd i ddarparu cyflenwadau meddygol ar gyfer y milwyr anafedig. Fe wnaeth Nightingale a'i nyrsys wella'r amodau afiach gan lwyddo i ostwng y gyfradd farwolaethau o draean (dwy ran o dair). Bu farw dros 18,000 yn y rhyfel ond dim ond 2,000 o'r rhain a gafodd eu lladd ar faes y gad. Bu'r mwyafrif farw o afiechyd mewn ysbyty. Cafodd y teitl 'Gwraig y Lamp' oherwydd y ddelwedd boblogaidd ohoni yn mynd o amgylch y wardiau i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn. Ei chyflawniad pennaf oedd codi statws nyrsio yn alwedigaeth barchus.



Ffynhonell 30:
Florence Nightingale

Ganwyd **Mary Seacole (1805–81)** yn Jamaica yn ferch i wraig o Jamaica a milwr gyrfa o'r Alban. Er na chafodd ei hyfforddi fel nyrs dysgodd lawer gan ei mam a gweithiodd gyda phobl a oedd yn dioddef o golera a'r dwymyn felen. Pan glywodd am y sefyllfa yn y Crimea gofynnodd am ganiatâd gan Lywodraeth Prydain i fynd yno fel nyrs ond gwrthodwyd ei chais oherwydd ei hethnigrwydd. Felly roedd yn rhaid iddi dalu ei chostau teithio ei hun. Ar ôl cyrraedd Caer Gystennin (yr hen enw ar Istanbul) yn 1855, gwirfoddolodd i weithio fel un o nyrsys Nightingale ond cafodd ei gwrthod. Helpodd i sefydlu'r 'Gwesty Prydeinig' yn Balaclafa ar ei chost ei hun fel lle i wella swyddogion. Roedd yr ysbyty ger y ffrynt a byddai'n aml yn mentro i faes y gad i drin milwyr a oedd wedi'u hanafu. Gweithiodd hefyd fel gwerthwr nwyddau i filwyr a bu hyd yn oed yn darparu bwyd a diod i bobl a ddaeth i wylio'r brwydrau.

Ganwyd **Janet Wells (y Chwaer Janet)** (1859–1911) yn Llundain yn 1859 ac yn 17 oed, ymunodd â'r *Evangelical protestant deaconesses institute of training hospitals* fel nyrs dan hyfforddiant gan dreulio amser hefyd yn gwneud gwaith elusennol yn slymiau Llundain. Ar ôl cymhwyso cafodd ei hanfon i'r Balcanau i helpu timau meddygol byddin Rwsia yn ystod **Rhyfel Rwsia–Twrci** 1877–78. Yno helpodd i drin miloedd o filwyr ag anafiadau difrifol, yn aml ag adnoddau sylfaenol. Pan ddaeth yn ôl i Loegr cafodd ei hanfon i Dde Affrica i gymryd swydd feddygol Brydeinig yn Utrecht yng Ngwlad y Zwlw. Bu'n trin milwyr clwyfedig yn ystod rhyfeloedd ffyrnig y Zwlw, yn benodol yn **Rorke's Drift** a bu hefyd yn gofalu am **Frenin Cetshwayo y Zwlw** a gafodd ei garcharu gan y Prydeinwyr.

Janet Wells a Florence Nightingale oedd y cyntaf i gael y Groes Goch Frenhinol a gafodd ei chyflwyno am eu hymroddiad i nyrsio milwyr o Brydain.

## Betsi Cadwaladr (1789–1860) – 'o'r Bala i Balaclafa'

Ganwyd Betsi Cadwaladr yn Llanycil ger y Bala yn 1789. Fel plentyn, roedd yn gweithio fel morwyn a phan oedd yn 14 oed daeth yn forwyn i deulu yn Lerpwl. Symudodd i Lundain a gweithiodd fel morwyn gan deithio'n aml gyda'i chyflogwyr. Credir iddi weld canlyniadau Brwydr Waterloo a chael ei heffeithio'n fawr gan y milwyr clwyfedig. Pan oedd yn ei 30au daeth yn forwyn i gapten llong a chafodd gyfle i weld mwy o'r byd gan dreulio amser yn Ne America, Affrica ac Awstralia. Er ei bod heb gael unrhyw hyfforddiant ffurfiol fel nyrs, byddai Betsi Cadwaladr yn aml yn gofalu am bobl sâl pan oedd ar fwrdd y llong. Cafodd ei heffeithio'n fawr gan erthygl yn The Times a oedd yn sôn yn fanwl am yr amodau a wynebai'r milwyr a anafwyd ym Mrwydr Alma yn ystod **Rhyfel y Crimea**. Penderfynodd hyfforddi fel nyrs yn Llundain, ac yn ddiweddarach ymunodd â'r gwasanaeth nyrsio milwrol.



Ffynhonell 31: Betsi Cadwaladr

Cafodd ei hanfon i'r ysbyty a oedd dan ofal Florence Nightingale yn **Scutari** yn Nhwrci ac o'r dechrau doedd y ddwy nyrs ddim yn cyd-dynnu'n dda. Roedd Florence Nightingale yn credu mewn rheolau a rheoliadau llym, ond roedd yn well gan Betsi ofalu am bobl sâl mewn ffordd fwy greddfol. Symudodd i **Balaclafa** lle byddai'n gweithio am ugain awr y dydd gan wneud gwelliannau enfawr i'r ysbyty. Cafodd ei gwaith argraff ar Florence Nightingale hyd yn oed. Bu'n rhaid i Betsi Cadwaladr ddychwelyd i Lundain yn 1855 ar ôl iddi ddal colera, ac roedd hefyd yn dioddef o ddysentri. Bu farw yn 1860.

## Menywod a'u rôl ar y Ffryntiau Cartref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd

### Y Rhyfel Byd Cyntaf

Roedd y cysyniad o'r rhyfel diarbed yn golygu bod pawb a phopeth yn cael eu cyfeirio at ymdrech y rhyfel. Byddai hyn yn cynnwys menywod mewn llawer o rolau pwysig. O'r ddau ryfel, gellid dadlau mai'r Rhyfel Byd Cyntaf oedd yn cynnig yr her fwyaf i ferched ar y Ffrynt Cartref. Rhwng 1914–18 cymerodd tua dwy filiwn o ferched swyddi dynion.

Cafodd y rhan fwyaf o'r menywod eu cyflogi yn y gweithlu sifil i gymryd lle dynion a oedd wedi gwirfoddoli a chael eu consgriptio. Fe gymeron nhw eu swyddi mewn

diwydiannau lle'r oedd dynion yn gweithio fel arfer a hefyd fe fuon nhw'n gweithio ochr yn ochr â dynion mewn gwaith neilltuedig ac mewn pyllau glo. Gweithiodd bron i un filiwn o fenywod fel 'munitionettes' mewn ffatrïoedd arfau lle'r oedd yr amodau yn beryglus iawn gan fod y gwaith yn golygu trin sylweddau gwenwynig ac ansefydlog. Erbyn mis Mehefin 1917, menywod oedd yn cynhyrchu 80% o'r arfau a ddefnyddid gan Fyddin Prydain. Menywod oedd cyfran fawr o'r gweithwyr mewn ffatrïoedd ffrwydron fel Queensferry yn Sir y Fflint a Phembre yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd merched a oedd yn gweithio â T.N.T. y llysenw 'caneris' gan fod eu gwallt a'u croen yn troi'n felyn. Yn Queensferry yn 1917 a 1918 cofnodwyd 3,813 achos o losgiadau asid, 2,128 anaf i lygaid, 763 achos o dermatitis diwydiannol, a 12,778 damwain.

Roedd angen menywod i wneud gwaith amaethyddol hanfodol hefyd a gwirfoddolodd 260,000 fel gweithwyr fferm am gyflog isel yn aml iawn. Ymunodd tua 23,000 â **Byddin Tir y Menywod** (*WLA: Women's Land Army*) a sefydlwyd ym mis Chwefror 1917.

Ar y ffrynt milwrol, er doedd nyrsio milwrol ddim yn newydd, roedd angen ehangu'r maes ar raddfa enfawr. Gwasanaethodd menywod fel nyrsys gyda Gwasanaeth Nyrsio Ymerodrol y Frenhines Alexandra (*QUAINS: Queen Alexander Imperial Nursing Service*); Iwmoniaeth Nyrsio Cymorth Cyntaf (*FANY: First Aid Nursing Yeomanry*); Didoliad Cymorth Gwirfoddol (*VAD: Voluntary Aid Detachment*) ynghyd â llawer o ganghennau o'r Groes Goch. Roedd 5 ysbyty milwrol a 113 ysbyty cynorthwyol yng Nghymru yn ystod y rhyfel.

Roedd **Corfflu Cynorthwyol Menywod y Fyddin** (*WAAC: Women's Army Auxiliary Corps*), a sefydlwyd yn 1917, yn cynnig cymorth mwy uniongyrchol i filwyr. Gwasanaethodd menywod fel gyrwyr, clercod, teleffonwyr ac arlwywyr gyda'r corfflu hwn.

Unodd y **Corfflu Hedfan Brenhinol** (*The Royal Flying Corps*) a'r **Gwasanaethau Llynges Awyr Brenhinol** (*Royal Naval Air Services*) ym mis Mai 1918 i ffurfio'r **Llu Awyr Brenhinol** (*Royal Air Force*) a sefydlwyd cangen i fenywod, sef **Llu Awyr Brenhinol y Menywod** (*WRAF: Women's Royal Air Force*). Gwasanaethodd tua 100,000 o fenywod yn y gwasanaethau â lifrai yn ystod 1914–18 ac roedd dros eu hanner yn gysylltiedig â nyrsio. Prin iawn oedd y rhai a aeth yn agos at faes y gad.

Chwaraeodd menywod ran hefyd ym mhropaganda'r cyfnod. Roedd posteri a ffilmiau yn portreadu milwyr fel amddiffynwyr menywod, plant a'r wlad. Roedd menywod hefyd yn cymryd rhan mewn gwaith recriwtio ac yn amlwg yn yr ymgyrch 'pluen wen' a drefnwyd i roi pwysau ar ddynion i ymrestru.

Roedd menywod hefyd yn cymryd rhan mewn cynlluniau gwirfoddol.

Gwirfoddolodd y chwiorydd Gwendoline a Margaret Davies i weithio gyda Chroes Goch Ffrainc, a oedd yn rhedeg cabanau bwyd mewn gorsafoedd rheilffordd, ysbytai ymadfer a gwersylloedd tramwy. Fel yr holl wirfoddolwyr, roedden nhw'n cynnal eu hunain ac yn talu â'u harian eu hunain am goffi, byrbrydau a sigaréts i'w rhoi i'r milwyr.

Roedd merched hefyd yn weithgar mewn mudiadau gwrth-ryfel. Un mudiad a ffurfiwyd mewn ymateb i'r rhyfel oedd **Sefydliad y Merched** (*WI: Women's Institute*). Yng Nghymru y sefydlwyd y gangen gyntaf ym Mhrydain – yn Llanfair-pwll, Ynys Môn yn 1915.

Roedd llawer o ferched yng Ngogledd Cymru yn weithgar yn yr ymgyrchoedd dros heddwch a diarfogi ar ddiwedd y 1920au a dechrau'r 1930au. Gorymdeithiodd rhai merched ar draws y wlad fel rhan o **Bererindod yr Heddychwyr** 1926 a chasglodd merched ddegau ar filoedd o lofnodion ar gyfer Datganiad Diarfogi'r Cenhedloedd Unedig. Ym Mhen-y-groes yn Sir Gaernarfon, 27 Mai 1926, ymgasglodd dwy fil o ferched o sawl pentref yn y mynyddoedd o amgylch y dref honno, a nifer ohonyn nhw'n cario baner las heddwch. Dyma ddechrau eu cysylltiad â'r Bererindod Heddwch a fyddai'n cyrraedd uchafbwynt yn hwyrach y flwyddyn honno, mewn gwrthdystiad enfawr yn Hyde Park, Llundain. Roedd 28 o bererinion Gogledd Cymru ymhlith y dorf o 10,000 yng ngwrthdystiad Hyde Park. Dwy o'r siaradwyr oedd Mrs Gwladys Thomas a Mrs Silyn Roberts a siaradodd yn Gymraeg. Yn ddiweddarach daeth y ddwy yn ysgrifenyddion Cyngor Heddwch Merched Gogledd Cymru.

## Yr Ail Ryfel Byd

Yn 1939 roedd angen tebyg am fenywod i helpu gydag ymdrech y rhyfel. Yn ystod y gwanwyn 1941 roedd yn rhaid i holl fenywod Prydain rhwng 18 a 60 oed gofrestru eu dyletswyddau teuluol. Ar ôl cael cyfweliad roedd yn rhaid iddyn nhw ddewis o wahanol swyddi ond esboniwyd na fyddai unrhyw swyddi ymladd uniongyrchol. Roedd galw enfawr am fenywod i weithio yn y ffatrïoedd arfau newydd, fel y ffatrïoedd yn Hirwaun, Glasgoed, Pen-y-bont ar Ogwr a Phen-bre. Yn 1943 roedd 55% o weithwyr rhyfel Cymru yn fenywod, y ganran fwyaf ym Mhrydain.

Roedd **Deddf Gwasanaeth Cenedlaethol** Rhagfyr 1941 yn ei gwneud yn gyfreithiol i gonsgriptio menywod. Ar y dechrau galwyd menywod dibriod rhwng 20 a 30 oed ond erbyn canol 1943 roedd bron i 90% o fenywod sengl ac 80% o fenywod priod yn cael eu cyflogi fel gyrwyr trên ac mewn rolau amddiffyn sifil fel wardeiniaid cyrchoedd awyr.

Gwasanaethodd dros 640,000 o fenywod yn y lluoedd arfog gan gynnwys **Gwasanaethau Llynges y Menywod** (*WRNS: Women's' Naval Services*) a'r

**Llu Awyr Tiriogaethol** (*ATF: Air Territorial Force*). Hyfforddodd y Frenhines, y Dywysoges Elizabeth ar y pryd, fel gyrrwr a mecanig gan godi i swydd cadlywydd iau (*junior comander*). Gwasanaethodd Mary Churchill, merch y Prif Weinidog, yn yr ATS.

Yn yr ardaloedd gwledig gweithiodd 80,000 o 'Ferched y Tir' ym Myddin y Tir. Yn y trefi a'r dinasoedd roedd **Gwasanaeth Gwirfoddol y Menywod** (*WVS: Women's Voluntary Service*) yn cynnig cymorth i bobl a oedd wedi dioddef oherwydd cyrchoedd awyr ac i'r rheini a oedd yn cuddio yng ngorsafoedd y trenau tanddaearol.

Recriwtiodd Churchill 55 asiant benywaidd fel rhan o'r **Gweithgor Ymgyrchoedd Arbennig** (*SOE: Special Operations Executive*). Cafodd y rhain eu gollwng y tu ôl i linellau'r gelyn i helpu ymladdwyr y mudiad gwrthwynebu i wneud gwaith ysbïo, difrodi a rhagchwilio yn y rhannau o Ewrop a oedd yn nwylo'r Almaen. O'r 55 asiant, lladdwyd 13 ar faes y gad neu fe fuon nhw farw yng ngwersylloedd crynhoi'r Natsïaid. Sefydlwyd y **Cynorthwywyr Hyfforddiant Awyr** (*ATA: Air Training Auxiliary*) yn 1938 i symud awyrennau rhwng y ffatrïoedd a'r ffrynt. Dechreuodd y sefydliad recriwtio menywod a oedd yn cael eu galw yn *Attagirls*, ac erbyn diwedd y rhyfel, o'r 650 o beilotiaid, roedd 168 yn fenywod, a lladdwyd 15 o'r rhain. Roedd menywod eraill yn gyrru cychod a badau a oedd yn cludo gynnau trwm ar ddyfrffyrdd mewndirol.

## Menywod yn flaenllaw yn yr ugeinfed ganrif fel milwyr a meddygon

*'Daw Byddin Prydain i gynrychioli cymdeithas yn well, ond hefyd yn fwy effeithiol wrth weithredu. Nid dynion yn unig sy'n ymladd rhyfeloedd, ac nid dynion yn unig sy'n cael eu heffeithio ganddyn nhw. Mae maes y gad eisoes wedi symud o ffryntiau anghysbell rhyfela'r ugeinfed ganrif i amgylchedd mwy dinesig ac mae'r gymdeithas gyfan yn effeithio arno, nid dim ond aelodau o'r lluoedd arfog. Mae ar y lluoedd arfog angen menywod ym mhob rôl filwrol i ddeall digwyddiadau ar faes y gad a thu hwnt a dylanwadu arnyn nhw. Nid dim ond mater o degwch yw hyn, ond mater o ennill'.-*
*– Hannah Bryce o'r Sefydliad Brenhinol Materion Rhyngwladol yn siarad ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl i'r Prif Weinidog David Cameron gyhoeddi ei fod yn codi'r gwaharddiad ar fenywod yn gwasanaethu mewn unedau ymladd wyneb yn wyneb ym Myddin Prydain.*

Cyn hyn, roedd menywod wedi gwasanaethu mewn rolau cymorth ar flaen y gad yn ystod brwydrau ond bellach byddan nhw'n gallu ymuno â'r gwŷr meirch, y gwŷr traed a'r corffluoedd arfog.

Adeg y cyhoeddiad, mynegodd rhai uwch swyddogion eu hofnau y gallai codi gwaharddiad a oedd wedi bodoli ers canrifoedd arwain at ostwng safonau yn y lluoedd arfog. Rhybuddiodd y Cyrnol Richard Kemp, cyn-gadlywydd lluoedd Prydain yn Afghanistan y byddai ymladdwyr benywaidd yn niweidiol i 'ethos y rhyfelwr' ac yn effeithio ar allu milwyr gwrywaidd i ymladd.

## Flora Sandes (1876-1956)

Roedd Flora Sandes yn nyrs o Brydain a wirfoddolodd gyda gwasanaeth ambiwlans Serbia ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Pan orfodwyd byddin Serbia i encilio ym mis Tachwedd 1915, ymrestrodd yn y fyddin (Serbia oedd un o'r ychydig wledydd a oedd yn derbyn menywod). Roedd ei chyd-filwyr yn ei galw yn 'frawd' a chafodd ei derbyn fel 'dyn anrhydeddus'. Flwyddyn yn ddiweddarach, cafodd ei dyrchafu yn uwch-ringyll ac fe'i hanafwyd gan grenâd y gelyn yn ystod ymladd â dyrnau ac ar ôl hyn aeth yn ôl i nyrsio. Ar ddiwedd y rhyfel arhosodd ym myddin Serbia gan gyrraedd swydd capten yn y pen draw. Dyfarnwyd Seren y Brenin Siôr iddi, anrhydedd uchaf Serbia. Roedd yn byw yn Iwgoslafia ac yn 1941, pan oresgynnodd yr Almaenwyr  y wlad, aeth yn syth i ymladd a hithau'n 65 oed. Cafodd ei dal a'i charcharu gan y Gestapo. Dychwelodd i Brydain ar ôl y rhyfel lle bu farw yn 1956. Yn ôl awdur ei chofiant, Louise Millar, fe wnaeth hi 'helpu i newid y canfyddiad am yr hyn y gallai menywod ei wneud. Roedd hi'n arwres. Gwthiodd y ffiniau'.



Ffynhonell 32: Flora Sandes yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf

## Dorothy Lawrence (1896-1964)

Pan ddechreuodd y rhyfel yn 1914 roedd Dorothy Lawrence yn gweithio fel newyddiadurwr ac ymgeisiodd i fod yn ohebydd rhyfel ar flaen y gad ond cafodd ei gwrthod oherwydd ei bod yn fenyw. Mewn ysbryd 'fe ddangosa i iddyn nhw', penderfynodd newid ei gwedd a gwisgo fel milwr. Gyda chymorth dau filwr o Loegr yn Ffrainc llwyddodd i gael gafael ar wisg filwrol a phapurau wedi'u ffugio yn enw Dennis Smith. Gwisgodd staes i newid siâp ei chorff, torrodd ei gwallt a thywyllodd ei chroen. Cyrhaeddodd y Somme a chael gwaith fel cloddiwr gyda Byddin Alldeithiol Prydain (*BEF: British Expeditionary Force*) a bu'n gosod ffrwydrynnau ar y ffrynt wrth i'r gelyn ymosod. Ar ôl deg diwrnod aeth yn sâl a gan nad oedd eisiau achosi trafferth i'w chyd-gynllwynwyr, ildiodd i'r awdurdodau milwrol a chafodd ei

harestio ganddyn nhw. Cafodd ei holi fel ysbïwraig, ei chyhuddo o fod yn ddilynwr gwersylloedd (nid oedd hi'n gyfarwydd â'r term) a'i datgan yn garcharor rhyfel. Cafodd ei rhyddhau ar ôl iddi lofnodi datganiad na fyddai'n sôn am ei phrofiadau tan ar ôl y rhyfel. Yn ddiweddarach, cyhoeddodd lyfr *Sapper Dorothy Lawrence, the only English woman soldier*.

Mae pedair menyw wedi cael y Groes Filwrol:

- Michelle Norris o Gorfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin yn ystod ei gwasanaeth yn Iraq yn 2006
- Kate Nesbit o'r Llynges Frenhinol yn ystod ei gwasanaeth yn Afghanistan yn 2009
- Yr Is-gorporal Kylie Watson o Gorfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin yn ystod ei gwasanaeth yn Afghanistan yn 2011

## Sarah Bushbye (1985-)

Pan oedd yn gwasanaethu fel meddyg gyda'r fyddin yn Afghanistan yn 2010, bu'n gofalu am ddau filwr Prydeinig a dau o Afghanistan a glwyfwyd yn dilyn ymosodiad gan hunanfomwyr y Taliban. Yn yr adroddiad am y digwyddiad, dywedir iddi anwybyddu'r perygl o chwimsaethwyr a ffrwydron gan groesi 500 metr o dir agored i gyrraedd y dynion a glwyfwyd. Gofalodd amdanyn nhw gan adfywio un milwr a oedd wedi peidio ag anadlu. Yna helpodd i gael y rhai a oedd wedi'u hanafu ar hofrennydd a hynny wrth i'r gelyn barhau i danio. Mae'r adroddiad yn gorffen gyda'r geiriau hyn: 'Roedd ei phroffesiynoldeb, ei dewrder anhunanol a'i gwroldeb amlwg yn wyneb y gelyn a hynny pan oedd y gelyn yn saethu yn eithriadol, o ystyried ei rheng a'i phrofiad'.

## Cydnabyddiaethau

Ffynhonell 1: Y Brenin Rhisiart I; Wikipedia Creative Commons
Ffynhonell 2: Cofgolofn Owain Glyndwr; Geography.org.uk
Ffynhonell 3: Siarl I; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 4: Milwyr yr Almaen, Warsaw 1939; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 5: Wal Berlin 1961; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 6: Brwydr Crecy; Wikipedia Creative Commons
Ffynhonell 7: Brwydr Waterloo; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 8: Brwydr Somme, 1916; Wikipedia Creative Commons
Ffynhonell 9: Cofen Coedwig Mametz; Flickr Creative Commons
Ffynhonell 10: Brwydr Naseby, 1645; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 11: Gang près, 1780; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 12: Poster - 'Annibyniaeth sydd yn galw am ei dewraf dyn'; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 13: Archwilio'r cit; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 14: Peiriannau Oesoedd Canol; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 15: Castell Harlech; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 16: Cynllun Castell Harlech; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 17: Ymarfer saethwyr bwâu hir; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 18: Brown Bess; Flickr Creative Commons
Ffynhonell 19: Milwyr Prydeinig , Palesteina 1964; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 20: Tanc Prydeinig, Ffrynt Gorllewinol 1916; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 21: Tanc Centurion; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 22: Sopwith Camel, 1917; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 23: Awyren Lancaster,Hurricane a Spitfire; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 24: MQ Reaper, 2005; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 25: Y Grace á Dieu - Great Harry; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 26: Brwydr Trafalgar; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 27: Twr Martello; Garth Newton and licensed for reuse under this Creative Commons Licence
Ffynhonell 28: HMS Dreandnought a adeiladwyd yn 1906; Wikipedia Creative Commons
Ffynhonell 29: Milwyr Saesneg, 1739; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 30: Florence Nightingale; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 31: Betsi Cadwaladr; Wikimedia Creative Commons
Ffynhonell 32: Flora Sandes; Wikimedia Creative Commons